

ECO'R WYDDFA

Rhif 133

CHWEFROR 1988

Pris 20c

AGOR SIOP SGLODS YM METHEL



Fe fydd trigolion Bethel a'r cylch yn cofio nos Lun, Ionawr 4ydd am amser maith — oherwydd dyna'r dyddiad pan agorwyd siop sgloods y pentref. ein dymuniadau gorau i Gwyndaf Williams a'r teulu. Mae cerdd i ddathlu'r achlysur yng ngholofnau newyddion Bethel.

MYNNWCH YR HYN SY'N DDYLEDUS I CHWI

— CYN IDDI FOD YN RHY HWYR

Os ydych yn derbyn budd-dal atodol neu fudd-dal tai yna mae'n holl bwysig eich bod yn rhoi sylw i gynnwys yr erthygl fechan hon.

Ar ôl Ebrill 1af 1988 ni fydd modd i chwi hawlio dim o nifer fawr o eitemau y mae gennych hawl iddynt ar hyn o bryd.

Mae gan y Cyngor Sir ddwy ffurflen, un las 'Grantiau' ac un binc 'Taliadau Wythnosol Ychwanegol' sy'n rhestru eich hawliau presennol.

Mae'r naill yn ymdrin ag agweddau fel Dodrefn ac Offer tŷ hanfodol; dillad gwely; gwneud y tŷ


yn ddiddos rhag drafftiau; biliau tanwydd; eitemau mamolaeth a grant mamolaeth ar gyfer eitemau baban; dillad ac esgidiau a chostau mudo. Ymdrinia'r llall ag anghenion gwresogi; cymorth

YN Y GENEDLAETHOL



Luned Jones, Catrin Jones, Rhian Green a Faye Rochell o Ysgol Gynradd Llanrug fu'n cystadlu ym Mhencampwriaethau Nofio Cenedlaethol yr Urdd ym Mangor ar Ionawr 16. Roeddynt yn cystadlu yn yr adran dan 10 oed mewn dwy ras gyfnewid (dull cymysg a dull rhydd) ac roedd Luned (cefn) a Rhian (pili pala) mewn dwy ras unigol. Er na ddaethant i'r brig y tro hwn, mae'r ysgol a'r pentref yn falch iawn ohonynt ac yn eu llongyfarch ar eu camp o gyrraedd y Genedlaethol.

CLINIG I DDYNION YN LLANBERIS



Dafydd Arfon Jones o Lanrug oedd 'gini-pig' yr 'Eco', ac fe'i dilynwyd trwy'r holl brofion. Yn y llun uchod mae Nyr Tom Jones yn mesur pwysedd y gwaed.

Ar nos Lun, Ionawr 4ydd, cynhaliwyd Clinig Iechyd i Ddynion yn Llanberis — y cyntaf o'i fath yng Ngwynedd — os nad yng Nghymru. Bwriadwyd i'r Clinig Barhau o 6.00 tan 8.00, ond pan aeth gohebydd yr Eco i "fusnesu" am 6.30, roedd dros ugain o ddynion yn disgwyl eu twrn am archwiliad meddygol — ac roedd 'chwaneg yn parhau i gyrraedd! Does ryfedd i'r noson fod yn un brysus iawn i'r trefnwyr — Nyr Ceri Pierce a Nyr Tom Jones — a'i bod yn nes at unarddeg o'r gloch y nos ar yr olaf o'r dynion yn gadael y Clinig.

Y cam cyntaf oedd ymweld â Nyr Ceri Pierce, a oedd yn gyfrifol am bwyso a mesur, a chymharu'r canlyniadau er mwyn rhoi syniad am "ddiet". Yma hefyd rhaid oedd ateb holiadur ar arferion fel smocio, a rhoi gwybodaeth am salwch teuluol.


Yna, ymlaen at Nyr Tom Jones i brofi'r gwaed, profi'r dŵr (am siwgr a protin) a mesur pwysedd y

gwaed. I'r rhai oedd yn smocio (neu wedi bod yn smocio) roedd prawf ychwanegol i ddangos faint o garbon monoxide oedd yn yr anadl. Ni chymerodd yr holl brofion fwy na rhyw ddeuddeg munud, — a chafodd Dafydd Arfon ei "drwydded M.O.T." am flwyddyn arall!

preifat yn y cartref; costau golchi; ffioedd lletya; dallineb a llu o agweddau eraill.

Cysylltwch yn ddi-oed â'r Cyngor Sir i gael y ffurflenni. Ar ôl eu llenwi, anfonwch nhw i'ch swyddfa Awdurdod Iechyd a Nawdd Cymdeithasol yng Nghaernarfon.

Ein diolch i'r Cynghorydd Pat Larsen, Penisarwaun am ddwyn y wybodaeth uchod i'n sylw.



ECO'R WYDDFA

RHIF 133
CHWEFROR

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas,
Bron-y-Nant, Pontrhythallt, Llanrug.
(C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI:
Nant Roberts, 'Arwel', Pontrhythallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd
Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs Olwen
Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug.
(Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones,
60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug. (C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION: Jonn
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed. 870580.

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen. (Caernarfon 3536)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLEN: W.O. Williams 6 Rhyd
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D.J. Thomas, 8 Maes
Eilian. (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl
Elidir, Llanberis.

LLANRUG: Mrs Gillian Morris,
Annedd Wen, Tal-y-bont.
(Caernarfon 76075)

NANT PERIS: Mrs Mary Ff. Roberts,
Cerrig-y-drudion, Nant Peris.
(871327)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU Chwefror 25ain
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
Chwefror 16eg
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

CYNLLUN CYFNOD-RANNU YM MRYN AFON, LLANRUG

Ffordd yr Orsaf,
Llanrug

Annwyl Olygydd,

'Rydym yn ysgrifennu ar ran
cell leol Cymdeithas yr Iaith i
fynegi ein barn ar y cynllun
cyfnod-rannu ym Mryn Afon,
Llanrug.

Mae'r Gymdeithas yn derbyn
fod lle pwysig i dwristiaeth yn yr
economi lleol ond fod yna
agweddau negyddol i'r
diwydiant megis cyflogau isel,
gwaith tymhorol ac amodau
gwaith gwael. Safbwynt y
Gymdeithas yw y dylai unrhyw
gynllun twristiaeth fod o dan
reolaeth y gymuned leol ac o
fudd i'r gymdeithas honno.
'Rydym yn erbyn cynlluniau sydd
ddim byd amgenach na ffyrdd i
bobl ariannol wneud elw ar draul
eu gweithwyr a'r gymdeithas
leol. Gwrthwynebw'n gynllun
Bryn Afon am y rhesymau
canlynol.

1. Yn ôl meini prawf Cyngor
Arfon mae'r cais cynllunio'n
anghyflawn gan na chafodd y
Cyngor yr hyn y mae'n ofyn
amdano; sef, "Canlyniadau
astudiaeth ymarferoldeb
ariannol" y cynllun. Y perygl yw
i'r cynllun fod yn fethiant
masnachol ac i'r Swyddfa
Gymreig roi caniatâd i droi
unedau'r safle yn 160 o dai
preswyl yn groes i bolisi'r cyngor
lleol sy'n gwrthwynebu tai
newydd yn yr ardal dan sylw.

Heb wybodaeth am gefndir
ariannol a rhagolygon
masnachol y cynllun nid oes
modd trafod cais y datblygwyr
mewn modd ystyrlon. Nid oes
diben i Gyngor Arfon ystyried y
cais tan y detgelir y wybodaeth
angenrheidiol am y cyllid sydd tu
cefn i'r cynllun.

2. Er bod yr ymgeisydd wedi
gwneud yn fawr o'i gysylltiadau
lleola'i aruchel achau hynafol nid
oes a wnelo hyn ddim a phwy
fuasai'n rheoli'r cynllun. Ni
fuasai'r cynllun dan reolaeth y
gymdeithas leol ac nid yw'n
debygol o fod dan reolaeth yr
ymgeisydd gan fod y rhan fwyaf
o gyllid y cynllun yn dod o'r
'Ddinas' yn Llundain. Nid oes gan
hap-fuddsoddwyr y 'Ddinas'
ddiddordeb ym mudd gweithwyr
a thrigolion Llanrug. Gwneud yr

elw mwyaf posib yw eu hunig
nod hwy.

3. Honnir y bydd y cynllun yn
creu nifer o swyddi ond
gwyddom o brofiad fod dweud a
gwneud datblygwyr yn aml ddim
yr un peth. Heb 'astudiaeth
ymarferoldeb ariannol' nid oes
tystiolaeth y gwiredir yr
addewidion.

4. Nid yw maint y cynllun yn
gydnaws â phentref fel Llanrug.
Ymdoddi i'r gymuned nid ei
boddi ddylai cynllun twristiaeth.

5. Cydnabyddir fod mawr
angen cyfleusterau hamddena
yn Llanrug. Dylai cyfleusterau
hamddena fod o dan ofal
cyhoeddus gyda'r ddarpariaeth
yn bennaf ar gyfer ysgolion a'r
cyhoedd yn lleol. Gyda'r cynllun
preifat hwn buasai'r defnydd y
caniateid i bobl leol ei wneud o'r
cyfleusterau yn dibynnu ar
fymrwyl y datblygwyr. Eto,
mae'n hawdd gwneud
addewidion er mwyn ennill
caniatâd cynllunio oni fuasai gan
y cyhoedd unrhyw hawl i sicrhau
y defnyddid y cyfleusterau
hamddena yn ôl yr angen lleol. I'r
datblygwyr mae anghenion y
brodorion yn eilradd.

6. Yng ngeiriau Prif Swyddog
Cynllunio Arfon "nid wyf wedi
f'argyhoeddi fod y farchnad yno
ar hyn o bryd am ddatblygiad
cyfnod rannu newydd mewn lle
fel Arfon". Felly, hap chwarae
pur fyddai rhoi caniatâd
cynllunio.

I grynhoi. Credwn nad oes
modd sicrhau rheolaeth leol na
budd y gymdeithas leol yn y
cynllun hwn. Mae'n groes i
bolisi'r Cyngor a hyderwn y
gwrthodir y cais gan gynghorwyr
Arfon. Os yw'r datblygwr yn
parhau â'u cais gofynnwn i'r
awdurdod cynllunio wneud y
canlynol:

1. Cynnal cyfarfod cyhoeddus
yn Llanrug i ddehongli'r cynllun
ac i roi cyfle teg i'r pentrefwyr
fynegi barn arno.

2. Gofyn i'r Cyngor Cymuned a
chynghorwyr lleol Arfon fynegi
eu safbwynt hwy gerbron y
cyfarfod hwnnw.

3. Ystyried barn
ddemocrataidd y cyfarfod
hwnnw fel prif sail i benderfyniad
y Cyngor ar gais datblygwyr Bryn

CYMDEITHAS RHINI AC ATHRAWON YSGOL SYR HUGH OWEN CAERNARFON

Annwyl Olygydd,

Mae rhaglen gyffrous o
ddigwyddiadau wedi eu trefnu ar
gyfer y flwyddyn gan Gymdeithas
Rhieni ac Athrawon Ysgol Syr
Hugh Owen, Caernarfon, yn
cynnwys Ffair Wanwyn.

Mae'r Gymdeithas yn anelu at
godi £1,000 yn y Ffair hon a
gynhelir yn yr ysgol ar nos Fercher,
y 23ain o Fawrth. Bydd pob ardal yn
nalgylch yr ysgol yn gyfrifol am
drefnu stondinau yn amrywio o
lyfrau a thegannau i gynnyrch o bob
lliw a llun. Bydd y Gymdeithas yn
cysylltu gyda'r ardaloedd yn fuan.

Mae dau gyfarfod arall hefyd
wedi eu trefnu'n barod, sef cyfarfod
i roi cyfle i rieni drafod arholiad
newydd y TGAU ar y 3ydd o
Chwefror, a chyfarfod arall yn nes
ymlaen yn y flwyddyn, i drafod
problemau cyffuriau ac alcohol.

Cofion gorau,

Eurig Wyn

Cadeirydd y Gymdeithas
Rhieni ac Athrawon

GWRANDAWIADAU NOSON LAWEN

Bydd cyfres newydd o'r rhaglen
deledu **Noson Lawen** yn cael ei
recordio ar ffermydd mewn
gwahanol rannau o Gymru yn ystod
yr haf ac fe fydd gwrandawiadau ar
gyfer talentau newydd yn cael eu
cynnal cyn bo hir ym mhob cwr o'r
wlad. Mae yna wahoddiad i unrhyw
un sydd am gynnig eitem i'r gyfres,
boed gân, eitem ddoniol, neu beth
bynnag y bo, i ddod i'r
gwrandawiadau hyn.

27 Chwefror, Ysgol Segontium,
Caernarfon.

Dylid anfon am ffurflen gais at:
Noson Lawen, Teledu'r Tir Glas,
Maesincla, Caernarfon, Gwynedd.

Afon.

Os dilynnir y tri cham uchod
yna ni fydd y farnleol yn cael ei
diystyru fel yn y achos diweddar
yn Y Felinelli. Dim ond drwy
wneud penderfyniadau agored
ar sail y farn gyhoeddus y mae
gwneud yn siŵr na chaiff ciwed o
hap-fuddsoddwyr ben rhyddid i
gam ddatblygu'r fro hon.

Yn gywir,

Selwyn Jones, Treforfa
Selwyn Williams, Cartref.

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd
ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHIOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

CYNLLUN ARFON WLEDIG

Er fy mod yn cymeradwyo y syniad o lunio polisi tymor hir a cheisio patrymu dyfodol i'n cymunedau yma yn Arfon, teimlaf nad yw cynnwys y ddogfen hon yn cynnig nemor ddim gobaith ar gyfer y dyfodol i bentrefi dirwasgedig fel Dinorwig sydd yn gweiddi allan am yr hawl i fodoli, yn hytrach na chael eu gadael i waedu i farwolaeth fel sydd yn digwydd ar hyn o bryd.

Gyda bron i ugain mlynedd o amser wedi mynd heibio ers cau y chwarel, mae pentref Dinorwig, fel sawl pentref arall, wedi colli ysgol a swyddfa bost. Canlyniad anochel sefyllfa o'r fath fel y gŵyr pawb yw bod calon y pentref yn cael ei dryllio a dirywiad cymdeithasol yn anorfod. Mae'n gwbl anobeithiol, oherwydd diflaniad y gwasanaethau a sonnir amdanynt, i gadw a denu pobl ifanc i aros yn y pentref, gyda'r canlyniad anorfod bod y pentref wedi datblygu i fod yn gyrchfan i fewnfudwyr a pherchnogion tai haf. Mae'n rhaid mynd allan o'r pentref i dderbyn pa bynnag wasanaeth sydd ei angen— sefyllfa sydd yn cyflyrru pobl yn ddigon naturiol i ofyn a oes pwrpas mewn aros a byw mewn pentref o'r fath. Gosodir cyfyngiadau llym ar yr hawl i adeiladu tai newydd a phrin bod grantiau ariannol digonol ar gael i adnewyddu tai sydd wedi dadfeilio.

Felly y cwestiwn sydd yn cael ei ofyn yw beth sydd gan Gyngor Arfon, drwy gyfrwng y ddogfen hon, i'w gynnig i bentrefi fel Dinorwig. Yn syml, dim. Os gweithredir cynnwys y ddogfen hon dros y deng mlynedd nesaf yma, fe allwn weld difodiad y gymuned am byth. Nid codi bwganod yw hyn, yn hytrach wynebu realiti y sefyllfa— rhywbeth nad yw y ddogfen hon, gwaetha'r modd, yn ei wneud.

Fodd bynnag, er gwaetha difrifoldeb y sefyllfa, mae ewyllys y bobl leol i barhau a sicrhau bywyd newydd i'r pentref yn dal i fod mor gryf ac erioed. Eto mae'n rhaid wrth gefnogaeth y Cyngorau. Beth am weld y cyngor Dosbarth yn mabwysiadu polisiau a fyddai yn annog pobl i weithredu yn adeiladol ar ran eu pentrefi. Gellir cychwyn proses o'r fath drwy drefnu arolwg o'r sefyllfa drwy anfon holiaduron i gartrefi er mwyn cael barn y gymuned eu hunain am eu dyfodol.. Yna gweithredu ar y canlyniadau a geir drwy gynnig pob cefnogaeth posibl i hyrwyddo anghenion a dymuniadau y gymuned. Hynny yw, os oes galw am siop leol yna sicrhau fod pob cefnogaeth posibl yn cael ei estyn i ddarparu gwasanaeth o'r

fath.


Pobl sydd yn gwneud cymuned ac mae'n bwysig bod ganddynt y cyfle i leisio eu barn ar ddyfodol eu cymunedau. Pe rhoddid y cyfle hwnnw iddynt yna fe allai'r Cyngor wedyn eu trin a'u trafod a llunio polisiau adeiladol a gobeithiol ar gyfer y degawd nesaf. Dyma ddylai cynnwys y ddogfen yma fod. Yn anffodus, nid dyma sydd yma ac o'r herwydd mae'n amhosibl gweld sut y gallwn ymfalchïo yn y math o gymuned fydd gennym ymhen y degawd.

Cynghorydd Glyn Tomos.

M.O.T. I DDYNION



Nyrs Ceri Pierce yn casglu manylion am bwysau, taldra a hanes afiechydon teuluol.



Nyrs Tom Jones yn dangos y brosedd syml o brofi'r gwaed.

REG YN CANU ETO



Braf gweld fod Reg wedi ail-gydio yn y gitar ac wedi dechrau canu ar lwyfanau unwaith eto. Nos Iau, Ionawr 21 bu'n perfformio i ffyddloniaid tafarn Penbont, Llanrug. Gwaith anodd mae'n debyg ail-lansio gyrfa o flaen ffrindiau a chydabod.

Mae Reg Edwards, rhan o'r ddeuawd boblogaidd yn y chwedegau, Aled a Reg, yn byw yn Neiniolen ac wedi gwneud sawl ymdrech i ail-gychwyn ei yrfa fel canwr 'gwlad' ond mae gwaeledd neu effeithiau damweiniau wedi ei rwystro bob tro.

Ond erbyn hyn mae pethau'n argoeli'n dda; mae ganddo asiant a nifer o ddyddiadau i'w cadw ar hyd a lled Gogledd Cymru. Dymuniadau gorau iddo.

Cyflwyno £100 i Apêl yr Urdd



Dyna'r swm a gasglwyd yng Nghyngerdd Nadolig Ysgol Gynradd Bethel. Yn y llun gyda'r plant y mae Glenys Griffith a dderbyniodd y siec ar ran pwyllgor Bethel o Apêl Eisteddfod yr Urdd 1990.

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Cymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa

Cofiwch am gyfarfod
Nos Fercher, 7 Chwefror 1988
7.30 p.m.
Ysgol Gynradd Bethel

ROL WILLIAMS

"Troed yr Wyddfa
ar Droad y Ganrif"

DEWCH YN LLU!

CWM-Y-GLO

Gohebyd: Mrs Iris Rowlands, 'Glanrafon' (872275)



Criw Hapus yr Ysgol Feithrin.

YR YSGOL FEITHRIN: Cynhaliwyd noson goffi lwyddiannus iawn ar Ragfyr 14, gwnaed elw o £200 tuag at gael teganau a nwyddau i'r ysgol feithrin.

Enillwyr y raffl oedd: Bocs o nwyddau - 12 Dolafon; Herbs & Spices - Mrs Flint, Bwlch; Gwin mewn basged - Mrs Jones, Seiont House; Bocs o nwyddau - 10 Dolafon; Sherry - G Evans, 3 Brynteg, Llanberis; Pillowcases - Eric Wyn, Penrhyn Quarries; Tedi - 24 Dolafon; Bag - John Chick, Garage; Ornaments - Brian, Penrhyn Quarries; Teisen Nadolig - M Cawthorpe; Bottle Gear - Selwyn Becws; Dyfalu dyddiad geni y Tedi - Ceri Davies, Brynrefail; Raffl oddi mewn - Clown - Carys, Glanydon; Sion Corn - Post Cwmyglo; Dyn Eira - Delyth, Glasfryn; Sent - Audrey, Brynrefail.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb anfonodd rodd ariannol, a gyfrannodd at y raffl neu gyfrannu mewn unrhyw ffordd arall a'n cefnogi ar y noson. Diolchwn i Mr Roberts y Prifathro a staff yr ysgol am y teganau i'r Ysgol Feithrin ac hefyd am eu cymorth a'u parodrwydd i ni ddechrau'r ysgol. Diolch i bawb arall hefyd sydd wedi ein helpu a'n cefnogi.

Agorodd yr Ysgol Feithrin bnawn lau lonawr 7fed gyda Mrs Carol Jones, Deiniolen yn athrawes. Mae'r Ysgol yn cyfarfod bnawn Llun a phnawn lau am 1 o'r gloch tan 2.50 p.m. Deg o blant sydd yn mynychu ar hyn o bryd ac maent yn dod o Gwm-y-Glo, Brynrefail a Phonrhythallt. Mae gennym ddwy wirfoddolwraig sydd yn helpu gyda'r plant yn wythnosol Mrs Mary L McKerracher a Miss Medi Jones. Diolch iddynt am ymgymeryd â'r gwaith.

Mae'r plant yn mwynhau eu hunain yn chwarae efo'r teganau sydd genym yn barod ac yn canu. Mae angen mwy o deganau arnom yn enwedig beiciau, coets a moduron addas i blant dwy a hanner i bedair oed. Os oes rhywun gyda rhai i'w rhoi i ni neu eu gwerthu'n rhad cysyllter â Mrs Sioned Jones, Llanberis 872085.

EGLWYS SANT GABRIEL: Yn ystod oedfa'r hwyr nos Sul lonawr 3ydd cyflwynwyd anrheg i Miss Ceridwen Hughes, gynt o Stryd Llyn, Cwm-y-Glo, ar ran aelodau'r eglwys. Cyflwynodd y wardeiniaid Mr E.G. Owen a Mrs M Roberts, dlws arian a thusw o flodau i Miss Hughes, i ddathlu ei phenblwydd yn 80 oed ac mewn gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth gwerthfawr i Eglwys St. Gabriel lle bu'n organydd ers 60 o flynyddoedd.

ADRAN URDD PENLLYN: Panto: Bu hanner cant o blant yr Adran a'u rhieni yn Theatr Gwynedd, Bangor yn gweld Pantomeim Cwmni Hwyl a Fflag, Codi Stêm. Cafwyd noson hwyllog iawn, a thystiodd pawb iddynt ollwng tipyn o stêm yn ystod y perfformiad!

YR YSGOL GYMUNED: Gwasanaeth: Cynhaliwyd gwasanaeth nadolig yng Nghapel yr Annibynwyr, Tabernacl, nos lau 17eg Rhagfyr. Bu'r plant ac aelodau o glwb Pobl y Cwm yn cymryd rhan. Rhoddwyd y fendith gan y Parch Gwynfor Williams, a Mrs Eirian Howells oedd yr organyddes. Gwnaed casgliad, a chafwyd swm o £31.67; prynwyd dau degan i'r Ysgol Feithrin newydd yng Nghwm-y-Glo gyda'r arian a chyflwynwyd hwy i Mrs Sioned Jones, Cadeirydd yr Ysgol Feithrin, ddechrau'r tymor hwn.

PARTI: Cafodd dosbarth mrs Morris barti Nadolig eitha gwahanol eleni. Fe'i cynlluniwyd yn gyfangwbl gan blant hynaf yr ysgol; nhw a fu'n prynu, paratoi ac arlwyio'r bwyd i gyd yn ogystal â chynllunio'r gemau ar ddiwedd y bwyta. Cafodd y plant hwyl a budd o wneud y gwaith a mwynhaodd y plant lleiaf eu parti'n fawr.

CLWB IEUENCTID: Canu Carolau: Er na chafwyd cwmni y mul ac nad oedd y tywydd mor garedig â hynny wrthym ar y noson, ni lwyddodd hyn rhag atal rhai o'r aelodau a'u rhieni i fynd o gwmpas y pentref i ganu carolau. Casglwyd £27 ac mae y diolch i chwi fel pentrefwyr am eich cefnogaeth a'r croeso a gafwyd wrth fynd o gwmpas y cartrefi. Cyflwynwyd yr arian i G.I.S.D.A. (Grŵp Ieuenctid Sengl Di-gartref Arfon) sydd fel mae'r enw yn ei awgrymu yn grŵp o gynrychiolwyr awdurdodau statudol a gwirfoddol sydd yn ceisio gweithredu yn adeiladol dros bobl ifanc sengl Arfon sydd yn canfod eu hunain yn ddi-gartref. Eisoes mae'r Clwb wedi derbyn llythyr diolch am y cyfraniad ariannol gan Ysgrifennydd y grŵp.

Is-Arweinydd: Gan fod y Clwb wedi gweld cynnydd sylweddol yn rhif yr aelodaeth dros y misoedd diwethaf mae Mrs. Morfudd Thomas o Fethel wedi ei phenodi i weithredu fel is-arweinydd i'r clwb. Eisoes mae

Diolch o galon i bobl ifanc Clwb Ieuenctid Cwm am wirfoddoli i blygu'r rhifyn hwn o'r Eco.

Mrs Thomas wedi dangos y bydd hi yn gaffaeliad mawr i waith y clwb. Croesawn hi yn gynnes atom.

Gweithgareddau: Erbyn i'r nodiadau hyn weld golau dydd gobeithir y bydd Disgo wedi ei drefnu ar gyfer yr aelodau. O fewn yr wythnosau nesaf y gobaith yw y bydd rhai o'r aelodau wedi cystadlu mewn cystadlaethau tenis bwrdd, pwl ac ati.

CYDYMDEIMLIR â Mrs M Williams a Miss Myra Williams, Goleufryn ar farwolaeth priod a thad, Mr Eric Williams mor hynod o annisgwyl. Bu Mr Williams yn fasnachwr dillad llwyddiannus yn yr ardal yn dilyn ei dad y diweddar Mr R. G. Williams a gychwynodd y busnes. Roedd yn ŵr adnabyddus yn yr ardaloedd, ac yn fawr ei barch. Bu am flynyddoedd yn aelod o Lywodraethwyr yr Ysgol Gymuned a chymerodd ddiddordeb mewn dosbarthiadau nos yn y gorffennol. Cydymdeimlir hefyd â'i ddwy chwaer Mrs Rhona Thomas, Llanberis a Mrs Dilys Sheasby, Corffe Castle.

CLWB POBL Y CWM: Croesawyd yr aelodau gan y Llywydd Mr Llew Hughes, i gyfarfod cyntaf y flwyddyn, pnawn lau lonawr 14. Roedd nifer o'r aelodau yn wael a dymunwyd adferiad buan iddynt. Mrs Chick a Mrs Watkins oedd wedi trenfu cwis ar wybodaeth gyffredinol, ac wedi ymrannu yr aelodau yn ddau dîm. Hwyllog fu'r holi a'r ateb ac ar ddiwedd yr ornest Tim A fu'n fuddugol.

Diolchwyd i Mrs E. Williams, Pantafon, Mrs M Williams, Elidir View a Mrs Mari Jones, Min y Don am eu rhoddion i'r Clwb. Bu'r brodyr Morris y Becws yn garedig unwaith eto gyda'r rhoddion arferol i gyfarfod y Nadolig. Diolch yn fawr iddynt. Gofalwyd am y te gan Miss E Hughes a Mrs E Hughes. Rhoddwyd y raffl gan Mr a Mrs R Rowlands a enillwyd gan Mrs J Parry.

EGLWYS SANT GABRIEL: Undeb y Mamau: Nos Wener Rhagfyr 4 cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau yn Hafan Elan Llanrug. Yr oedd y gwasanaeth yn ngofal y Parch. Carol Evans, Caernarfon. Darllenwyd y llithoedd gan rai o'r aelodau.

Nos Lun Rhagfyr 7, mwynhaodd yr aelodau a'u ffrindiau eu cinio Nadolig yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis. Nos Sul Rhagfyr 20 cynhaliwyd

gwasanaeth o Naw Llith a Charol yn yr Eglwys. Yr oedd y gwasanaeth dan ofal Mr J.T. Jones, Tregarth, a darllenwyd y llithoedd gan Nia, Carys, Delyth, Marc, Sara, Elen, Terry, Alison a Myfanwy. Cymerodd Anna, Bethan a Gwennan ran yn yn gwasanaeth hefyd. Yr organyddes oedd Miss Ceridwen Hughes. Bore Nadolig gweinyddwyd y Cymun Bendigaidd gan y Parch R.E. Williams, Llanwnda.

DIOLCH: Dymuna Miss Ceridwen Hughes gynt o 4 Pool Street ddiolch yn garedig iawn i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ben ei blwydd yn bedwar ugain oed, ac hefyd at aelodau Eglwys Sant Gabriel am y blodau a'r anrheg.

LLONGYAFARCHIADAU i Doreen a Mark ar enedigaeth eu mab Paul Steven.

i Mr a Mrs Robin Price ar fod yn daid a nain unwaith eto, ac i Mrs Hannah Williams, 2 Maes Gerddi ar fod yn hen nain.

i Bryn Evans, 15 Dôl Afon a Steven Owen 14 Dôl Afon ar gyrraedd eu penblwydd yn un ar hugain.

i dîm pêl-droed dan 16eg yn rownd derfynol Tlws Padarn yn erbyn Llanberis. Cwm fu'n fuddugol o 2 gôl i 1. Da iawn hogia!

CRONFA SGANNYDD CWM-Y-GLO

Wedi blwyddyn o waith caled ac ymdrech gan lawer o bentrefwyr Cwm-y-Glo, llwyddwyd i basio nôd lleol yr ymgyrch i godi arian at nôd Sgannydd i Ysbyty Gwynedd. Cafwyd sawl gweithgaredd yn ystod y cyfnod, o Nosweithiau Bingo i osod cadwyn o arian o amgylch yr ysgol, a rhoddwyd sawl rhodd hael i'r gronfa gan gymdeithasau, mudiadau ac unigolion. Diwrnod llawen oedd hi felly pan aeth swyddogion y Pwyllgor i Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar i gyflwyno siec o fil o bunnoedd i'r gronfa ganolog. Roedd £175 yno eisoes, yn gwned cyfanswm o £1,175, cryn gannoedd yn fwy na'r nôd. Yn y llun gyda'r Dr Jim Davies, mae'r Cadeirydd, Gwyn Hefin Jones; yr ysgrifennydd, Mrs Gwyneth Chick a'r trysorydd, Dafydd Idriswyn.

DROS Y NÔD



PUM CENHEDLAETH



Llun hanesyddol o'r Cwm — pum cenhedlaeth. O'r chwith i'r dde, Mrs Enid Price, sy'n hen nain; yna Mrs Hannah Williams (hen, hen nain), Mrs Sandra Judge, y fam a Mrs Anne Hughes (nain). Donna Anne sydd ar lin ei hen hen nain yw kannwyll eu llygaid.

O'R CWM I BLACKPOOL YM 1938



Hen lun wedi ei dynnu yn Balckpool yn 1938. Y pedwerydd o'r dde yn yr ail res yw'r diweddar Mr. O. Williams, 5 Dôl Afon. Tybed oes rhywun yn adnabod eraill yn y llun neu efallai yn gwybod hanes y trip? (Diolch i Mrs Williams, 5 Dôl Afon am ei fenthygl).

CYFARFOD CYHOEDDUS YNGLYN Â LLIFOGYDD ARDAL CWMYGLLO



Cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd Gymuned Cwm y Glo ar Ionawr 5ed i drafod problemau gorlifo yn yr ardal. Cadeiriwyd y Cyfarfod gan y Cynghorydd Brian Jones. Hefyd yn bresennol roedd Dafydd Wigley A.S. aelodau o'r Cyngor Sir, Cyngor Arfon, Y

Bwrdd Dŵr, y B.C.C.T. a nifer helaeth o drigolion Cwm y Glo a Phenllyn. Cafwyd trafodaeth frwd ar y problemau sy'n bodoli yng Nghwm y Glo, a phwyswyd ar y gwahanol awdurdodau i ofalu fod eu rhan arbennig hwy o'r gwaith yn cael ei wneud rhag blaen.

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

OEDFA NADOLIG: Nos Sul, Rhagfyr 13eg cynhaliwyd gwasanaeth i ddathlu'r Nadolig yng Nghapel M.C. Brynrefail yng gnhwmni plant ac ieuencid yr Eglwys. Cymerwyd rhan gan Eluned Roberts, Joanne, Eira Wyn, Maria a John Evans, Einir, Catrin ac Owain Gwyn, Nicola Houston, Glenda a Paula Walters, Rhian Davies, Marian Lloyd Jones a lola Davies. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mr Gwyn Hefin Jones a thraddodwyd yr anerchiad gan y Gweinidog, y Parch John Morris. Ar derfyn yr oedfa cafwyd cyfraniad ar lafar a chân gan barti Sefydliad y Merched. Gwnaed casgliad teilwng yn ystod yr oedfa tuag at Apêl y Sahel.

CYDYMDEIMLO: Mae ein cydymdeimlad dwysaf â theulu y diweddar Mr Meredydd Foulkes, Bryn Derw a fu farw yn Ysbyty Gwynedd ar Ragfyr 10fed. Roedd Mr Foulkes yn hannu o un o deuluoedd hynaf y pentref a melyn oedd ei atgofion bore oes am Frynrefail ac yn arbennig am y cartref hynafol ym Mryn Derw.

GWASANAETH DECHRAU BLWYDDYN: Nos Sul, Ionawr 10fed yng Nghapel M.C. Brynrefail, cafwyd oedfa weddi i ofyn am fendith ar y flwyddyn newydd. Llywyddwyd y cyfarfod gan Miss Lowri Prys Roberts a chymerwyd rhan gan Mr Gwyn Hefin Jones, Mr Bertie Lloyd Roberts, Mrs Jennie Angharad Roberts, Mr Richard Wyn Evans a Mr Elfed Roberts. Cyhoeddwyd y fendith gan Y Parch John Morris.

LLOFFION DIDDOROL: Daeth yr atgofion a ganlyn i olau dydd drwy law Mrs Betty Owen, Tros yr Afon, o eiddo ei diweddar fam Mrs Elizabeth Foulkes (gynt o Haulfryn). Mae'n amlwg eu bod yn ymateb i'r hyn a ddarlennasai Mrs Foulkes yn yr Eco tua dengli mlynedd yn ôl, am Dr Mills Roberts ac wedi bwriadu eu hanfon i'r golygydd. Dyma'r nodiadau y daeth Mrs Owen o hyd iddynt wedu ei hysgrifennu ar gefn hen amlen!

"Diddorol oedd darllen yn yr Eco am Dr Mills Roberts fel p7el-droediwr enwog. Yr oedd hefyd mor alluog fel llawfeddyg yn yr Ysbyty yn y Chwarel. Bu, damwain fawr yn 'New York' yn 1908 ac anafwyd dau bartner yn ddifrifol. 'Nhad oedd un ohonynt, Roland G. Thomas o Gwmyglo a'r llall oedd Edward Jones o Fethel. Cafodd Edward Jones dorri ei ddwy fraich i fwrdd a 'nhad yn cael 'compound fracture of the skull'. Yn ôl yr hanes gwnaeth y llawfeddyg, Dr. Mills Roberts beth oedd yn ymylu ar wyrth yn yr amser pell hwnnw. Gwellhaodd y ddau ymhen hir amser a Dr Mills Roberts oedd yr arwr mawr yn ein cartref ni. Yr oedd wedi rhoi plât arian ym mhen fy nhad, ac yr oedd yn llwyddiant. Bu'n gweithio am amser wedyn yn y chwarel ac aeth i'r Rhyfel Byd Cyntaf ond yr oedd Edward Jones yn analluog i'r

diwedD. O bosib gall plant i Edward Jones fod yn byw o gwmpas yn awr. Gwelais yn ddiweddar mewn newyddiadur am ryuwn wedi cael triniaeth a chael plât arian yn ei ben. Mae'n rhaid fod yr un driniaeth yn dal o hyd ag oedd hanner can mlynedd yn ôl yn Chwarel Llanberis! Gyda llaw, bu mam yn gweini yn yr Ysbyty cyn priodi ac am Dr. Mills Roberts fe ddywedai: 'Gŵr bonheddig i'r carn'. Dyna fo — "Gwell enw da na chyfoeth lawer".

SEFYDLIAD Y MERCHED: Nos lun, Ionawr 18fed cyfarfu'r gangen yn y Festri. Croesawyd gan y Llywydd, Mrs Pat Jones, ŵr gwadd y noson, sef y Liffenant Emery o Fyddin yr Iachawdwriaeth. Rhoddodd adroddiad hwyliog a chynhwysfawr am ei yrfa. Wedi ei hyfforddi fel cemegwr clinigol, yn fuan iawn daeth yr alwad i adael ei swydd a chael hyfforddiant dwy flynedd yn Llundain i fod yn swyddog gyda Byddin yr Iachawdwriaeth. Teithiodd i nifer o wledydd tra'n dilyn ei alwedigaeth. Yn ŵr ifanc, amlwg o argyhoeddiad, adroddodd am dri phrofiad a gafodd mewn gwahanol rannau o'r byd — yn Hong Kong, Barnados a Llundain. Erbyn hyn mae'n gweithio yng Nghymru. Treuliodd gyfnod yn Rhosllannerchrugog ac yn awr yn gofalu am Wynedd gyfan, gan nad oed ond un ganolfan yn y Sir ar hyn o bryd a honno yng Nghaernarfon. Diolchwyd iddo yn gynnes iawn am ei gyfraniad gan Mrs Jean Davies. Rhoddwyd lluniaeth y noson gan Mrs Ifanwy Jones a Miss Lowri Prys Roberts a diolchwyd iddynt gan Mrs Jennie Hughes. Enillydd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Jennie Roberts, oedd Mrs Mair Jones.

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs E. Welsby a'r teulu yn eu profedigaeth o golli chwaer yng nghyfraith yn Warrington.

W.H. JONES

TRYDANWR

**Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS**

FFÔN:

LLANBERIS 871470

Contractau
Weirio Tai

Cawodydd Trydan
ac ati

CABS LLANRUG



C'FON 5951

**Prisiau cystadleuol.
Gwaith contract
pell ac agos**

DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

Erbyn y daw'r rhifyn hwn o law'r argraffwr fe fydd y flwyddyn eisoes wedi rhedeg ymlaen yn gyflym. Bron na ellir dweud bod tymor gwneud addunedau wedi dod i'w derfyn ond serch hynny fe fentraf ddymuno blwyddyn newydd lewyrchus i holl ddarlennwyr yr Eco. Mae rhyw ramant ymhob dechrau boed yn ddechrau blwyddyn neu ddechrau tymor, ac ynghlwm â'r dechrau mae rhyw ddisgwyliad am weld rhywbeth amgenach yn dod i'n bywydau - rhywbeth a fyddo'n cyfoethogi'r ardal yr ydym yn byw ynddi, ac yn gwasgaru rhyw berargolau i siriolir amgylchedd.

Pan ddaw dechrau blwyddyn mae'n arferiad gennym i edrych yn ôl ar y flwyddyn y ffarweliwyd â hi, ac fe gofwn bod nifer o drychinebau câs wedi digwydd yn ystod y flwyddyn honno er i gymhelliad godi o'r is ymwybyddiaeth i ni geisio anghofio'r digwyddiadau trist hyn, ond mynnu codi i'r wyneb y maent.

Fe ddaeth damweiniau i ran ein cyd-fforddoliau - Mr Robert Wyn Jones, 5 Maes Eilian ee yn anafu ei law tra'n dilyn ei alwedigaeth, a Mrs Thomas, 1 Bro Elidir hithau'n disgyn yn "Boots" Caernarfon, ac yn derbyn anaf i'w llaw. Deallwn hefyd i'r llaw fod yn bur boenus iddi. Hyderwn erbyn hyn ei bod ar y ffordd i wella'n foddhaol.

Er i Mrs Mary E Jones, Tŷ'n Fawnog gael treulio'r Nadolig a diwedd blwyddyn yn ei chartref i mewn ac allan o'r ysbyty y bu hithau.

Fe deimlwn ninnau ym Maes Eilian gryn chwithdod o sylweddoli bod Mrs Elizabeth Jones, 9 Maes Eilian heb ddod adre'n ôl i'w chartref. Erbyn hyn fe ddeallwn ei bod hi wedi dod yn nes adref ac yn edrych ymlaen yn eiddgar am gael dod yn ôl i'w thŷ ei hun. Mrs Annie Jones - hithau wedi gwneud ei chartref gyda'r ferch a'i mab yng nghyfraith ym "Mharadwys" ger Gaerwen, Ynys Môn. Nid yn ei hiechyd hithau, yr hyn y dymunem iddo fod. Fe gawn bod Mrs Dora Jones, Bryn Hyfryd yn gaeth i'w chartref - gwendid yn ei hanes hithau yn rhwystr iddi fentro allan. Mae henaient eto wedi troi'n broblem i Mrs Catherine E Jones, Foel Gron (gynt o Danbuarth Uchaf) hithau'n dibynnu ar Mrs Elizabeth A Jones y ferch. Mae nifer o'r rhai a enwyd wedi troi eu pedwar ugain, ac un ohonynt yn ddeg a phedwar ugain.

Chwith hefyd yw cofnodi marwolaeth Mr Goronwy O Williams, 18 Maes Castell, Llanllyfni, ond yn fwy adnabyddus i ni fel Goronwy Pant Sardis. Fe fu'n byw hefyd yn

Nhai Bro Elidir cyn symud o'r teulu i Llanllyfni lle 'rwy'n credu iddo fod yn cadw Tŷ Capel y Bedyddwyr yno. Ei oedran ef oedd 74.

Mae dechrau'r flwyddyn newydd yn debyg i ddiwedd y flwyddyn flaenorol mor bell ag mae'r tywydd yn y cwestiwn. Fe gawn fwy na'n siâr o wynt a glaw er bod y tymhewredd ar y cyfan yn gymharol dyner. Ar gopaon y mynyddoedd yn unig y gwelir eira ac mae llaer yn hyderu na ddaw yn is i lawr na hynny; er bod garddwyr yn credu fod rhew ac eira yn gwenud lles i bridd yr ardd.

Cyn dechrau ar newyddion ein Cymdeithas Ddiwylliadol Undebol fe hoffwn gyferio at y ffaith bod pob un ohonom yn dueddol i feddlwl yn nhermau ei enwad ei hun. Glynir yn glos wrth syniadau'r "Llan" "Y Goleuad", "Y Tyst" a "Seren Cymru" gan anghofio'r cylchgrawn cyd-enwadol "Cristion" sy'n cyflwyno darlun ar gynfas lletach ac eangach.

Y dyddiau'n arwain i'r Nadolig fe gafwyd noson yn y Ganolfan i ganu carolau cyfarwydd i bawb wedi eu dethol gan Miss Olwen Roberts, Tŷ'r Ysgol a Mrs Beti Lloyd Roberts, 11 Maes Eilian. Yna ar Nos Iau cyntaf y flwyddyn newydd sef 7fed o Ionawr fe aethom i festri Capel Dinorwig i gynnal cwrdd gweddi dechrau'r flwyddyn. 'Roedd y cyfarfod hwn yn syml a dirodres ac yn gychwyn rhagorol i ail hanner tymor y Gymdeithas Lenyddol. Cyrddau tebyg i hyn sy'n sicrhau cario ymlaen draddodiad y tadau ac fe ellir tystio'n ddi floesgri mai pobl grefyddol yw'r rhai sy'n mynychu cyrddau'r Gymdeithas.

Fe gawsom ar ddeall hefyd bod Mr Bob Parry, Bron Fferam, Fachwen wedi myned i'r ysbyty. Gobeithiwn y caiff yntau adferiad llwyr a buan.

Fe dderbyniais neges ar y ffôn bod llun o ysgol Dinorwig ym mhedwar degau'r ganrif o'r blaen ym meddiant mab y diweddar Mr Ben Roberts, Bron Foel, cangen a geir yma o hen deulu Trosgol - sydd rhwng Deiniolen a Mawnog y Gof. Rhywle yng nghyffiniau Welshpool maer mab, ac fe hoffai os yw hynny'n bosibl gael unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r achlysur y tynnwyd y llun. Tybed a oes rhywun a allai gyflwyno'r wybodaeth hon?

Hyfrydwch yw cael llongyfarch Miss Margaret Jane Jones y Foel ar ei hymddeoliad o'i gwaith yn yr Ysbyty ar ddydd olaf 1987. Balch ydym hefyd o glywed am ddyweddïad Alison Jayne - ail ferch Mr a Mrs Abram Jones, Foelgron â James Thomas -

Mab Mr a Mrs Clark ger Bae Colwyn. Dymuna Mrs Katie Griffiths, Arwelfa, Dinorwig ddiolch i'w theulu, cymdogion a chyfeillion am y llu cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phenbwlydd yn 80oed ym mis Tachwedd. Diolch yn fawr.

Hefyd mae Mrs Elizabeth Jones, 9 Maes Eilian hithau'n diolch o galon i'w chymdogion, teulu a ffrindiau am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd ac hefyd yn ystod y Nadolig. Diolch yn fawr iawn. Datgenir diolch gan Mrs Medwen Griffiths, Foel Cottage i'w pherthnasau a chyfeillion a fu mor garedig wrthi tra bu yn Ysbyty Gwynedd.

PWYLLGOR APÊL EISTEDDFOD GENEDELAETHOL YR URDD, DYFFRYN NANTLLE AC ARFON 1990: Mae'r Apêl yn mynd o nerth i nerth ac mae'r diolch am hynny yn ddyledus i chwi bobl dda y pentref sydd wedi bod yn hynod o gefnogol i'r ymgyrch hyd yma. Eisoes mae oddeutu £350 wedi ei gasglu (£500 yw y nod), a phan ystyrir mai ond ychydig dros 6 mis o amser sydd wedi mynd heibio ers lansio'r apêl yna mae yn glod aruthrol i'r pentref bod y fath swm wedi ei gasglu hyd yma. Gobaith y pwyllgor yw y byddwn wedi cyrraedd ein nod erbyn yr haf. Rydym yn hyderus iawn gyda eich cefngoaeth y byddwn yn gallu gwneud hyn.

CANU CAROLAU: Llwyddwyd i gasglu £28 tuag at yr apêl ar ôl i griw o ddeg fynd o gwmpas y pentref i ganu carolau. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb fu yn canu ac am y croeso gafwyd wrth fynd o gwmpas y cartrefi.

GWEITHGAREDDAU O HYN YMLAEN: Gan bod cynnal yr Eisteddfod bentref wedi ennyn cymaint o ymateb a brwdfrydedd


ymysg nifer yn y pentref mae aelodaeth y pwyllgor apêl wedi ei gynyddu a bellach mae oddeutu pymtheg o bobl yn gweithredu arno. Mae'n dda gallu dweud bod oddeutu hanner ohonynt yn ddysgwyr ac yn awyddus i ymhel yn llawn ym mywyd cymdeithasol y pentref. Fel canlyniad maer trefniadau ar droed i drefnu Noson Lawen ar ddyddiad eto i'w drefnu ym mis Mawrth; diwrnod o chwaraeon i'r teulu cyfan ym mis Mehefin-Gorffennaf ac yna yr Eisteddfod ar ddechrau Rhagfyr. Felly digon i edrych ymlaen amdano. Os ydych â diddordeb mewn ymuno yn yr hwyl o drefnu gweithgareddau hyn neu mewn cynorthwyo y pwyllgor apêl mewn unrhyw ffordd arall yna buasai'r swyddogion yn falch o gael clywed gennych.

RHODD ANRHYDEDDUS: Dros y Nadolig derbyniwyd rhodd ariannol hynod anrhydeddus gan Dim Dart Merched Tafarn y Bull, Deiniolen o £50. Eisoes mae llythyr o ddiolch wedi cael ei anfon iddynt a'r bwriad yw defnyddio'r arian i hyrwyddo gweithgareddau yn y pentref. Ni allwn ddiolch digon iddynt am feddlwl amdanom. Diolch ferched.

EFFEITHIAU DŴR: Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae y Cynghorydd Glyn Tomos wedi bod wrthi eto yn ceisio cael Adran Priffyrdd y Cyngor Sir i wneud rhywbeth ynglŷn â'r dŵr sydd yn llifo ar wyneb y ffordd sydd yn arwain o dro Pen Bwlch i lawr Gallt y Foel. Fe allai yn hawdd fod yn broblem ddifrifol pe byddai yn rhewi. Hefyd parhau mae'r ymdrech i sicrhau na ddigwydd llifogydd eto i rai o denantiaid Bro Elidir.

Dyma lun o Clwt-y-Bont wedi ei dynnu o Ben y Bigil fe dybiwn. Sylwch nid yw Pentre Helen na Hafod Oleu yn y llun. Pa flwyddyn tybed?

Village, Clwt-y-bont.



GWILYM H. WILLIAMS
BRYN DAIRY
2 BRYNHYFRYD
BETHEL

Ffôn
Port Dinorwig 670786



Llefrith
Llaeth Porfa
Llaeth heb Hufen
Wyau, Tatws
Diodydd
Ffrwythau

CRIB COCH

Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772

TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN

Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES
17 BRYN TIRION
PENISARWAUN
Ffôn: LLANBERIS 872421

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn, Waunfawr 626.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Yng nghyfarfod mis Rhagfyr o'r Gymdeithas cafwyd sgwrs hynod o ddiddorol gan Mr Rhodri Prys Jones ar ei ymweliad ag Unol Daleithiau yr Amerig i olrhain hanes John Gruffydd Jones, brodor o Benisrwaun a fu'n ymladd yn y rhyfel cartref. Llywydd y noson oedd Mr Gareth Jones a thalwyd y diolchiadau gan Mrs Ellen Jones. Yn y cyfarfod nos Lun, Ionawr 11 cafwyd sgwrs hwyliog iawn gan Mr Jack Thomas, Caernarfon, ar rai o hen gymeriadau y dref, a hefyd beth o'i hanes pan yn farbw'r yn Llundain. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mr Iolo Huws Roberts a thalwyd y diolchiadau gan Dr A L Miles. Nos Lun, Ionawr 25 ceir sgwrs am "Ddolgelau a'i Chymeriadau" gan Mr John Elwyn Jones, gyda Mr Gwyn Davies yn llywyddu.

PLAID CYMRU: Cynhelir Noson Cwis ar y cyd rhwng canghennau Waunfawr, Llanrug a Bontnewydd, ym Mryn Eirian (Snowdonia Park Hotel) am 7.30 y.h. nos Fercher, 3ydd o Chwefror. **Dewch yn llw i gefnogi'r noson.**

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Rhagfyr:

1. £40: P N Greasley, Min Afon;
2. £25: C W Williams, 1 Dol Erddi;
3. £10 Beryl Walker, Snowdonia Park Hotel.

Hefyd talwyd 4 gwobr ychwanegol o £10 yr un i:

Alun Williams, Fron Goeddiog; Mrs E Pierce, Bryngwyn;
R O F Jones, Tan y Waen a Mrs E Jones, Eryri Wen.

LLONGYFARCHIADAU i Karen Turner, Collfryn, ar ei phen-blwydd yn 21 oed, ac ar ei dyweddïad â Andrew Parry, Bro Waun;

Ac i Thomas Pritchard, Bro Waun, ar ei briodas yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLWN â Mrs M Jones, Cae Adda Goch, ar ei phrofedigaeth o golli chwaer.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Mary Lloyd Jones, Bryn Tawel, a gafodd â ddamwain yng Nghaernarfon cyn y Nadolig. Gobeithiwn ei gweld gartref cyn bo hir.

ADREF O'R YSBYTY: Croeso adref o'r ysbty i Mr Emlyn Davies, Bodwyn, a Mrs Beryl Jones, Dol y Coed. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddynt.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod Cangen Waunfawr nos lau, 3ydd o Ragfyr.

Agorwyd gan y llywydd, Mrs Pat Parry a darllenwyd y cofnodion gan yr ysgrifenyddes.

Croesawyd Miss Margaret Griffith o Glasinfryn atom a chafwyd noson ddifyr yn ei gwyllo yn arddangos sut i wneud melysion. Diolchwyd iddi gan Mrs C A Jones am arddangosfa ragorol. Mrs Ellen Jones enillodd y raffl oedd yn rhoddedig gan Miss Griffith a Mrs Buddug Rowland enillodd y planhigyn, rhodd gan Mrs Missen.

Enillodd y tîm dartiau eu hymgyrch yn erbyn tîm Arfon B yn y cylch cyntaf. Bydd yr ail gylch yn cael ei chwarae ddiwedd mis Ionawr, 1988.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd ar Ionawr 7fed yn Nhŷ Bwyta Gwynedd, Llanberis, ble cafodd yr aelodau eistedd i fwynhau eu cinio Nadolig.

LLONGYFARCHIADAU: I'r rhai canlynol ar lwyddo yn eu arholiadau cerddorol:

Clarinet: Gradd 3: Bethan Wyn, Y Frenni (Teilyngdod);

Gradd 5: Gareth Davies, Nant y Mynydd (Anrhydedd)

Ffliwt: Gradd 4: Alaw Meleri Jones, Rhandir Mwyn (Teilyngdod);

Piano: Gradd 4: Gareth Davies, Nant y Mynydd (Teilyngdod);

Theori: Gradd 5: Gareth Davies, Nant y Mynydd.

CLWB 100 PLAID CYMRU: Dyma restr o enillwyr y Clwb am fis Rhagfyr:

1. Gwilym Hughes, Tref Eilian;
2. John Huws Roberts, Pant Teg;
3. Rob Jones, Tan y Fron.

CLWB GWYRFAL: Cafwyd dau gyfarfod difyr o'r Clwb cyn y Nadolig. Ar Ragfyr 10fed mwynhawyd cinio ardderchog yn Tŷ Golchi. Ein gŵr gwadd oedd y Parchedig Trefor Jones, Llanfairfechan a chroesawyd ef yn gynnes gan y llywydd, y Parch Barry Thomas. Roeddym i gyd fel aelodau yn falch o'i weld ef a Mrs Jones, a hefyd Mrs Barry Thomas.

Ar Ragfyr 17eg, ar wahoddiad y Rheithor, ymunodd aelodau'r Clwb mewn Gwasanaeth Carolau yn Eglwys Sant Ioan gyda phlant ysgol y Waun, yng ngofal y Prifathro a Mrs Eames.

Ar Ionawr 7fed cynhaliwyd cyfarfod cyntaf 1988 yn y Ganolfan o dan lywyddiaeth y Rheithor. Ar ôl dymuno yn dda i ni fel Clwb, anfonwyd ein cofion at Mrs Mary Lloyd Jones sydd yn Ysbyty'r Bwth, Caernarfon yn gwella ar ôl damwain cyn y Nadolig. Hefyd at aelodau sy'n wael gartref ac yn methu bod yn bresennol. Cafwyd awr ddifyr iawn yng nghwmni Mrs Mary Vaughan Jones yn adrodd hanes ei thaith ddiweddar i Affrica. Roedd lluniau

gwyh ganddi o'r wlad ac o'r anifeiliaid gwyllt wedi eu cyfyngu i'w cynefin naturiol yn Kenya a Tanzania.

Diolchodd Mrs Gwen Jones ar ein rhan, hefyd i Mrs Gill Brown a'i chyfeillion o Antur Waunfawr. Rydym yn gwerthfawrogi eu cymorth cyson. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Parry Williams, Gwynfa a'r enillydd oedd Mrs G Jones, Tref Eilian.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Ionawr 21 gyda Mr Selwyn Griffith yn ymweld â ni.

O GYNGOR Y WAUNFAWR

Bydd Carafan Atal Troseddau'r Heddlu yn ymweld â phentref y Waunfawr ar ddydd lau, Chwefror y 18fed, rhwng 10.30 y bore a 3.30 y prynhawn ym maes parcio'r Ganolfan. Gobeithir y bydd pawb sydd ag unrhyw broblemau neu gwynion y carent eu trafod, yn mynd â nhw i sylw'r heddw-geision fydd ar ddyletswydd yn y garafan. Mae hyn yn dilyn cyfarfod a gafwyd gyda

chynrychiolwyr yr heddlu yn y Cyngor Cymuned yn ddiweddar.

Cafodd y Bwrdd Dŵr a'r Cyngor Sir eu beirniadu'n hallt yng nghyfarfod diwetha'r Cyngor am fethu ymateb i gwynion y Cyngor ynglŷn ag anhawsterau y sustem ddraenio drwy'r pentref. Soniodd Cyngorwyr fod cyfarfodydd wedi eu trefnu yn y pentref rhwng cynrychiolwyr y pentrefwyr â'r awdurdodau priodol dair a phedair gwaith, ond nad oedd dim byd adeiladol wedi ei wneud. Cytunwyd i roi un cynnig arall arni i weld a ddeuai gwell ymateb y tro hwn.

Cytunwyd y dylid rhoi pob cefnogaeth bosibl i'r ymgyrch i gadw Ysbyty'r Bwthyn, Caernarfon ar agor. Pwysleisiodd nifer o Gynghorwyr fod angen pwysu ar yr Awdurdod lechyd mor bwysig yw gwasanaeth yr ysbyty i'r ardal gyfan, ac mai nid ysbyty i wasanaethu tref Caernarfon yn unig yw hi.

NANT PERIS

Gohebydd: Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrigydrudion, 871327.

BEDYDD: Pnawn Sul, Rhagfyr 6ed, yng Nghapel Rheoboth gan y gweinidog y Parchedig Trefor Lewis, bedyddiwyd Lyndsey Marie merch fach Hefina a Keith Roberts, Awelfryn Tan y Coed.

CYDYMDEIMLWN â Mr Peter Welsby a'r teulu yn ei brofedigaeth o golli ei fodryb.

LLONGYFARCHIADAU i Jennifer a Robin Lloyd-Davies ar enedigaeth eu merch fach Olwen Selina. Mae hyn yn golygu fod Margaret a Tony Ellis yn nain a taid am y tro cyntaf a Selina Morris yn hen nain am y tro cyntaf.

LLONGYFARCHIADAU i Llinos Haf ar lwyddo yn ei arholiad gradd 4 gyda'r Piano. Llwyddodd gydag anrhydedd, da iawn Llinos dal ati.

Dymuna Mr a Mrs G.S Jones ar ran Pensiynwyr Nant Peris ddiolch yn fawr i Bwyllgor y Carnifal am eu rhoddion caredig yn ystod gwyliau'r Nadolig.

COLEG PRIFYSGOL CYMRU ABERYSTWYTH

GRADDAU DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG I FYFYRWYR ALLANOL

Mae'r Coleg yn cynnig cynllun gradd BA Prifysgol Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr allanol, a gwahoddir ceisiadau am le o fewn y cynllun yn Hydref 1988. Bydd myfyrwyr allanol yn dilyn cyrsiau yn y pynciau a ganlyn:

RHAN 1:

Tri phwnc o blith ADDYSG, ASTUDIAETHAU CREFYDD, CYMRAEG, DRAMA (ASTUDIAETHAU THEATR), HANES CYMRU, LLYDAWEG, CERDDORIAETH.

RHAN 2:

Anrhydedd Sengl mewn CYMRAEG neu

Anrhydedd Cyfun mewn dau o'r canlynol:

ADDYSG, CYMRAEG, DRAMA, HANES CYMRU, CERDDORIAETH

Cynigir cynhorthwy arbennig i fyfyrwyr allanol drwy ohebiaeth a chyswllt personol rheolaidd. Darperir nodiadau a chanllawiau manwl ynghyd â darlithiau ar gaset mewn rhai pynciau.

Astudir Rhan 1 dros 1-3 blwyddyn yn ôl dewis y myfyriwr. Bydd rhan 2 yn estyn dros 4 blynedd fel arfer.

Gellir cael manylion am y cynllun a ffurflenni oddi wrth Hywel W. Jones, Ysgrifennydd Gweinyddol, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Gwahoddir ceisiadau erbyn 15 Ebrill, 1988.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



**DEWIS EANG O
WELYAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?**

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

**AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.**

EISTEDDFOD CHWAREL FFIAR INJAN – HYDREF 1937

Cystadleuaeth: Cân ddigrif ar unrhyw alaw adnabyddus.
(Alaw: "Hen ffon fy nain")

Diwedd Mis

Mae'n canu, ac mae'r sied yn troi,
Mae'n Sadwrn Diwedd Mis,
Rhaid bod yn fachog neu mi fydd
Ein cownt yn llawer is.
Mae'n ddigon dyrys, Duw a wŷr,
Ar ddau mewn cerrig gwael,
Dibynnu'n llwyr ar glwt neu ddau
Gan ambell Gristion hael.

"Wel rŵan, Rhisiard, tyn dy gôt,
Mae yma lot o waith, –
Dyw'r prinsus gora ddim ond pump,
A'r dytchis ddim ond saith.
Be fydda ora i ni neud? –
Dwi bron â chymryd rhaw
A rhiglo'r wal – mae'n anodd iawn
Gwastáu ynghanol baw".

"Dwi'n meddwl, wir, na mynd am gar
'Di'r gora peth i mi,
Mae'n well na berfa o beth diawch –
Mae yn y seiding dri".
O'r gora, dos, mi rigla i
Nes doi di yn dy ôl,
A thyrd a fo o flaen y wal
O afa'l llafna ffôl."

Mae'n fore clos a chroen fy nghefn
Yn glynnu yn fy nghrys,
Wrth riglo tomen fawr fy hun
Does ryfedd mod i'n chwys.
Ond dyma Rhisiard efo'r car –
"Fan yma, yr hen law –
Rhaid i ni frysio, ffwr' hi,
A does dim tryst am law.

"Wel, cyfra di y gora, Ritch,
Mi gyfra inna'r ail,
A chofia eu cymysgu'n dda –
Mi holltodd rhai fel dail."
Mae'r cerrig mana' yn o lew,
Ond am y cerrig bras,
Heb ddeunydd, ma' hi'n broblem fawr,
Wel wir, ma' isio gras!

"Faint ydi'r igian-deddag, Ritch?"
"Myn cebyst, saith-a-dwy;
Rhaid ca'l tri mwrw ne' myn diawch
Mi fyddwn ar y plwy."
"Tyrd hefo mi – mae acw glwt,
Mi rhown o ar y bwrdd
I ga'l pen teg o dan y cyn
A llifio'r drwg i ffwrdd.

"Mi neith y tro heb newid lli
I ddarfod rhein dwi'n siŵr,
Mi gawn li newydd fora llun –
Ble mae y bwcad ddŵr?"
Brasgamu am y beipan fain
A'r fwcad yn fy llaw,
Ond dyna ergyd yn y twll –
Mae'n amser 'panad naw'.

Mae hanner dydd yn agosáu
Cyn imi fedru troi,
Ond rhaid cael tamaid bach ar frys
A dod yn ôl dan gnoi.
Mae'r clwt yn bardo erbyn hyn
A llifiad ar ei ben,
O diolch am gael rhoddi pwys
Fy nhin ar floccyn pren!

Mi holltaf hwn am ddau-dew-wyth,
Does wybod yn y byd
Be ddaw ohono .. Damia las!
Mae pefal ar ei hyd!
"Ble cawn ni ddeunydd arall,
Ritch?
Ma'r lleill i gyd rhy gul,

Faint elwach fyddi di na fi
O' cnocio tad ddydd Sul!?"

"Mi af i ofyn i Wil Preis –
Mae o mewn cerrig da,
Ond bydd 'cyfeillion' eraill, mi wn,
O'i gwmpas heddiw'n bla."
"Wel, ia, dos ma'n siŵr y cei
Well croeso na gawn i –
Mi bechais yn ei erbyn ddoe
Wrth ddadla' ganiad tri.

"Cyn i ti fynd rho i mi help....
Be wnest ti i dy fys?
Wel, dyn â'th helpo, dyna hi,
Bob amsar pan fydd brys!
Hen gyt go hegar hefyd, Ritch,
Tyrd, rŵan i'r mashin,
Gad imi ddal dy gôt, rhen law,
A thynnu'th gara lin."

Yn ôl drachefn i'r wal fy hun
I gario beichiau dau,
A'r marciwr Bach yn gweiddi,
"Cownt!"
A minnau heb wastáu.
Mae llwyth yn dod a'r car, 'mwyn tad,
Yn union ar ei ffordd;
Slap-heibio wedi dod yn ôl
A thorri coes yr ordd!

Mae'r trydydd wedi dod i drefn
Yn rhyfedd fesul un,
Ond bellach rhaid mynd am fy nghôt
A'u gadael tad ddydd Llun.
Er imi faglu'n ôl a blaen
A chael fy amal gwmp,
Bydd rhai yn gofyn fore Llun,
"Be sy, rhen Em, – mis-pump?"

A gorchwyl chwyslyd wedyn fydd
Eu llwytho ar y car
A'u gwrthio i'r clwt peilio mawr
Gan wlyio pob pen bar.
Ac os mai berfa fydd dy ran
Un ansad iawn yw hon,
Ychydig iawn wna iddi droi,
'Nenwedig ar groes gron.

Fel hyn o fis i fis y daw
Helyntion pawb ynghyd,
Doedd ryfedd inni alw hwn
Yn Sadwrn Diwedd Byd'.
Rhyw weithio'n ddiwyd mewn un lle
A'r meddwl yn dan draw;
Dal ati'n hwyr a'r drafael bron
O'r golwg yn y baw.

Drwy'r gaeaf hir a'i farrug oer,
A misoedd poeth yr ha'
Mae hwn a hwn mewn bargaen wael

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

A'i frawd mewn bargaen dda.
O brysied dydd y gwelir pawb
Yn gweithio dan 'run pris,
Fel na bydd angen maeddu corff
Am gardod ddiwedd mis.

Emyr Jones
(Waunfawr y pryd hwnnw)
(Cerdd yn nhafodiaith y chwarel a gyfansoddwyd hanner can mlynedd yn ôl 1937.)

GEIRFA (ar gyfer yr oes olau hon!)

Clwt – Bloc o lechfaen yn barod i'w mân- hollti.

Pronsus gora – ('princesses') Llechi tenau o'r radd orau yn mesur 24modfedd wrth 14 modfedd.

Dytchis – Llechi 24 neu 22 modfedd o hyd.

Rhiglo – Clirio'r domen rwbel oddi wrth ochr y drafael.

Wal – Yn yr hen amser cwt â'i wyneb yn agored, wedi ei adeiladu â ragiau a'i doi â chrawiau mawr yn gysgod rhag y tywydd. Yn y sied yn ddiweddarach golygai'r llecyn teirllath neu bedair o led lle y gweithiai'r holltwr a'r naddwr.

Trafal – (Trafael) Llafn haearn wedi ei osod ar fainc bren. Eisteddai'r naddwr ar y fainc i naddu'r cerrig ar y llafn.

Gwastau – (Gwneud y cynnyrch i fyny'n union gyfrif sef yn chwarter cant (32 o gerrig). Yn null y chwarelwr o gyfri golygai cant 128 o gerrig.

Mwrw – Rhifyr y cerrig fesul tair a gelwir y tair gyda'i gilydd yn 'fwrw'. Gwna deng 'mwrw' a dwy garreg, sef deuddeg carreg ar hugain, chwarter cant o gerrig.

Saith-a-dwy – Saith mwrw a dwy garreg, sef 23 o gerrig, felly mae angen tri mwrw i'w gwastáu yn chwarter cant.

Blocyn pren – Ar hwn yr eisteddai'r holltwr. Yr enw parchus arno oedd 'blocyn hollti', ond yn iaith y chwarel 'blocyn tin' bob tro.

Dau-Dew-Wyth – Wrth fân hollti yn y wal roedd yn rhaid i'r holltwr ystyried ansawdd y clwt. Os yn iach a rhywiog fe'i holltid yn union yn ei ganol nes cael dau drwch, neu ddau 'dew' fel y'i gelwid, a disgwyldid cael wyth carreg o bob un, yn gwneud cyfanrif o un garreg ar bymtheg.

Pefal (neu befal) – Toriad neu

gyswllt at hyd y llechfaen, h.y. gyda'r graen. Mae bron yn anweledig. Wedi ei ddatod, mae'r ymyl yn finio fel rasel ac wedi achosi llawer o niweidiau tost i ddwylo'r gweithwyr. Ni dderbynid carreg â 'befal' ynddi.

Mashin – Cwt y pwyswr. – y dyn oedd yn cadw cyfrif o bob tunnell o wâst a ddôl o'r bonc. Yma, ac yn offis y bonc, y cedwid y 'Bocs Cymorth Cyntaf', fel ag yr oedd – dim ond rhodyn o fandej a photel o 'iodine'. Tywalltwyd cannoedd o alwyni o 'iodin' i archollion yng nghwrs y blynyddoedd! Byddai'n rhaid i'r anaf fod yn bur wael cyn y gadawai'r chwarelwr ei waith a mynd i ysbyty'r Chwarel am driniaeth.

Cara Lin – (nei 'garpad -lin'). Gwisgid hwn ar lin chwith y naddwr rhag gwisgo twll yn y trywsus, ac i arbed y lin. Amrywiol deunydd, e.e. darn o ledr, carped neu hen strap pwli. Daeth hen deiar modur yn fwy cyffredin yn ddiweddarach.

Marciwr – Is-swyddog. Ei waith oedd gofalu fod y cyfrif yn gywir a'r cerrig i fyny â'r safon. Iddo ef y rhoddai'r chwarelwr ei gownt ar ddiwedd mis.

Slap-heibio – Y profiad poenus o fethu pen y cyn, a thrawo'r llaw â'r morthwyl neu'r ordd.

Mis-pump – Pan ddôl'r mis i ben a chwarelwr heb lwyddo i wneud cyflog, arferid yn achlysurol, ac o dan amgylchiadau arbennig, roddi wythnos arall iddo, h.y. 'mis-pump-wythnos.'

Clwt Peilio – Lle ar y bonc i ystorio cerrig. Cludai pob chwarelwr ei gynnyrch yno ar ddiwedd mis, yna maent ar stoc y gwaith a'r chwarelwr wedi darfod â nhw.

Croes Gron – ('turn table') Math o fwrdd crwn yn troi ar ei golyn pan fo dwy ffordd haearn yn croesi ei gilydd.

CEUNANT

Gohebydd: Ifan Parry, Morwel
(Waunfawr 321)

CYDYMDEIMLWN. â Mr John Thomas, Bryn Awelon a'r teulu ar farwolaeth ei fam, Mrs Elisabeth Eluned Thomas yn Rhos Isaf ar Ragfyr 29.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Gwasanaeth NEWYDD
ar garreg eich drws

SEGONTIUM
CAR • VAN HIRE

Cerbydau Pickup, Luton, Cargo a Bysus Mini
Hefyd Gwasanaeth Glanhau Ceir
UNED 5, STAD CIBYN
CAERNARFON Ffôn: 2013

LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

Dylai'r llyfrau isod fod ar gael naill ai yn eich llyfrgell neu yn eich siop lyfrau lleol.

Paid a blino dy fforwards!

Lynn Davies

Gwasg Gwynedd £2.75

Sgyrsiau difyr am y byd rygbi.

Dyddiadur Nant y Wrach

Hilma Lloyd Edwards

Cyhoeddiadau Mei £2.00

Dyddiadur rhannol ddychmygol am y flwyddyn 1915.

Angel Pen Ffordd

John O. Evans

Mae Newid yn Chenj

William Owen

Gwasg Carreg Gwalch 60c yr un

Dwy gomedi fer yng Nghyffres y Llwyfan

Dydi Pethau'n Gwella Dim

Gwenno Hywyn

Gwasg Gwynedd £1.75

Mwy o ddyddiadur Delyth Haf, a dilyniant i 'Tydi Bywyd yn Boen'.

Llyfr ABC

Elwyn Ioan

Y Lolfa £2.25

Llyfr ABC lliwgar i'r plant bach.

Mac Pync

Alys Jones

Gwasg Gomer £1.60

Y diweddaraf yng Nghyffres Corryn.

Pleidiol Wyf i'm Gwlad

J.O. Jones

Gwasg Gomer £2.95

Dwy stori i oedolion

Ail Lyfr o Idiomau Cymraeg

R.E. Jones

Tŷ John Penry £6.95

Casgliad arall o idiomau i ddilyn y casgliad a gyhoeddwyd gyntaf ym 1975.

Dynes mewn Du

Gweneth Lilly

Gwasg Gomer £3.95

Cyfrol o storïau ysbryd i oedolion.

Cariad yn y Caribi

Sioned Pugh

Cyhoeddiadau Mei £1.20

Y diweddaraf yng Nghyffres y Fodrwy

Brychan Dir

Nansi Selwood

Gwasg Gwynedd £4.75

Nofel hanesyddol ar gyfer oedolion.

O Wythnos i Wythnos

John Roberts Williams

Cyhoeddiadau Mei £2.50

Cyfrol o sgyrsiau a ddarlledwyd yn y gyffres 'Dros fy Sbectol'.

Cribau Eryri

Rhiannon Davies Jones

Gwasg Gwynedd £6.25

Nofel hanesyddol arbennig iawn am flynyddoedd olaf Llywelyn Fawr a phlentyndod y Llyw Olaf.

Y BEIBL CYMRAEG NEWYDD

Ar Ddydd Gŵyl Ddewi (Mawrth 1, 1988) bydd Cymru'n dathlu cyhoeddi Y Beibl Cymraeg Newydd, cyfieithiad cwbl newydd o'r Beibl i Gymraeg cyfoes.

Cyhoeddir Y Beibl Cymraeg Newydd gan Gymdeithas y Beibl, ac y mae'n ffrwyth chwarter canrif o weithgarwch cyson ar ran Cydbwyllgor Cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg. Heblaw'r panelau o ysgolheigion beiblaidd a llenyddol a benodwyd gan y Cydbwyllgor i baratoi'r cyfieithiad, bu cynrychiolwyr amrywiaeth eang o enwadau trwy Gymru yn cydweithio'n llawn yn y fentr. Y canlyniad yw fersiwn cwbl ecwmenaidd o'r Beibl.


Y mae Y Beibl Cymraeg Newydd yn seiliedig ar y testunau Hebraeg, Aramaeg a Groeg diweddaraf sydd ar gael, ac ysgrifennwyd ef mewn Cymraeg rhywiog, naturiol. Y mae'n ymdebygu o ran arddull i'r corff sylweddol o lenyddiaeth dda sydd wedi ei ysgrifennu yn Gymraeg yn yr ugeinfed ganrif. Y mae'n addas i'w ddarllen mewn addoliad cyhoeddus yn ogystal â chan ddarllen ydd unigol. Ym Medi 1988 bydd Cymru yn dathlu hefyd Bedwarcannmlwyddiant Beibl William Morgan - y Beibl sy'n gysail i'r Beibl Cymraeg yn yr Orgraff Safonol. Ni fwriedir i'r Beibl Cymraeg Newydd ddisodli ei ragflaenydd clasurol, ond yn hytrach i'w ddefnyddio'n gyfochrog ag ef yn eglwys, ysgolion, colegau a chartrefi'r genedl.

Cymeradwyaeth

Dywed y Parchedig George Noakes, Archesgob Cymru: "Y mae Y Beibl Cymraeg Newydd yn gampwaith o ran ei ysgolheictod a hefyd o ran ei ieithwedd. Mewn cyfnod tyngedfennol yn ein hanes ysbrydol y mae'n drysor o werth anafesuradwy."

A dyma sylw'r Parchedig Derwyn Morris Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg: "Heb unrhyw amheuaeth, digwyddiad pwysicaf 1988 yng Nghymru fydd cyhoeddi'r Beibl hwn; pe deuai'n gyfrwng i Dduw lefaru drwyddo o'r newydd wrthym, fel unigolion, fel eglwysy ac fel cenedl, gallai fod yn ddechrau pethau mawr yng Nghymru."

Gellir dewis rhwng pump o



wahanol argraffiadau: Argraffiad Safonol gyda Chlawr Meddal am £6.50; Argraffiad Safonol gyda Chlawr Caled a llythrennau aur am £7.95; ac Argraffiad Safonol gyda Chlawr Lledr Du a llythrennau aur am £24.95. Bydd dau argraffiad hefyd o'r Beibl yn cynnwys yr Apocryffa (y Llyfrau Deuterocanonaidd): Argraffiad gyda Chlawr Caled a llythrennau arian am £9.95, ac Argraffiad gyda Chlawr Lledr Du a llythrennau arian am £26.95. Gyda phob copi o bob argraffiad y mae'r Cyhoeddwr yn rhoi copi rhad o Gynllun Tri Mis o Ddarlleniadau Beiblaidd. Byddant oll ar gael ym mhob siop lyfrau dda o Fawrth 1, 1988 ymlaen.

I sicrhau Ffurflen Archebu, ynghyd â manylion am y Cynllun Disgownt ar Feiblau i Eglwysy, Ysgolion a Chenhadaethau, cysylltwch â Denise McEvoy, ar y rhif ffôn: Swindon (0793) 617381.

PLAS DAFYDD

Mae'r ymarferion wedi dechrau ar gyfer cynhyrchiad diweddaraf Cwmni Theatr Gwynedd fydd yn agor yn Theatr Gwynedd, Bangor nos lau 28 Ionawr am 7.30 p.m. ac ar daith drwy Gymru hyd 27 Chwefror.

Mae'n amlwg fod cynhyrchiadau Cwmni Theatr Gwynedd yn apelio at y bobl ieuanc yn yr ysgolion. Nid oedd bwriad gan y Cwmni i wneud 'matinees' o'r cynhyrchiad diweddaraf 'Plas Dafydd' gan Huw Roberts ond cymaint oedd y galw amdanynt fel bu'n rhaid trefnu rhagor.

Bu ymateb y bobl ieuanc i 'O Law i Law', 'Gymerwch Chi Sigaret?', a 'Lle Mynno'r Gwynt' yn hynod a dywedodd cyfarwyddwr 'Plas Dafydd', John Ogwen, ei fod wrth ei fodd efo'r galw am berfformiadau ychwanegol o 'Plas Dafydd'.

"Mae llawer o bobl wedi bod yn poeni am gynulleidfara dyfodol. Ydan ni'n poeni'n ormodol tybed?"



CYFLE I ASTUDIAETH LLAWN-AMSER

Coleg preswyl tymor-hir ar gyfer addysg oedolion yw Coleg Harlech, yn cynnig cyrsiau i ferched a dynion dros 21 - yn arbennig y rhai a adawodd yr ysgol yn gynnar - ym meysydd llenyddiaeth Saesneg, Hanes, Economeg, Athroniaeth, Seicoleg, Gwleidyddiaeth, Cysylltiadau Diwydiannol, Cymdethaseg, Astudiaethau Cymreig, Iaith a Llên Cymru a Llenyddiaeth Gymraeg.

Y mae cyrsiau Blwyddyn ar gael. Arwain cwrs dwy-flynedd i Ddiploma Prifysgol Cymru sydd a'i statws ei hun ac hefyd yn bodloni gofynion derbyniad Prifysgolion a Cholegau Politechnig ac Addysg.

Ceir mynediad drwy gyfweliad: nid oes angen cymwysterau. Y mae grantiau ar gael i ymgeiswyr addas.

Ysgrifennwch (gan ddyfynu'r rhif cyfeiriol PB 14) At y Cofrestrydd, Coleg Harlech, Harlech, Gwynedd, LL46 2PU

COLEG HARLECH

BARA CAWS "DIWEDD Y GÂN"

Ysgrifennwyd Diwedd y Gân ar y cyd gan ddau aelod o'r cwmni - Valmai Jones a Cefin Roberts, ac Ifor ap Glyn sydd wedi dod at y cwmni dros dro fel awdur o dan hyfforddiant.

Cyfarwyddir y sioe gan Valmai Jones, gyda Ian Selwyn Lloyd yn ei chynorthwyo. Gareth Glyn yw'r cyfansoddwr. Cynllunwyd y set gan Emyr Morris Jones ac mae Llinos Non Parri yng ngofal y gwisgoedd.

Yr actorion a fydd yn ymddangos yn y sioe yw Marged Esli, Dyfed Thomas, Judith Humpreys, Ifor ap Glyn a Cefin Roberts.

"Fe gwmpodd walia Jerico ac fe ganodd yr utgryn, fe gwmpodd "Wall Street" ac fe ganodd y werin am gariad, am ramant ac am geiniogau yn disgyn yn gawod euraidd o'r nefoedd. Mae'r gwybodusion yn darogan panig ariannol arall tua '89... fyddwn ni'n canu pan deimlwn yr esgid yn gwasgu tybed?"

Canu dawnio a breuddwydio mae Elwyn Jones, perchennog siop ddillad Paris House, beth bynnag. A phan ddaw'r esgid fach i wasgu'n dynnach arno, mae'n dal i drio

anwybyddu'r cynni ac yn gwisgo'i sgidia gora i gael dawnio ym mrechia'i hoff gwsmer Miss Ella.


Mae'r ddau wedi eu dallu gymaint fel na welant y blaidd wrth y drws mewn pryd?"

Bydd cyfle i chi ddarllenwyr Eco'r Wyddfa weld y sioe weledol, symudol, gerddorol, wahanol newydd yma yn:

Neuadd Ysgol Brynrefail, Llanrug, Nos Fawrth, Chwefror 23 am 7.30. Peidiwch ac oedi, archebwch eich tocynnau drwy gysylltu a:

Goronwy Hughes

Caernarfon 4839



ECO'R IFANC

DIWRNOD YN Y SYRCAS

Un diwrnod gwelais babell fawr streipiog, glas a gwyn ac roedd baner felen yn chwffio ar ben y babell yn y gwynt.

Gwelais yr olygfa yma pan es am dro i fyny'r mynydd a oedd yn tu ôl i'n tŷ ni.

Rhedais i lawr at fy nhŷ, cerddiais i mewn a gofynnais i'n nhad a mam os y cawn fynd i'r syrcas gyda nhw.

Es at y neuadd goffa, achos dyna lle roedd yr hysbysebion yn cael eu rhoi i fyny ar yr hysbysfwrdd, darllenais yr hysbyseb ac arno roedd yn dweud

Syrcas ymlaen
Nos Iau, Nos Lun,
Nos Wener a Nos Sadwrn
7.00

Tocynnau i'w cael wrth fynd i mewn
30c am docyn
Croeso i bawb

Rhedais adref, nos Sadwrn oedd hi, a doedd dim byd gen i ymlaen.

A'r noson honno, ni oedd y rhai cyntaf i mewn. Dewisom y seddau gorau a oedd yn y blaen, ac ar ôl i bawb eistedd a chymeryd eu seddau....

Dechreuodd y syrcas, roedd yn wych. Y peth cyntaf oedd taflu cyllyll. Daeth dyn a dynes i mewn i'r cylch. Gwisgai'r dyn bar o jîns glas tywyll a het ac esgidiau cowbois. Roedd ganddo ford wedi ei wneud o flawd lli.

Yna safodd y ddynes o flaen y bord a dechreuodd y dyn daflu cyllyll ati, roedd yn wyrth sut yr oedd y dyn yn medru taflu cyllyll at y ddynes heb ei brifo.

Ar ôl iddynt fowio ychydig o weithiau ar ôl ei gilydd aethant allan o'r cylch ac yna daeth y syrcas feistr yn ôl gan ddweud 'Boneddigion a boniddegasau, dyma'r Clowniaid: Calipo, Coffi a Noddy. Yna daeth car i mewn tebyg i un Noddy, ffrind Big Ears.

Yn eistedd yn y sedd flaen roedd dau glown, ac yn sefyll ar y bumper cefn roedd clown arall.

Roedd Coffi a Calipo yn ddau glown byr a thew, ac roedd Noddy yn glown tal, tenau a bywiog.

Rhedodd Noddy yn slei bach y tu ôl i Coffi a Calipo a thynodd eu trywsusau i lawr; roeddynt yn gwisgo Long Jons sbotiog, Long Jons Coch a sbotiau gwyn arnynt.

Yna rhoddodd ddau ddarn o bren y tu ôl i Calipo A Coffi a meddyliodd Coffi a Coco fod sedd y tu ôl iddynt a disgynnodd y ddau ar

y llawr.

Rhedodd Coffi a Calipo ar ôl Noddy, ac roedd Noddy o hyd yn nodio ei ben pan fyddai'n rhedeg felly dyna beth oedd Noddy yn ei wneud.

Yna gwelodd Coffi a Calipo bwmp dŵr a dau fwcad, un gwyrdd ac un melyn.

yn y fan a'r lle gwelont Noddy yn cerdded tuag atynt, "Dyma ein cyfle Calipo" meddai Coffi "Rhaid i ni frysio," a thaflodd Coffi a Calipo y dŵr dros ben Noddy ac roedd yn wlyb ddiferyd. Rhedodd y clowniaid i ffwrdd.

Dyma'r syrcas feistr yn ôl gan ddweud "Boneddigion a boneddigasau dyma'r Acrobats."

Rhedodd 6 dyn i mewn. Safodd tri ar y llawr, a dringodd dau ar ben y tri, ag un ar ben y ddau, roeddynt wedi gwneud triog.

Aethon nhw o'r cylch a daeth trapis yno a'r dyn a oedd yn reidio beic ar y weiren uchel hefyd.

Dringodd y dyn i fyny ar y boc dechrau ar y weiren uchel a'r ddynes a'r dyn ar siglen yr un, a dechreuasant siglo'n brysus a'r dyn a reidiai'r beic ar y weiren uchel.

Roedd popeth yn wych, a gwelais Eliffantod a cheffylau gwynion, mwncïod, teigrod a llewod. Ac es adref wedi fy mhlesio yn fawr ac ar y ffordd allan cefais glamp o gandï fflos, pinc.

Rhian Green (9 oed)

Mae gwobr y mis yma yn cael ei rannu rhwng Iona Vaughan, 1 Rhes Cambrian, Llanberis, a Rhian a Ieuan Green, Anedd Wen, Pontrug. Da iawn chi'ch tri! Beth am y gweddill ohonoch? Cofiwch anfon eich gwaith i'r Gornel. Hwyl tan mis nesa'!!

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**

Nadolig hen a'r ifanc a'r plant

Rydwi wedi bod yn meddwl sut oedd Nadolig pan oedd pobl hŷn na fi yn blant. Rwyf am sôn am Nadolig adeg y Rhyfel i ddechrau. Mi es ati i ofyn i Mrs Heulwen Jones oedd yn blentyn adeg y rhyfel. Fel hyn yr adroddodd ei stori hi.

Roedd ei mam yn gwenud taffi triog tua wythnos cyn Nadolig. Noson cyn y Nadolig roedd hi yn mynd i'w gwely tua 6 o'r gloch, ac roedd hi wedi rhoi ei hosan a'r waelod ei gwely. Roedd hi'n codi bob hyn a hyn i weld a oedd Sion Corn wedi bod. Roedd hi yn codi yn fore iawn, ac yn wir i chi roedd Sion Corn wedi bod a gadael pensel a chopi ysgrifennu, afal ac oren yn ei hosan. Cyw iâr bach ac ychydig o datws oedd cinio Nadolig yr adeg honno. Mae'n rhaid cofio mai adeg y rhyfel rydwi yn sôn amdano a doedd dim llawer o arian i'w gael yr adeg honno.

Nawr rydwi am fynd ymlaen at yr ail Nadolig. Nadolig fy mam. Mae hi wedi adrodd ei stori hi fel hyn.

Noson cyn Nadolig doedd fy mam ddim yn cael mynd i mewn i'r parlwr am fod nain wedi bod yn glanhau drwy'r dydd. Yr unig adeg oedd hi yn cael mynd i mewn i'r parlwr oedd i roi tair mins pei, a chwpan i Sion Corn gael gwneud diod o de iddo'i hun. Roedd hi yn mynd i'w gwely tua 6 o'r gloch. Doedd hi ddim yn gallu cysgu ond gwrandawar ar bob smic a sŵn roedd hi yn ei glywed. Roedd hi yn codi tua 6 y bore drannoeth. Roedd yna danllwyth o dân yn y gegin ac uwd ar y bwrdd mawr a'r twrci yn y popty. Ac wedyn roedd nain yn molchi y tair ar y bwrdd. Wedyn roedd nhw yn cael mynd i mewn i'r parlwr o'r diwedd mewn un rhes. Mam oedd yn gyntaf am mai hi oedd yr ieuengaf, ac wedyn fy modryb Mary ac wedyn fy modryb Anwen. Mae mam yn dweud ei bod hi yn hoffi bod yn gyntaf am ei bod hi yn cael gweld anrhegion pawb oedd Sion Corn wedi eu gadael ar ôl. Roedd modryb ac ewythr mam yn dod i lawr o'r tŷ nesaf gydag anrheg i mam a'i chwirydd ac roedd taid yn rhoi diod o sieri iddyn nhw, wedyn roeddynt yn cael eu cinio a chwarae gyda'u anrhegion tan amser te. Ar ôl iddynt gael te roedd hi yn mynd i'w gwely tua hanner awr wedi chwech am ei bod hi wedi codi mor fore. A dyna ddiwrnod Nadolig fy mam, sydd wedi newid dipyn go lew.

Hon yw'r stori ieuengaf o'r tair, fy stori i ydi hi ac fel yma mae fy

niwrnod Nadolig yn dechrau.

Noson cyn Nadolig rydwyf yn rhoi fy hosan ar y gadair a'r mins pei a chwpan ar y grat. Rydwi yn mynd i fy ngwely tua 8 o'r gloch. Dydw i ddim yn gallu cysgu am na allaf ddisgwyl tan y bore, yn y diwedd rydwi yn cysgu. Rydwi yn deffro tua 7 o'r gloch a chodi hanner awr wedi 7. Mae mam a dad a fy mrawd yn codi hefyd ac mae pawb yn ymolchi a newid i fynd lawr y grisau i edrych beth oedd Sion Corn wedi ei adael ar ôl. Wedyn rydym yn cael brecwast ac mae mam wedi rhoi y twrci yn y popty. Ar ôl cael brecwast rydwi yn chwarae gyda fy anrhegion.

Tua hanner dydd rydym yn cael ein cinio, rydym yn cael twrci, tatws, moron, rwdan, sprowts, tatws wedi'u rhoio a grefi. Ar ôl cinio byddan yn mynd am dro gyda mam a dad a'm brawd ac yn dod yn ôl erbyn 3 o'r gloch i wyllo'r frenhines yn ymadrodd ar y teledu. Ar y radio roedd y frenhines yn ymadrodd pan oedd Nadolig fy mam, doedd yna ddim teledu yr adeg honno. Tua 5 o'r gloch rydym yn cael te. Rydym yn cael ffrwythau a hufen, teisenau a hufen ynddyn nhw, diod o de neu diod o pop. Rydym yn gwilio'r teledu tan tua 9 o'r gloch a wedyn yn mynd i'r gwely. Dyna fy niwrnod Nadolig i. Ydych chi'n meddwl faint mae wedi mewid, ac wrth gwrs mae calendr yr adfent yn boblogaidd heddiw. Mae'r Nadolig wedi newid llawer mwy a rydym yn lwcus heddiw.

Iona Vaughan (10 oed)

Coco ydy fy enw i. Rydw i yn byw mewn castell ar ben y bryn. Fy ngwaith i yw chwarae triciau gwirion. Mae pawb yn dweud ei fod o yn ddrud i fynd i mewn i'r syrcas — £2 i bobl a £1 i blant. Ar ôl i bawb fynd adre mi ga i fynd i Curry's i brynu Mini Hi-Fi. Am flynyddoedd wedyn mi fydda i yn chwarae triciau gyda'r Hi-Fi. Y castell yw'r lle gorau i chwarae triciau am byth dwi'n meddwl!

Sian Elen Thomas, 97 Pentre Helen, Deiniolen. (9 oed)



STRYD FAWR, DEINIOLLEN Ffôn Llanberis 871210

Crefftau llechi: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd crefftau lleol eraill: crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

Arddangosfa o hen luniau chwarel.

A dewis rhagorol o Fideos i'w benthg

Hefyd yn Siop

FFYN A CHERRIG, STRYD FAWR, LLANBERIS


**AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .**




**BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)**

Ffôn: Caernarfon 5175

Edrychwch yn ofalus ar yr wynebâu a cheisiwch eu cwblhau.



Pwy sydd yn yr awyren? I ble mae'n mynd? Beth sy'n digwydd. Ysgwn i pwy all ysgrifennu stori gyffrous, a'i hanfon i Ecor' Ifanc, Pant Bryn Gwyn, Tan-y-Coed, Llanrug.



HA! HA!

20

HA HA!!

Cnoc, cnoc
Pwy sy' 'na?
Dewi
Dewi pwy?
Dewi 'di dod yma i ddeud wrthach
chi fod y'ch cloch chi wedi torri.
(Guto Sion, 4 oed)

Un diwrnod 'roedd Morgan y Mwnci yn ymarfer yn galed. 'Roedd ei fam yn gofyn cwestiwn iddo ond doedd o ddim yn ei hateb. 'Doedd o ddim eisiau cinio, ac 'roedd ei fam yn flin — 'roedd hi wedi cymryd amser hir i wneud cinio, ond dal ymlaen i wneud campau a wnai. Cofiodd ei fam bod syrzas ymlaen y noson honno, ac aeth hi allan i ddweud wrtho "Mae'r syrzas ymlaen y noson heno am 8.00 o'r gloch." "Rydw i'n gwybod hynny mam, rydw i bron wedi gorffen ymarfer rwan. A fuasech chi yn hoffi gweld y campau fedrai eu gwneud at heno mam?"

"Mi fedra i wneud olwyn drol," meddai, a dangosodd y campau i'w fam. Roedd ei fam yn hoffi'r campau. Roedd hi'n amser i Morgan fynd i'r syrcau a chafodd o ddim amser i fwyta'i ginio. Roedd o bron a marw eisiau cinio. 'Doedd dim tacsï i'w gael felly neidiodd ar y coed bananas a'u dwyn i'w bwyta cyn mynd i'r syrcau.

Daeth Morgan i mewn hefo olwyn drol, dringodd i fyny'r rhaff, neidiodd ar y trapis, siglodd gerfydd ei gynffon ar y trapis. 'Doedd neb yn gwybod mai mwnci oedd yno yn mynd yn ôl ac ymlaen drwy'r awyr. Neidiodd i lawr drwy'r awyr yn sydyn...

Daeth Clowniaid i'r cylch, a glaniodd Morgan ar gar y Clowniaid. Chwerthodd y bobl wrth i'r Clowniaid ei yrru i ffwrdd.

*Ieuan Green 7 oed o Annedd Wen,
Pontrug.*


Dyma ychydig o gwestiynau i chi am Gymru. Efallai y cewch ychydig o help gan mam neu dad - neu defnyddiwch fap o Gymru.

1. Ym mhle mae Porth Oer?
2. Ar ba ynys y dywedir bod ugain mil o saint wedi'u claddu?
3. Ym mhle yng Nghymru mae pentref Eidalaidd?
4. Enwch y ddwy afon sy'n uno yn Aberystwyth?
5. Pa afon mae Pont Hafren yn ei chroesi ar wahân i'r Hafren?
6. Pa bentref sydd yn enwog am ei gocos?
7. Ym mhle mae'r Amgueddfa Genedlaethol?
8. Ym mhle mae'r Amgueddfa Werin?
9. Ym mhle mae'r Llyfrgell Genedlaethol?
10. Ym mhle mae'r maes rygbi, Parc y Strade?

1. Llŷn; 2. Enlli 3. Porthmeirion. 4. Ystyth a Rheidiol 5. Gwy 6. Penclawdd. 7. Caerdydd 8. Sain Ffagan 9. Abergystwyth. 10. Llanelli.

Defnyddwyr y ffyrdd

PLANT YN DANGOS Y FFO



NEGES BWYSIG

"Cofiwch Reolau'r Groes Werdd.
Gall eich bywyd ddibynnu arnynt:



1. Dewch o hyd i le diogel i groesi.
2. Arhoswch wrth ymyl y palmant (nid yn rhy agos).
3. Edrychwch o'ch cwmpas a gwrandewch.
4. Os oes traffig gadewch iddo fynd heibio.
5. Pan fydd y ffordd yn glir cerddwch (ac nid rhedeg) yn syth ar draws y ffordd gan ddal i edrych a gwrandeo.

Peidiwch ag anghofio'r rheolau yma".

Morgan, Iwan Llewelyn, Judith, Lynne, Ceri, Nia, Ashley, Sera, Nicola, Yvonne, Hayley.

"GAIR I GALL"



"Mae bandiau arbennig ar gael i'w gwisgo yn y nos. Hefyd mae bathodynau. Rhai gor-loyw ydyn nhw, ac mae'n nhw'n llachar iawn pan fydd golau yn sgleinio arny nhw. Byddai'n werth i chi brynu rhain er mwyn bod yn fwy diogel wrth fynd allan yn y nos. Hefyd fe allwch brynu adlewyrchyd i'w wisgo."

Deian, John, Rhiannon, Claire, Sharon, Gareth, Sharon Michelle, Aaron, Martin, Dylan, Dewi.

LLYTHYR AT Y GOLYGYDD

Safon 3
Ysgol Gynradd Llanrug,
Llanrug,
Caernarfon.
Ionawr 5ed, 1988


Annwyl Olygydd,

Rydym ni wedi bod yn gwneud arbrofion ar 'Ofal y Ffordd'. Buom yn canfod pa liwiau sydd fwyaf amlwg yn y nos. Dyma'r canlyniad:

Y tri lliw mwyaf amlwg yn y nos ydy 1. Gwyn 2. Melyn 3. Oren. Felly mae lliwiau llachar yn llachar mwy amlwg na dillad tywyll eu lliw. Mae hi'n anodd iawn i yrwyr weld rhywun yn gwisgo dillad tywyll.

Hoffem dynnu sylw pobl yr ardal at hyn, a gofyn iddynt wisgo dillad golau yn y nos, ac ar ddiwrnodau tywyll yn y gaeaf, er mwyn bod yn fwy diogel.

Yn gywir,
Siwan, Catrin, Cerys, Ceren, Kenny,
Iwan Rhys, Ryan, Marc, Karen, Paul,
Cenwyn, Iona.



"RHAID GWNEUD FFYRDD LLANRUG
YN DDIOGEL, – A HYNNY AR FRYS!"
–medd plant Ysgol Gynradd y pentref.



Y plant yn ystod eu harolwg tu allan i'r ysgol

CYFRIFOLDEB POB UN

Rhy hawdd o lawer ydy gor-gyfarwyddo â chlywed am ddamweiniau. Dyna'n hanes ni i gyd ac eithrio'r teuluoedd hynny sy'n gorfod byw gyda'u canlyniadau. Ac ymdrech barhaus yn erbyn y gor-gyfarwyddo hwn ydy gwaith yr adran Diogelwch y Ffyrrdd, a hynny drwy addysgu'r cyhoedd, yn oedolion a phlant, nid yn unig am beryglon ffyrdd ond hefyd am ein cyfrifoldebau ni i gyd tuag at ein gilydd. Anghofir yn rhy aml ein bod ni un ac oll yn yrwyr ac yn gerddwyr, yn "ddefnyddwyr y ffyrdd". Ac fel y dywed un sylwedydd "Rhaid inni fyw efo ffyrdd ond 'does dim rhaid inni FARW efo nhw".

PIGION O AROLWG Y PLANT

"Dywedodd Rheolwr Bysiau Arfonfa fod eisiau lledu'r lôn a rhoi palmant yr ochr arall i le'r bysiau."
Matthew

"Dywedodd Rheolwr y Co-op wrthym fod Ffordd y Rdsaf yn medru bod yn beryg' am fod lorïau yn aros o flaen y siopa, a llawer o blant o gwmpas y lle mor aml."
Rhiannon

"Fy marn i ydy y dylai ceir arafu wrth Pen Bont. Weithiau mae ceir yn mynd yn syth ymlaen a ddim yn sylwi ar y ceir sy'n dwad o'r ochr arall."
Claire

"Aethom ni i Hafan Elan a gofyn am awgrymiadau gan yr hen bobol, ac fe ddywedodd un fod eisiau croesfan sebra yno oherwydd fod y lôn mor beryglus efo ysgol, capel, Hafan Elan, Tyddyn Elan, garej a bysiau Arfonfa."
Iona

"Mae eisiau tynnu'r wal o flaen ein hysgol ni, a gwneud lle i'r bws dynnu i mewn. Pan oedd mam yn ddynes lolipop roedd hi'n dweud hyn".
Dewi

DIOLCH

Dymuna plant Safon Tri a'u hathro dosbarth y Br. Ieuan Wyn, ddiolch i'r Fns. Lynne Brassington a'r Fns Miriam Hughes am symbylu a chyfarwyddo'r cywaith, ac i'r Br. Twrog Jones am ei gefnogaeth.

GOS Y FFORDD

Rheolau ar gyfer beicwyr

**FYRDD LLANRUG
YNNY AR FRYS!"**
Gynradd y pentref.



lwg tu allan i'r ysgol

EB POB UN

gyfarwyddo â chlywed am
ac eithrio'r teuluoedd hynny
Ac ymdrech barhaus yn erbyn
adran Diogelwch y Ffyrdd, a
oedolion a phlant, nid yn unig
n cyfrifoldebau ni i gyd tuag at
od ni un ac oll yn yrwyr ac yn
fyrdd". Ac fel y dywed un
rdd ond 'does dim rhaid inni

WG Y PLANT

"Aethom ni i Hafan Elan a gofyn am
awgrymiadau gan yr hen bobol, ac
fe ddywedodd un fod eisiau croesfan
sebra yno oherwydd fod y lôn mor
beryglus efo ysgol, capel, Hafan
Elan, Tyddyn Elan, garej a bysiau
Arfonia."


Iona

"Mae eisiau tynnu'r wal o flaen ein
hysgol ni, a gwneud lle i'r bws dynnu
i mewn. Pan oedd mam yn ddynes
lolipop roedd hi'n dweud hyn".

Dewi

DIOLCH

Dymuna plant Safon Tri a'u hathro
dosbarth y Br. Ieuan Wyn, ddiolch
i'r Fns. Lynne Brassington a'r Fns
Miriam Hughes am symbylu a
chyfarwyddo'r cywaith, ac i'r Br.
Twrog Jones am ei gefnogaeth.




DEFNYDD
ADLEWYRCHOL

AWGRYMIADAU PLANT SAFON 3

Pont Rhythallt:

1. Gosod palmant yn y rhan yma
wrth y Siop Tsips a'r tŷ tafarn (mae
bwsiau yn cael trafferth i feistroli'r
gornel). 2. Mae angen paentio'r
llinellau gyda thoriadau yn glir (y
llinellau sy'n rhoi blaenoriaeth i
drafnidiaeth Ffordd yr Orsaf - dros
y pontydd). Ar hyn o bryd mae
cerbydau sy'n dod o gyfeiriad
Groeslon Marc yn anwybyddu'r
llinellau ac yn mynd yn syth ar
draws i fynd dros y pontydd, - a rhai
ohonynt yn teithio'n rhy gyflym.
(gweler y cynllun). 3. Mae'r ffordd
i'r chwith dros y pontydd yn gul
gyda throadau cyfyng, ac mae'r
rheol 30 milltir-yr-awr yn dod i ben.
Dylai bod y traffig yn arafu yma ac
nid cael caniatâd i gyflymu.



Teras Hermon:

1. Gosod palmant o'r tai cyngor
heibio'r rhes-dai i lawr at y ffordd
fawr.

O flaen yr Ysgol Gynradd:

1. Defnyddio peth o'r tir o flaen yr
ysgol i lunio Arhosfan Bws fel y
gallai bysiau dynnu i mewn yn glir
o'r ffordd fawr. 2. Maes Parcio i geir
yr athrawon fel nad oes rhaid iddynt
ddefnyddio cowt yr ysgol. 3.
Pont-groesi o flaen yr ysgol.

Lôn Groes:

1. Angen croesfan o'r ysgol i'r cae
chwarae. 2. Angen arwydd yn
dangos bod plant bach gyda'u
rhieni.

Ffordd yr Orsaf:

1. Codi arwydd i ddweud bod
croesffordd brysur a pheryglus o'ch
blaen. 2. Gwneud palmant ar y
ffordd i lawr am Stâd Talybont
(Mae llawer o blant yn byw yma, ac
mae cartref yr Henoed hefyd). 3.
Codi arwydd wrth fynd am yr
Institiwt yn rhybuddio bod cyffordd
guddiedig yma (agoriad Lôn
Groes).

O'r Sgwâr at Ysgol Brynrefail:

1. Mae'r arwydd Ysgol yn y coed a
heb fod yn eglur. 2. Gwell palmant o
flaen tai'r hen bobl, a'i gael i fynd
ymlaen i gyfeiriad yr ysgol. 3.
Gosod bin sbwriel o flaen Ysgol
Brynrefail. 4. Gwneud rhywbeth
ynghlŷn â'r ffos gan ei bod yn
beryglus i feicwyr. 5. Arwydd yn
dynodi tai'r hen bobl.

I fyni am Groeslon Marc:

1. Codi arwydd yn nodi
Croesffordd. Mae'r arwydd "Give
Way" presennol ar gornel y
groesffordd ac mae'n rhybuddio'n
rhy hwyr.




Sgwâr Llanrug:

1. Gwneud Ynys driongl yn dod o'r
Swyddfa Bost i ganol y ffordd gyda
'bolard'. 2. Gwneud cylchfan
Fechan. 3. Dim parcio o flaen Siop
Sgwâr. 4. Codi arwydd 'Ysgol' wrth
dalcen y Siop. 5. Gosod rheiliau o
flaen Swyddfa'r Post. (Gweler y
cynllun).

Crawia:

1. Trwsio'r cloddiau i lawr i
gyfeiriad Crawia. 2. Angen palmant
ar y ffordd beryglus hon. 3. Mae lôn
Crawia'n rhy gul i lorïau ac os bydd
codi tai cyfnod-rannu ym Mryn
Afon, bydd y ffordd yn fwy
peryglus. Byddai datblygu yn
golygu traffig trymach.



Awgrymiadau Llyr Siôn

1. Arhosfan fws tu allan i'r ysgol gynradd.
2. Cylchfan yn y sgwâr.
3. Croesfan Sebra.
4. Croesfan Sebra.
5. Arwydd tai'r henoed.
6. Arwydd Goleuadau.

TALWRN Y BEIRDD

Dyma gynnyrch tîm Talwrn y Beirdd Llanrug ar gyfer yr ornest a fu ym Mhenrhyndeudraeth ddechrau Rhagfyr. Eu gwrthwynebwyr oedd beirdd Bro Dysynni a Beirdd Llŷn. Llanrug oedd yn fuddugol. Ddechrau Chwefror byddant yn cystadlu yn erbyn beirdd Penrhosgarnedd.

Rhif 1 Cwpled caeth yn cynnwys y gair Rwsia

Oer iasau ddaeth o Rwsia
Am yn hir, 'nawr mynnwn ha'.

Twrog Jones

Rhif 2 Pennill Ymson wrth osod arwydd

Ymgecran gyda ffarfwr
I brynu sribed hir,
Cael caniatâd cynllunio,
A meddiant lot o dir,
Cael berfa, dril niwmatic,
A hogia Y.T.S.,
Yn rhegi a chwysu chwarta
A gwneuthur diawl o fes,
Tair tunnell bron o dywod,
Llund lori fawr o goed,
Pum potyn o emylshyn,
Gwŷr tractor a gwŷr troed;
Rwy'n dechrau amau weithiau
Mai doethach fa'i i mi
Fod wedi gosod yma
Y sein "LLanfair P.G."

John Roberts

Rhif 3 Ymson rhwng dau ganwr-ffermwr (anhysbys?) mewn cyfnod go lwm ym myd amaeth.

"Roedd f'incwm llwm yn lleihau.
Ar ras fe gyrchais ddrysau
S4C, a deciau
Y QE2 "Dim cwotau
Fan honno!" "Na!" "Fy hunan
Es i'n syth ar Sion a Sian;
Daw taliadau teledu
I ni'n dau mewn dyddiau du.
Unwn! Oes blys? - Ar frys frawd!"
"Nefi Dai! - ffurfio deuaud?"
"Heb os! - deuaud heb ei hail
"Y Bois!" - "Ie - bois y Biswail".

Iwan Roberts

Rhif 4 Limrig yn ymwneud â dringo coeden

Aeth Wil i ben y goedan
I guddio rhag 'rhen fogan
Ond cadd "surprise"
Pan waeddodd Leus
"Nefoedd, Sacheus myn yfflan."

Selwyn Griffith

Rhif 5 Englyn Cywaith

CAE

Hen gaer ein bywyd gwaraidd - rhag ofnau

Ar gefnfor Nomadaidd;
Chwenych gwrych i fwrw gwraidd
Angori ein llong iraid.

John Roberts

Rhif 6 Codi Bwganod

Mewn gwlad heb fod ymhell mae pair o hylif glas
Yng ngofal mamol gwrach groeseraidd dras;

Ac yn y crochan hwn mae'r holl gynhwysion gwiw
I greu bwganod - hawdd eu trin i'r Hon sydd wrth y llyw.

Fe glywais i fod Douglas Hurd
Yn ffrwtian yn y sosban,
A thwmplan siwat bobwyd, do,
I roi'i ni Baker, druan.
Perlysiâu poeth ysgeintiwyd dros
Y trochion oedd yn berwi
A dynaid da o bupur du
I greu Edwina Currie.

Parhai y wrach i gorddi'n wyllt nes
sblashio'r cawl berwedig
A chollwyd un neu ddau o ddrips i ganol
Cymru wledig;
Ac yma y mae'r bwgi-bos
Yn ceisio codi arswyd;
Ond creaduriaid t'willwch nos
Yw'r rhain - a daw goleuni;
Cans gennym ni mae crochan gwell,
Mae hwn yn Bair Dadeni.

Dafydd Whiteside Thomas

Rhif 7 Englyn yn cynnwys y llinell "Ni chododd ei fraich wedyn"

Un nos Sul cropiodd Silyn - ar ei hyd
O'r Crown, wedi tropyn,
Dan gab, i'r "path lab". Rôl hyn
Ni chododd ei fraich wedyn.

Tony Elliot

Rhif 8 Telyneg dau bennill:

IAS
(Chwarae Plant?)

Mentraist drwy wres y frwydr,
o ben draw'r ardd
gan anwybyddu cawodydd o rocedi ffyn
a phelydrau gwenwynig y bomiau plastig.
F'arwr bychan, oni weli di'r cwmwl
ymbelydrol
yn mwytho'r gwyddfid a'r lafant
ac sy'n hofran fel amdo bygythiol
dros gyrff dy gyd-actorion ar lawnt y theatr?
Oni chlywi di'r lleisiau hyn, dyfeiswyr y gêm,
yn melltithio dy anfarwoldeb, o ddiogelwch y cwt pren
"Ti 'di marw." -
"Chei di ddim gwneud hynna." -
"Gwna fel 'dan ni'n dweud."

Blinaist am ennyd ar ddemocratiaeth
unochrog y gêm
a gadewaist y gyflafan am noddfa'r tŷ.
Ffoadur bach diniwed, ai dod a wnaethost
i ymbil ar dy dad
- i ddileu'r anhegwch,
- i atal dy ddioddef,
- i ail sefydlu paradwys yn yr ardd?

Go brin.

Nid oes gennyt amser i ddim
ond brylmu dy gyffes afieithus
drwy ffenestr y gegin, -

rhyw eiliad gysegredig,
cyn brysio'n ôl i chwarae dy ran.

Twrog Jones

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gronfa'r Eco:

£5 Mrs Katie Griffiths, Arwelfa, Dinorwig

£2 Enid Lloyd Roberts, Maes Padarn, Llanberis; Millie Owen, Coed Mawr, Llanberis; Mrs Elizabeth Jones, 9 Maes Eilian, Dinorwig; Mrs Medwen Griffiths, Foel Cottage, Dinorwig; Miss Blodwen Parry, 6 Bro Deiniol, Deiniolen.

£1 Mrs M Humphreys, 32 Rhydfadog, Deiniolen; Mrs M.J. Roberts, 5 Llys y Gwynt, Penisarwaun.

UNDEBWR AR BWYLLGOR IAITH Y SWYDDFA GYMREIG



Mae Tom Jones, Deiniolen, gynt o Lanberis ac Ysgrifennydd Undeb Gweithwyr Trafnidiol a Chyffredinol Gwynedd, wedi ei ethol ar bwyllgor fydd yn ystyried dulliau o hybu a gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg ym mywyd pob dydd Cymru.

Pwyllgor ydyw a sefydlwyd yn niwedd 1987 gan Peter Walker, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, dan gadeiryddiaeth Wyn Roberts A.S., i dderbyn a thrafod adroddiadau gan

nifer o gyrff cyhoeddus a mudiadau yng Nghymru ar y defnydd a wneir ganddynt o'r iaith, ac yna cynghori yr Ysgrifennydd Gwladol.

Dylasai gwaith y Pwyllgor fod yn sylfaen i bolisi (ac nid yn unig ddeddfwriaeth) newydd ar yr iaith.

Daeth y pwyllgor, sy'n cynnwys Cymry amlwg fel John Elfed Jones, Awdurdod Dŵr; Prys Edwards, Bwrdd Croeso ac Euryng Ogwen, S4C ynghyd am y tro cyntaf ddiwedd Ionawr.

Emyr Jones

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513



**SELWYN
MORRIS**

Adeiladwr a Threfnydd
Angladdau

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2841

**Wavell
Roberts**
CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

GEIRIADUR PRIFYSGOL CYMRU

Mae cwblhau ail gyfrol **GEIRIADUR PRIFYSGOL CYMRU** (G-Llyys) yn ddigwyddiad o bwys i ysgolheigion Cymraeg a Cheltaidd, ac yn wir i Gymru gyfan, gan fod y *Geiriadur* yn un o'r prosiectau mwyaf uchelgeisiol ymysg ieithoedd lleiafrifol y byd. Gan ddilyn patrwm cyfrolau meistrolgar yr *Oxford English Dictionary*, y mae'r *Geiriadur* yn cyflwyno hanes geirfa'r Gymraeg dros gyfnod o ryw ddeuddeg canrif. Dangosir holl gyfoeth yr iaith o'r glosau cynharaf i destunau amrywiol Cymraeg Canol, ac ymlaen i'r bathiadau diweddaraf, megis *microdon*. Diffinnir pob gair yn gyflawn yn Gymraeg, gan roi cyfystyron Saesneg, a tharddiad y gair lle bo hwnnw'n hysbys.

Mae cryn ddiddordeb gan lawer iawn o bobl yn y geiriau arbennig hynny sy'n nodweddu iaith eu bro, ac mae'r rhain wrth gwrs yn cael cartref yn nhudalennau'r *Geiriadur*. Gwelir cyfoeth yr iaith lafar mewn ymadroddion fel *lobsgows troednoeth* (cawl heb gig), *llaeth mwnci* (cwrw), *allap y dwndwr* (te). Ond rhan fechan o waith y *Geiriadur* yw cofnodi'r rhain. Mewn gwirionedd y geiriau lleiaf oll yw'r rhai mwyaf cyfoethog yn aml: fel y gwelir yn Rhan XXXI, nid un gair i a geir yn Gymraeg, ond saith, ac mae'r arddodiad bach i yn ymrannu'n un ar bymtheg o brif adrannau (heb sôn am nifer yr isadrannau!).

Gellir enghreifftio gwaith y *Geiriadur* orau trwy gael cipolwg ar y gair bach *llaw*. *Llawf* oedd yr hen ffurf, fel y gallwn weld o hyd mewn gair fel *llofrudd*, (sef 'llawgoch' yn llythrennol), ac yn y geiriau cytras yn yr ieithoedd Celtaidd eraill megis Hen Gernyweg *lof* a Gwyddeleg *lámh*. Daw'r enghraifft gynharaf o'r gair o'r wythfed ganrif mewn dogfen gyfreithiol. Dyfynnir yma enghreifftiau o 'Lyfr Du Caerfyrddin', o waith Guto'r Glyn, Beibl 1588, a llythyron Goronwy Owen yn y ddeunawfed ganrif. Ar un tudalen cyforiog cofnodir hanes y gair mewn wyth o adrannau, gan roi sylw arbennig i'r cyfuniadau geiriol hynny sy'n ychwanegu

cymaint at ddiddordeb yr erthygl.

Cynhelir y prosiect gan y Bwrdd Gwybodaeth Celtaidd a sefydlwyd yn 1920. Toc ar ôl hynny cyflogwyd darllenydd, ac aeth y rheini ati, gyda chymorth darllenydd gwirfoddol, i ddarllen miloedd o destunau Cymraeg, yn llyfrau print, cyfnodolion a llawysgrifau. Copiwyd dyfyniadau ar fwy na dwy filiwn o slipiau, a'r rhain yw'r deunydd crai bellach i dîm bach o saith o olygyddion dan arweiniad Gareth Bevan, ynghyd â theipyddes ran-amser. Mae'r Athro Emeritus J.E. Caerwyn Williams, F.B.A., yn gweithredu fel Golygydd Ymgynghorol, a Mr B.G. Owens, cyn-Geidwad Adran Llawysgrifau a Chofysgrifau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yw'r Darllenydd proflenni. Lleolir swyddfeydd y *Geiriadur* yn y Llyfrgell Genedlaethol, ac mae hyn yn hwyluso'r gwaith yn ddifrifus.

'Dyfal donc a dyr y garreg', medd yr hen air, ac yn sicr nid oes yr un maes llafur arall yn profi hyn yn well na gwaith geiriadurol; yn aml, bydd rhaid ystyried cannoedd o slipiau cyn ysgrifennu'r erthygl ar un gair nad yw'n llenwi ond rhyw ddwy fodfedd mewn colofn o brint mân. Rhaid sicio pob dyfyniad yn erbyn y ffynhonnell wreiddiol, boed yn llyfr o'r ganrif hon neu lawysgrif aneglur o'r drydedd ganrif ar ddeg; a chyn cyhoeddi mae pentyrtau o broflenni i'w darllen yn ofalus. Hwyluswyd y gwaith hwn yn ddiweddar trwy ddefnyddio dau ficrogyfrifiadurol, a chysodwyd y rhifyn cyntaf o'r drydedd gyfrol (M-Marchnerth), sydd newydd ymddangos, gan staff y *Geiriadur* ar un o beiriannau Gwasanaeth Cyfrifiadura Prifysgol Rhydychen gan ddefnyddio set o raglenni pwrpasol a ysgrifennwyd gan un o'r tîm golygyddol. Mae'r chwyldro teipograffyddol hwn, sydd wedi lleihau costau cynhyrchu'r *Geiriadur* yn ddifrifus, yn gymorth mawr i sicrhau cywirdeb a chysondeb, gan nad oes rhaid aildeipio'r testun cyn ei gysodi.

Gobeithiwn gwblhau trydedd gyfrol y *Geiriadur* erbyn 1997, a chyd hynny bydd gennym gofnod cynhwysfawr o adnoddau'r iaith

Gymraeg. Bwriedir defnyddio hwn fel cronfa ddata i gynhyrchu geiriaduron eraill, megis fersiwn cryno, a bydd y *Geiriadur* felly yn gefn ac yn gymnorth i'r iaith ac i'r 'Pethe'.

Mae Cyfrol I (A - Ffysur) ar gael am £45, a Chyrol II (G - Llyys) am £35, neu'r ddwy gyda'i gilydd am

£70 (ISBN 0-7083-0981-X). Mae'r rhannau unigol ar gael am £2 yr un (ISSN 0072-0542) oddi wrth lyfrwerthwyr neu'n syth o'r cyhoeddwr: Gwasg Prifysgol Cymru, 6 Stryd Gwennyth, Cathays, Caerdydd CF2 4YD, a chroesewir tanysgrifiadau am weddill y *Geiriadur*.



FFERMWYR IFANC CAERNARFON

Ailddechreuodd y Clwb ar ôl gwyliau'r Nadolig ar nos Fawrth, Ionawr 5ed, 1988, pryd y daeth Mr Richard Parry, Swyddog Cyhoedduswydd Lonydd Glas Gwynedd i'r clwb i drafod ei waith ac esbonio'r datblygiadau a'r cynlluniau ar gyfer lonydd glas o amgylch Caernarfon. Diolchwyd iddo am noson ddiddorol gan Gwenan Davies. Edrychir ymlaen yn awr am gael mynd am dro ar hyd y lonydd glas.

Roadshow y sir oedd yn y clwb ar Ionawr 12fed pryd y cafodd yr aelodau gyfle i ddysgu am drefniant y sir a'r clybiau, a chyfarfod ac aelodau o glybiau eraill. Diolchwyd i Meinir, Gwilym, Gwyneth, Anwen, Geraint a Gwynfor am ddod gan Myfanwy Jones.

Nos Iau, Ionawr 14eg, ymwelodd nifer o'r aelodau â Chlwb Dyffryn Ogwen pryd y cymerwyd rhan mewn Cystadleuaeth Gwybodaeth Gyffredinol gan ddau dîm o bob clwb. Daeth Tîm 1 Dyffryn Ogwen yn gyntaf, Tîm 1 a 2 Caernarfon yn gydradd ail, a Tîm 2 Dyffryn Ogwen yn bedwerydd. Cafwyd noson hwyliog dros ben. Dorian Roberts o Glwb Rowen ddaeth atom ar Ionawr 19fed i ddangos sleidiau ar ei ymweliad diweddar â Rwsia, gyda'r Ffermwyr Ieuaic. Cafwyd noson wybodus a diddorol yn ei gwmni. Diolchwyd iddo gan Rachel Griffiths.

Llongyfarchiadau i Ellen Hughes, ysgrifenyddes y clwb ar gael ei hethol yn Gadeirydd Pwyllgor Merched Eryri am 1988.

DILEU TRWYDDEDAU CADW CI Ymateb U.A.C.

Mae Undeb Amaethwyr Cymru yn feirniadol iawn o benderfyniad y Llywodraeth i ddileu y trwyddedau cadw ci; "gwiriondeb o'r mwyaf" medd yr Undeb, a gwnaeth apêl at Aelodau Seneddol y Gwrthbleidiau a grwpiau sy'n gofalu am anifeiliaid i osod pwysau unwaith eto ar y Llywodraeth i wyrdroi ei phenderfyniad.

Dywedodd llefarydd ar ran yr Undeb: "Buom yn ymgychu dros gynyddu'r tâl trwydded fel yr unig ateb call er lleihau'r pla o gŵn strae sydd yn y wlad. Ond dewisodd y Llywodraeth anwybyddu ofnau'r cymunedau amaethyddol yn ogystal ag ofnau y grwpiau sy'n gofalu am anifeiliaid megis yr RSPCA, sy'n ystyried polisi'r Llywodraeth fel un gwirion iawn."

Roedd un llygedyn o obaith oherwydd i'r Llywodraeth fodloni i gytuno y byddai'n well trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros leihau nifer y cŵn strae oddi wrth yr heddlu at yr awdurdodau lleol.

Dywedodd Mr Alan Lewis, Cadeirydd Pwyllgor Ffermio Mynydd Undeb Amaethwyr Cymru, y byddai'r cymunedau amaethyddol yn gwgu gan siom ar benderfyniad y Llywodraeth i ddileu trwyddedau cadw ci.

"Buom yn rhybuddio'r Llywodraeth yn gyson mai trwy godi tâl trwydded cadw ci yn unig y gallwn ddeffro'r cyhoedd i sylweddoli maint y cyfrifoldeb o gadw ci, ac mai dyna'r unig ateb sydd i leihau nifer cynyddol y cŵn strae, ymosodiadau ar ddefaid ac ar y cyhoedd yn gyffredinol, problem iechyd y cyhoedd a damweiniau ceir ar y ffordd fawr oherwydd nad yw cŵn yn rhwym wrth dennyn."

Nododd Mr Lewis ei bod yn galonogol fod y Llywodraeth wedi ail feddwl ynglŷn â'i phenderfyniad gwreiddiol i adael y cyfrifoldeb dros gŵn strae yn nwylo'r heddlu. Ond er y gobaith y byddai awdurdodau lleol yn cyflogi wardeniaid i ofalu am gŵn, gallai effeithlonrwydd y polisi hwn amrywio o un awdurdod i'r llall.

Cyflwynwyd trwyddedau cadw ci yn 1796 ac ni chafwyd cynnydd yn y tâl er 1878 pan bennwyd 7s 6d fel tâl teilwng. Fe'i gostyngwyd i 37 ceiniog pan ddilëwyd y darn dimai. Lledir miloedd o ddefaid yn flynyddol oherwydd ymosodiadau gan gŵn.

LOGO AR GYFER EISTEDDFOD 1990

Dewiswyd y Logo uchod ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni a gynhelir ym Mharc Bryn Bach, rhwng 4 - 11 Awst, 1990.

Mae'r Logo syml yma yn canolbwyntio ar ddau o brif nodweddion Cwm Rhymni, sef y bontffordd a welir hyd y dydd yma yn y Cwm, a'r Afon Rhymni a ddarlunir yn null sglodyn silicon.

Bistro

Glandŵr 43-45 Stryd Fawr LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871278
(Danny a Nerys Roberts)



Merched ...
Dynion ...
Plant ...

I gael trin eich
gwallt yn eich
cartref cysylltwch â

SIAN

MAIRANNEDD LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon 5366

DATBLYGU CYFNOD-RANNU YN ARFON

(Erthygl a ymddangosodd yn "Sparc", mis
Tachwedd gan Blaid Lafur Gwynedd.)

Beth yw Cyfnod-rannu?

Datblygiad nifer o unedau preswyl hunanarlwyol ynghyd â chyfleusterau megis siopau, adnoddau chwaraeon, ac yn y balen. Trwy dalu'r pris (rhaf miloedd fel arfer), gelli'r sicrhau'r hawl i ddefnyddio un o'r unedau hyn dros gyfnod penodedig (wythnos er enghraifft) yn ystod bob blwyddyn. Yn ychwanegol rhaid talu "tâl gwasanaethau" blynyddol ar gyfer gwaith cynnal a chadw, glanhau ac ati. Gellir cynyddu'r taliad hwn o flwyddyn i flwyddyn.

Beth yw diben "Cyfnod-rannu"?

Gwneud elw i'r datblygwyr. Unwaith y peidia â gwneud elw, er enghraifft os yw'n fethiant neu os yw costau cynnal yn dechrau crydu'r elw a dderbynnir o'r unedau, yna bydd y datblygwr yn ceisio'i werthu, neu newid y defnydd a wneir ohono, neu'r ddau.

Paham y dylai fethu?

Yn bennaf oherwydd gor-gystadleuaeth a diffyg galw. Mae perchnogion gwestai a mentrau cyffelyb yn Arfon eisoes yn cwyno na fedrant lenwi ystafelloedd, hyd yn oed adeg yr haf; mae teithio dramor yn fwyfwy haws a deniadol. Dychmyger effaith 5 neu 6 datblygiad "cyfnod-rannu" ychwanegol yn cystadlu a hwy am y fashanch ymwelwyr bresennol. Mae rhywun yn sicr o fynd i'r gwellt, oherwydd fod nifer y cwsmeriaid posib yn gyfyngedig bellach oherwydd bod "cyfnod-rannu" wrth Fôr y Canoldir agos cyn rhated ag y buasai "cyfnod-rannu" yn Arfon.

Oherwydd "datblygid hindda" ydyw yn y bofi. Gwedda ar gyfer Sbaen, lle bo'n gymharol braf gydol y flwyddyn. A fedrwch ddychmygu llenwi datblygiad tebyg yma ar unrhyw adeg rhwng diwedd Medi a dechrau Mehefin? Nid yw'r hinsawdd angenrheidiol yma, felly ni ellir cyfiawnhau datblygiadau "cyfnod-rannu" ar sail galw gydol y flwyddyn amdanynt; nid yw'n bod. Ond fe all y gwŷr y darpar-ddatblygwyr hynny'n iawn.

Beth allent ei wneud a datblygiad "cyfnod-rannu" nad yw'n talu?

Newid y defnydd a throir unedau'n gartrefi parhaol i gymudwyr o Loegr. Nid cytia pren mohonynt, ond fflatiau wedi'u hadeiladu'n unswydd ar gyfer byw ynddynt gydol y flwyddyn tros gyfnod hir. Buasent yn rhad, yng nghefn gwlad ddeniadol, ac o fewn cyrraedd Caer a Lerpwl, unwaith y cwblheir y Ffordd Newydd. Eisoes mae asiantaethau tai lleol yn hysbysebu yn Lleogr gyda golwg ar y fasnach newydd hon. Buasai modd i ddatblygwyr wneud elw mawr trwy ddefnyddio esgus "cyfnod-rannu" i adeiladu tai tan golch twristiaeth ac osgoi'r rheolau cynllunio presennol ynglŷn â adeiladu'n y wlad.

Ond buasai angen caniatâd newydd arnynt?

Unwaith y caniateir datblygiad a'i gwblhau, ni fuasai hynny'n anodd. Wedi'u hwynebu â phentref "cyfnod-rannu" gwag, buasai pwysau mawr ar y Cyngor i ganiatáu defnydd newydd ohoni ar gyfer cartrefi parhaol "er lles y gymuned" a "rhag i'r lle fynd a'i phen iddi". Pe gwrthwynebai'r Cyngor, gellid troi at y Swyddfa Gymraeg. Cofier fel y bu i'r Swyddfa'n ddiweddar ganiatáu ar apêl troi cabanau gwyliau ym Mrithdir, Dolgellau yn gartrefi y gellid preswylu ynddynt gydol y flwyddyn. Mae'r cynsail wedi'i osod.

Oni fusaent yn cynnig gwaith?

Wrth amddiffyn datblygiadau "cyfnod-rannu" dywed un Cynghorydd ei fod wedi darllen yn rhywle fod twristiaeth yn cyflogi naw gwaith yn fwy o bobl na'r pyllau glo? Yr hyn sydd ganddo mae'n debyg yw honiad y Bwrdd Croeso fod Twristiaeth yn cyflogi 90,000 yng Nghymru. Rhaid amau'r cyfanswm hwn. Nid yw'n debygol. Golyga 90,000 tuag un o bob wyth o'r boblogaeth weithiol yng Nghymru, cyfran anhygoel o uchel hyd yn oed lle bo twristiaeth yn bwysig. O'r herwydd, Mae'r bwrdd wedi newid ei gân yn ddiweddar trwy honni fod twristiaeth yn creu "yr hyn sydd yn cyfateb i 90,000 o swyddi yng Nghymru." Honiad mwy niwlog o lawer gan nad oes modd cyfrif y pennau bellach; gallasai gynnwys pob gweithiwr siop, gwesty a thafarn o Fôn i Fynwy!

Yr hyn nad yw'r bwrdd yn ei grybwyll yw'r cyflog isel, yr oriau maith (neu rhan-amser, - y diffyg urddas a'r amodau gwael y mae'n rhaid i fwyafri y gweithwyr ddygymod â hwy yn enw twristiaeth. Swyddi tymhorol, ansicr wedi'u hanelu at yr ifanc, at wragedd priod, ac eraill nad oes ganddynt unrhyw lais nac unrhyw un i achub eu cam; prin yw'r undebwyr llafur yn eu mysg. Os pris creu dyrnaid o swyddi felly yw difrod cymdeithasol a diwylliannol ar raddfa eang, yna mae'n ormod o bris. Mae'n lladd gobaith hefyd; lle bo datblygu twristiaeth nid oes na chymhelliad na chyfle nac adnoddau ar gyfer datblygiadau eraill a allasent gynnig cyflogaeth fwy sefydlog.

Nid Sbaen mo Arfon. Nid oes gennym mo'r grym i bennu deddfau addysg a chynllunio er mwyn sicrhau na fuasai datblygiadau twristiaid a thai yn tansello bodolaeth y genedl. Effaith y datblygiad ar y gymuned yw'r ystyriaeth bwysicaf, ac nid yw teulu a thras a lles ariannol unigolion yn gyfystyr â lles y gymuned.

Yr ateb cyfrifol ar y pwnc hwn fydd i wrthod egwyddor datblygu "cyfnod-rannu" yn Arfon.

GALW DDOE I GOF

(Parhau â phytiau o atgofion Edith Michael, fel y'u llefarodd i'w merch, Mrs Mem Pritchard)

Ers talwm iawn pan oeddwn i yn hogan ddeg oed yn byw yn Bethel, mi ges i fy ngyrru i Lanberis yn yr haf, i helpu rhyw ddynas â'i choes hi yn ddrwg. Mi oeddwn i yn un dda iawn hefo gwaith tŷ, a mi fydda hi yn hawdd iawn gin Mam ddweud "Mi ddaw yr hogan yma i'ch helpu chi, mi fydd hi wrth ei bodd," a hyn yn digwydd lawer gwaith.

Mi oedd gan Nain frawd yn byw hefo'i ferch yn Llanberis, a rheini wnaeth ofyn a faswn i yn cael mynd i helpu fel morwyn fach, i'r ffarm fechan ar dop y mynydd. Dim ond un ffarm fach arall oedd yn uwch na hi. Yr oedd o yn lle del iawn, ond doeddach chi'n gweld neb drwy'r dydd, roedd o mor bell o bob man. Yr oedd reit gyferbyn â'r Wyddfa, achos fyddwn i yn gweld trê'n bach y Wyddfa yn mynd i fyny fel tegan bach yn y pellter.

Roedd y gŵr a'r wraig yn ffeind iawn wrtha i, ac roeddwn i'n cael digon o fwyd, bara popty bach a menyn wedi i wneud yno, wyau ffres a llefrith. Yr oedd y lle wedi ei beintio yn wyn i gyd y tu allan, a simdde fawr hen ffasiwn yn y gegin. 'Manllwyd' oedd enw'r tŷ.

Roedd y bobl oedd yn rhedeg y fferm ar dop y mynydd yn perthyn i bobl 'Manllwyd' ac mi ges i fynd yno rhyw ddiwrnod pan oeddwn nhw yn cneifio defaid. Roedd un hen wraig yno yn ymyl cael ei chant oed, ac yn brysuro gwmpas yn helpu. Mi oedd yna de parti mawr y diwrnod hwnnw, gan fod yna lawer o ddynion yno hefo'r defaid.

Roedd 'na hiraeth mawr am adra arna i ar ôl i mi orffen fy ngwaith bob dydd, ac yn enwedig ar ôl i mi fynd i fy llofft ar ôl swper. Roedd swper tua wyth o'r gloch ac wedyn roeddwn nhw yn mynd i'r gwely yn y siambar. I fyny ysgol roeddwn i yn mynd i fy ngwely, ac mi roedd gen i lofft bach gyfforddus a gwely glân braf, ond roedd hiraeth fel lwmpealed yn fy mrest i, ac roeddwn nhw eisiau fy nghael i am byth, ac mi oeddwn i ofn ofnadwy i Mam fy rhoi iddynt. Roedd hi yn ddistaw fel y bedd yno, dim ci na dim.

Un diwrnod, roedd y gŵr a'r wraig eisiau mynd i Gaernarfon i nôl neges. Cychwyn ben bora efo car a merlan. Dyma fi yn llau bob man yn lân, molchi, a gosod llestri ar y bwrdd yn barod erbyn te. Roeddwn i wedi gorffen bob dim, a dyma ddechrau meddwl am adra, a chrio efo hiraeth.

Cyn bo hir roeddwn i yn rhedeg i lawr y mynydd am adra, ac yn teimlo wrth fy modd. Ymhen sbel hir mi gyrhaeddais Bethel ac roedd gwraig drws nesa yn sefyll yn y giat pan wnes i nesau at ein tŷ ni. Dyma hi yn gofyn "Ble'r wyt ti yn mynd?" roedd hi yn gwybod yn iawn fy mod i wedi denig. "Dwad adra" atebais innau, "Wel," medda hi, "Dydi dy Fam ddim adra, mae hi wedi mynd at dy dad am wythnos, ac mae'r plant yn nhŷ dy nain."

Doeddwn i ddim yn gwybod beth i wneud, ond mi ydw i yn cofio fy mod i reit ddigwyffro, a phan aeth Mrs Parry drws nesa i dŷ nain i ddweud wrthi, dyma fi yn edrych oedd ffenest y siambar yn agored ac mi oedd hi, ac i mewn â fi, a chau y ffenest ar fy ôl.

Mi oedd Mam wedi llau pob man yn lân cyn mynd, ond doedd 'na ddim tamaid o fwyd yn y tŷ a'r lle yn ddistaw ac yn oer. Mi gerddais o gwmpas am sbel fawr gan edrych allan weithiau tu ôl i'r cyrtans lês oedd ar y ffenest. Beth bynnag,

ddaeth na neb o gwbl y noson honno. Mae'n siŵr fod Mrs Parry yn meddwl fy mod i yn nhŷ nain, a nain yn meddwl mod i wedi mynd yn ôl i Lanberis.

Pan oedd hi yn tywyllu, dyma fi yn mynd i wely Mam. Doeddwn i ddim llawer o eisiau bwyd, ond chefais i ddim diod chwaith achos roedd y ffynnon allan yn yr ardd ffrynt.

Roedd yn olau dydd pan ddeffrais i, a dyma edrych drwy'r ffenest. Pwy oedd yno er fy mawr frawd ond y dyn o Lanberis yn siarad hefo Mrs Parry drws nesa a hithau yn dangos y ffordd i dŷ nain iddo. Dyma fi yn tacluso dillad y gwely ac yn mynd i'r gongl bella oddi tano. Doedd 'na ddim llawer o olau yn dwad i mewn drwy'r ffenest fach hen ffasiwn a gwely Mam yn fawr. Yr amser honno roedd yna 'ffril' rownd y gwely a honno yn cyrraedd y llawr.

Toc dyma fi yn clywed sŵn traed nain yn ei chloesia yn dwad ar hyd y llechi. Y drws yn agor a'm calon i yn curo yn ofnadwy o dan y gwely. Mi oedd nain yn dweud y drefn yn ofnadwy, ac rydw i'n siŵr tasa hi wedi cael gafael arna i yr amser honno, mi fasa hi wedi hanner fy lladd.

Dyma hi i fewn i'r siambar a chodi 'ffril' y gwely ac edrych, roeddwn i yn meddwl, reit arna i. Ond welodd hi mohonof fi. Mi glywais i hi yn mynd i'r cefn a bob man i chwilio, dan ffraeo dan ei gwynt. Pen sbel mi aeth allan a chloi y drws ar ei hôl, ac mi oeddwn i yn falch. Ddaeth neb i'r tŷ wedyn y diwrnod hwnnw a'r noson honno cysgais eto yn y gwely mawr.

(Parhâd o'r stori yn y rhifyn nesaf)

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Brynrefail

Cynhelir FFair Wanwyn yn yr Ysgol nos lau, Chwefror 25ain i ddechrau am 7 o'r gloch.

Stondinau, Cacennau, dillad Tombola ymysg eraill
Paned o de a gemau i'ch diddori.

Gwerthir raffl i'w thynnu ar y noson
Croeso cynnes i bawb

Mynediad 30c
Plant a Phensiynwyr 15c

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser gan
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff.

DRYLLIO

Y Gwalch

Mi ddaliodd fy nhad ddryll at Brif Gwnstabl Caernarfon unwaith. Mae'r union erfyn gen i o hyd, yn dal yn weithredol. Gwn un baril ydy o yn tanio hefo bollt, heb fath o *safety catch*. Dydy o ddim o'r math i'w gymeradwyo i bawb; mae ei faril o, yn un peth, dipyn hwy na rhai gwn hela, ac mae'r ergyd yn cymeryd gymaint a hynny yn hwy i adael. O ganlyniad mae o natur taro yn ôl, yn enwedig os y bydd o yn fudr, ac mi rydw i wedi cael aml i bwniad ganddo fo yn fy sgwydda a hollti fy ngweff. Hefo'r iawn bowdwr mi daflith belan, 'run fath a myscet.

Deg swllt ar hugain roddodd fy nhad amdano fo mewn ocsiwn ffarm. Roedd o'n dweud bob amsar mai gwn o Belgiwm oedd o, ac ymhen blyneddoddd wedyn, pan oeddwn i'n byw yn Lloegr, cefais gadarnhau'r syniad.

Roeddwn i wedi mynd â fo at ôf gynnu i roi blŵ i'r baril. "Welais i ddim un o'r rhain ers tro," meddai, ac estynnodd rhyw lyfryn. Yn hwnnw roedd rhestr o *proof marks*. Danghosodd un i mi a oedd yn gyferbyniol union â'r stamp ar *breech* y gwn, a marc *House of Liege* Belgiwm oedd o. Ac fel pe tasa rhywbeth yn mynnu bod, fe ddaeth hen gyfaill o Ffrainc trosodd i aros. Gôf oedd o - wedi marw rwan - o bentref diarffordd yn Pas de Calais. Roedd o'n cadw'r dafarn hefyd, ac fel cyn-aelod o'r Fyddin Gêl, roedd ganddo gasgliad helaeth o ynnau, peth digon naturiol i rai oedd wedi bod yn byw dan draed Jeri. Roedd o'n dweud yr adeg honno fod y gwn tua phedwar ugain oed. Reiffi safonol byddin Belgiwm oedd o cyn y Rhyfal Fawr. Wedi hynny newidwyd y bariliau i fôr llyfn a'u gwerthu wrth y cannoedd. Roedd o'n ddryll cyffredin iawn i hela yn Ffrainc meddai.

Wrth gwrs, roedd gan bawb wn ar y ffermydd erystalwm. Roedd o'n rhan o fywoliaeth rhywun, i gadw llygod a thrychfilod o dan reolaeth, ac yr oedd gwylltffilod o bob math yn lluosog; hwyaid, sgyfarnogod, ffesants, petris a giach, ac ambell i wddd wyllt fyddai yn dod i lawr ar y tyllau mawn, wedi blino a datgysylltu oddi wrth yr heidiâu fyddai yn mynd heibio Wanwyn a Hydref. Byddai cŵn-dŵr hefyd yn dod i fyny'r ffosydd mawn ar y stormydd ar ôl y da pluog, a byddai yn rhaid difa rhai weithiau.

Roedd y dryll yn angenrheidiol hefyd i saethu cŵn lladd defaid, a'r rhai fyddai'r pentrefwyr yn ddod i ni i'w difa. Roeddwn nhw un ai yn methu talu'r drwydded, neu roedd yr anifeiliaid wedi cnoi ieir neu

bobl. Rhag rhoi'r argraff ein bod yn cadw llad-dy elusenol, roeddwn ni'n codi deuswllt am y weithred yn cynnwys pris y powdwr, y drafferth o'u claddu a'r rhyfgy o gael ein cnoi ein hunain. Cyfrifid hynny yn delerau rhesymol. Yr adeg honno nid oedd angen trwydded i gadw gwn ar y tir.

Roedd yna grwydrwyr hefyd yn dod i werthu mân bethau ac i hel rhawn. Byddai rhai yn cysgu noson neu ddwy yn y bing neu'r teisi. Weithiau byddai rhai yn troi yn anhylaw ac anodd eu symud, a'r feddyginiaeth safonol ar achlysuron felly oedd estyn y dryll a bygwth 'rhoi haels yn eu traed nhw'. Ac rwy'n cofio fy nhad yn gollwng ergyd i gyfeiriad y cwt ieir un noson dywedd wedi iddo amau fod yna rhywun yno yn llercian a'i fryd ar gael ceiliog ar draws ei badall.

Ond dydy'r ffaith fod dyn yn saethwr da ddim yn angenrheidiol olygu ei fod wedi mynd yn chwaniog i saethu pobl wrth y dwsin am ddim rheswm yn y byd. O ganlyniad, mae rhai wedi mynd i gario'r syniad fod y clwyf yn heintus, ac ers dim llawer fe ddaeth yma ddau blisman, un ar ôl y llall, i weld fy nryll i ac i archwilio'r trefniadau sydd gen i ar gyfer ei gadw a'i ddefnyddio, ac wrth un o'r rheiny, ar rhyw sgwrs y dwedais i hanes Prif Gwnstabl Caernarfon.

Haf crasboeth 1940 oedd hi, pan oedd pansyrs Hitler wedi gwrthio'r byddinoedd yma i'r môr yn Dunkirk, ac yr oedd pawb yn derbyn y tebygrwydd yr anfonasai ei fyddinoedd yma i'n goresgyn fel ffaith ddifrifol, a phob cyfnos a gwawr, disgwyliid i'r rhain gyrraedd ar ffurf milwyr awyr a oeddynt yn cael eu defnyddio fel lleng flaen. Roedd yna ddynion yn cerdded y ffyrdd a gwarchod y Caerdd Mawr yn y nos, hefo reiffis a phum ergyd, ac yn barod i ganu clychau'r eglwys ar ddyfodiad y gelyn. Doedd yna neb yn holi am drwydded gwn y dyddiau hynny.

Roeddwn ni'n cywain gwair yn yr

hen ffarm fel lladd nadroedd. Roedd y clociau wedi eu gosod ddwyawr ymlaen i ganiatáu golau i ni hyd hanner nos. Wedyn ar ôl y noson fer, welw, roeddwn ni'n ail-afael cyn pedwar y bore. Roedd ffenestri'r llofft yn agored led y pen, a dim ond swm y pistyll oedd i'w glywed yn suoganu. Deffrowyd fi o gyntyn byr gan swm lleisiau oddi allan. Erbyn i mi fynd i'r ffenest, dyna lle'r oedd fy nhad a'i ben allan o'r ffenest arall a'r gwn yn ei law. Roedd yn siarad â rhywun oedd wrth giât y buarth. Roedd yna rhyw wrthrych gwyn yn y fan honno ac un tywyllach wrth ei ochr, a meddyliais os mai Almaenwyr oeddent, roeddwn nhw wedi dysgu Cymraeg cyn cychwyn.

Erbyn deall, pwy oedd yno ond y Prif Gwnstabl gyda rhyw ringyll. Roeddwn nhw wedi bod yn Lôn Pencaea, ac wedi gweld golau anghyfreithlon yn y gwaelodion, meddwn nhw, ac wedi dod i lawr i edrych.

Doedd fy nhad ddim mewn tymer od o felys ar ôl cael ei godi o'i gwsg am ddim rheswm yn y byd, a gofynnodd iddynt pam na fuasent wedi dod ar eu hunion at y drws i guro os yr oedd ganddynt rhyw neges yr adeg honno o'r nos yn y fath gyfnod. Doedd ganddynt, mae'n rhaid, ddim ateb parod i hynny, a chlywais un yn dweud, "Mi fydd yn well i ni fynd". Ac oddi yno yr aethant a'u cynffonnau yn eu gaf.

Bûm yn ffodus i gael hyfforddwr da i'm dysgu i drin gwn yn ifanc, ac adroddwyd i mi enghreifftiau lleol o'r canlyniadau alaethus o esgeulusdod. Lladdodd trigiannydd Glanrafon ei fab yn ddamweiniol wrth gerdded drwy lwyni cyll ger y Bont Rug. Ac fel pe bai hynny ddim digon, rwy'n cofio rhyw ferch ifanc a drigai ar y terfyn â ni yn codi rhyw ben bore, ac yn dal gwn hela yn

groes, yn y tŷ-llaeth, a'i danio â'i throed. Rwy'n cofio yn iawn fy nhad yn gollwng popeth a mynd ati, fel y byddai yn cael ei alw at amgylchiadau ar lawr y plwyf.

Mae hi'n anodd serch hynny darbwyllo'r anwybodus. Mae yna rhyw hen wraig yn byw ar ben yr allt 'ma hefo haflug o gŵn. Dydy ddim yma ond ers rhyw bum munud ar hugain, ond mae hi'n barod yn awgrymu sut y dylen ni fyw, fel bydd y Sahibs 'ma - byth yn esmwyth nes y byddan nhw wedi dod a'r efengyl i'r brodorion. Mi ddaeth i fy ngwynab i ers dim llawar a dweud fy mod i'n fygythiad iddi, yn cario gwn hyd y fan 'ma. Ac er mwyn tawelu ei meddwl hi soniais am ymweliad y plismyn. Wnaeth hynny ddim ond gwneud petha yn waeth. Doedd ganddi ddim ffydd yn y plismyn lleol, meddai hi. Roedd hi wedi bod yng ngŵydd rhyw swyddog uchaf yn swabia Fflint, am wn i ddeudodd hi, ac wrth hwnnw roedd hi wedi dweud, os y basa rhywun yn ei chanfod hi wedi gwneud amdani, amdanaf fi y dylent ddod i chwilio yn gyntaf un. Wel - dydy hi ddim yn rhy ddiweddar i mi farw yn enwog eto ddylwn. Efallai mai fi fydd Jac Riper Pontrhythallt 'ma yn y diwadd.

Ond hawdd yw cellwair. Mae'r dryll i raddau wedi ei ddisodli fel erfyn rhyfel gan y ffrwydrion mawr a'r taflegrau. Cysur yw gweld y rhai sydd yn eu rheoli yn clesio at ei gilydd i drafod moddion i'w lleihau. Serch hynny, wnaiff arwyddo papurau ddim dymchwel damcaniaeth Herman Goering, pan ddywedodd. "Mae gallu terfynol bob amser yn dod o ffroen gwn". Mi gafodd yr hen greadur hwnnw fyw i wireddu hynny yn ei ddannedd ei hun. Does gen i ond gobeithio na chaf fi.

John E. Williams

**Pleser cyhoeddi fod
CYNAN JONES Tanybryn, Nanmor,
Beddgelert yn cynrychioli
Gwasanaeth Ariannol TARIAN
yng Ngwynedd
(Ffôn: 076 686 353)**

Cysylltwch ag ef am eich anghenion ariannol:

PENSIWN

MORGAIS

CYFRIFON

BENTHYCIAD

BUDDSODDI

YSWIRIANT BYWYD A CHYFFREDINOL

GWASANAETH ARIANNOL

24 Stryd Fawr Yr Wyddgrug

Ffôn: 0352 59172 Ffax: 0352 50186



TAC SIS BETH EL

UNRHYW AMSER • UNRHYW BELLTER

Ffôn: (93) 670555

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Anedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.

CYMDEITHAS LENYDDOL: Cafwyd Cyfarfod Llwyddiannus ac addysgiadol yng Nghymdeithas Lenyddol Capel Mawr, nos 21 Ionawr. Y gŵr gwadd oedd Mr T. A. Roberts, Groeslon, a chafwyd sgwrs ddiddorol ganddo am ei waith gyda Telecom. Roedd Mr Roberts wedi dod a gwahanol fathau o ffôn hefo fo, ac fe gafwyd eglurhad beth oedd yn digwydd pan oedd y ffôn ddim yn gweithio. Diolchwyd i'r gŵr gwadd gan Mrs Myfi Roberts a pharatowyd paned gan Mrs Mair Jones, Mrs Jean Davies a Mrs Myfi Roberts. Diolchwyd am y baned gan Miss Malan Roberts. Bydd y cyfarfod nesa nos 28 Ionawr, gyda Mr E. Evans Llanrug yn dangos sleidiau ar addurno ffynhonnau, y llywydd fydd Miss Meiriwen Roberts.

Cafwyd noson o Garolau nos Sul 20ed o Ragfyr dan nawdd Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr, Llywydd y noson oedd y Parch John Morris B.D., a chafwyd y diolchiadau gan Mr Eifion Roberts.

YSGOL SUL CAPEL MAWR: Bydd nifer o blant 8-10 oed yr Ysgol Sul yn mynd i fwrw'r Sul i Ryd-Ddu ar ddechrau Mis Chwefror. Trefni'r y gwersyll yma gan y Cyngor Ysgolion Sul, a gobeithiwn y bydd y plant yn mwynhau eu hunain. Yn ystod yr wythnosau nesaf, fe fydd timau y genethod a'r bechgyn yn chwarae mewn cystadleuaethau pêl droed y phêlwrwyd yn erbyn plant ysgolion Sul eraill yn yr ardal. Hyderwn y byddant mor lwyddiannus a'r llynedd.

LLONGYFARCHIADAU a dymuniadau da am briodas ddedwydd i Andrew a Michelle Williams, Bryn Llan. Maent yn cartrefu ym Mrynrefail.

PLAID CYMRU: Daeth Dafydd Hughes, Prif Swyddog Cynllunio, Cyngor Arfon i sgwrsio am ei waith yng nghyfarfod y gangen ym mis Ionawr. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn a thrafodaeth fywiog yn dilyn. Croesawodd Phyllis Ellis y siaradwr, a hefyd Dyfan Roberts fel aelod newydd i'r gangen.

Byddwn yn ymuno fel cangen â changen Waunfawr yn y Snowdonia Park Hotel (Bryn Einion) Waunfawr, nos Fercher, Chwefror 3. am 7.30 o'r gloch. Bydd Dic Jones wedi trefnu cwis ar ein cyfer, felly cofiwch y dyddiad. Fel yr hysbyswyd yn y rhifyn olaf o'r Eco, bydd Cwmni Drama Llwyndyrus yn perfformio 'O Lofft i Lofft' yn neuadd Ysgol Brynrefail, Nos Sadwrn, Chwefror 27 am 7.00 o'r gloch. A wnaiff yr aelodau sylwi ar ddau gamgymeriad yn y

dyddiadur yn eich rhaglenni. Bydd y Ffair Wanwyn ar Ebrill 13 a'r Cyfarfod Blynnyddol ar Fehefin 8.

Enillwyr y Clwb Cant am fis Ionawr oedd 1. W.A. Jones, Dalar Deg; 2. Vera Williams, Awelon.

PWYLLGOR APÊL YR URDD 1990: Mae'r pwyllgor Apêl ynghyd â chydweithrediad caredig Pwyllgor Clwb Pêldroed yn trefnu Barbeciw a gêm bêldroed ar gae Eithin Duon. Bydd hwn yn ddiwrnod difyr a hwyliog i'r teulu, a'r dyddiad fydd Mai 2 - Gŵyl Fai.

Wedyn ar ddydd Sadwrn Gorffennaf 2 bydd y pwyllgor yn trefnu Gardd - West yng nghastell Bryn Bras, gyda chaniatâd a chefnogaeth Mr a Mrs Gray Parry. Gobeithiwn y cofiwch y ddau ddyddiad.

PENBLWYDD: Llongyfarchiadau i Miss Annie Parry, 14 Hafan Elan ar ddatlu ei phenblwydd yn 93 oed yn ddiweddar. Trefnwyd parti penblwydd iddi yng Nghanolfan Hafan Elan. Talwyd y diolchiadau gan y Parch John Morris.



MERCHED Y WAWR: Cyfarfu Merched y Wawr, Llanrug yn yr Ystafell Gynradd am 7.00 nos Fawrth Ionawr 12fed, y llywydd oedd Mrs Menna Williams. Croesawodd pawb yn gynnes i gyfarfod cyntaf y flwyddyn. Cytunodd y gangen i ddarparu lluniaueth ar gyfer Eisteddfod yr Urdd eto eleni ac i roi'r elw tuag at apêl lleol yr Urdd.

Mr Duncan Brown oedd y siaradwr gwadd. Ef yw Uwch Warden y Warchodaeth Natur yng Nghymru. Yn enedigol o Warwick mae Mr Brown bellach yn byw yn y Waunfawr. Drwy gyfrwng sgwrs ddiddorol a sleidiau hyfryd o fywyd gwyllt a'u cynefinoedd aeth Mr Brown a ni am dro "O Fôr i Fynydd".

Diolchwyd iddo gan Mrs Jean Roberts. Darparwyd paned o de gan Awen Davies, Eirlys Williams, Diane Jeffs a Janice Jones. Diolchwyd iddynt gan Mrs Owen Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror 9fed. Y gŵr gwadd fydd y Prifardd

Ieuan Wyn.

MARWOLAETH: 'Roedd yn ddrwg iawn gennym glywed am farwolaeth Mr D. Glynne Owen ar Ionawr 15ed yn yr Ysbyty yn Birmingham. Roedd Mr Owen yn flaenor ac yn ysgrifennydd Capel Pontrhythallt. Bydd colled mawr ar ei ôl. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w feibion sef Y Parch Tudor Owen a'r Parch Dafydd Owen.

LLONGYFARCHIADAU: Dewiswyd Berwyn Owen, mab Donald ac Eluned Owen, Tegfryn, yn Dechnegydd Gorau'r flwyddyn gan gwmni Beechams. Cyflwynodd y cwmni dystysgrif a gwobr iddo. Llongyfarchiadau iddo.

GWELLHAD: 'Rydym yn dymuno gwellhad buan i Mrs Mary Lloyd Williams, Llys Awen, sydd ar hyn o bryd yn aros hefo'i merch ym Mhontllyfni.

GENEDIGAETH: Llongyfarchiadau i Carys ac Elfyn Owen, mab Mr a Mrs Emrys Owen, Hafan Elan, ar enedigaeth efeilliaid yn ddiweddar.



TÎM PELDROED YSGOL GANOL LLANRUG 1952-53



Derbyniwyd y llun gan Mr Les Larsen, a oedd yn athro yn yr ysgol ar y pryd. Mae rhai enwau ar gefn y llun:— Stanley Jones, Melvyn Pritchard, Owen Lewis, Alun Jones, Tommy Roberts, Kenneth Jones, Gwynfor Jones ac Alun Williams. Pwy yw'r gweddill? A beth oedd hanes y tîm?

BEDYDD: Bedyddiwyd Laura Elaine, merch John Henry a Gwawr Evans, 7 Llain Gro, Llanrug gan y gweinidog y Parch John Morris yng Nghapel Mawr yn ddiweddar.

DIOLCH: Dymuna Bet, Lyndale, Ffordd yr Orsaf ddiolch i'r teulu, ffrindiau a'i chymdogion am eu caredigrwydd tuag at Len dros dymor y Nadolig. Diolch yn fawr.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Nos Fawrth y 19eg bu Mr Iolo Huws-Roberts Waunfawr yn anerch yr aelodau. "Amser" oedd testun ei sgwrs. Diolchwyd iddo gan Mr Emrys Owen. Llywyddwyd gan y Parch John Morris B.D.

Disgwylir Mrs Mary Vaughan Jones i'r cyfarfod nesaf ar yr 2il o Chwefror.

Cwmni Drama Llwyndyrus

yn cyflwyno

'O Lofft i Lofft'
(cyfieithiad o waith Alan Ayckbourn)

yn Neuadd
Ysgol Brynrefail
Nos Sadwrn
Chwefror 27
am 7.00 o'r gloch

Mynediad £1.50
Plant a Phensiynwyr £1.00

Joelas

CARTREF YR HENOED
CARTREF NEWYDD COFRESTREDIG
AG IDDO AWYRGYLCH GYMREIG
CYSYLLTWCH Â MRS MEIRWEN
THOMAS NEU MRS ELI WILLIAMS
Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon
(0286) 4652

J M JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU
Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol,
Cerrig o bob math ar gael.

Ffôn: Caernarfon 2898 (dydd)
Y Felinheli 670124 (nos)

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

PLAID CYMRU; Nos Wener, Chwefror 12fed am 7 o'r gloch yn y Neuadd, cynhelir Pantomeim gan Gwmni'r Llechen Las.

EISTEDDFOD YR URDD DYFFRYN NANTLLE AC ARFON 1990: Da yw dweud fod y gronfa wedi derbyn £181 yn ddiweddar, o ganlyniad i wahanol weithgareddau o gwmpas y Nadolig. Cyflwynodd Mr Islwyn Jones, ar ran yr Ysgol Gynradd, siec £100 ar ôl Cyngerdd Nadolig yr Ysgol. Casglwyd £55 o dŷ i dŷ pan ymwelodd Sion Corn â'r pentref, a derbyniwyd £26 gan Ferched y Wawr ar ôl y Gwasanaeth Naw Llith a Charol. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i bawb, yn enwedig i'r rhai a fu'n barod iawn eu cymorth noson Sion Corn.

Y gweithgaredd nesaf fydd Paned a Chrempog yn y neuadd, brynhawn Mawrth, Chwefror 16eg.

NEUADD GOFFA BETHEL: Cynhaliwyd Pwyllgor y Neuadd nos Wener, Ionawr 8fed pryd y cyflwynwyd adroddiad gan Bensaer ynglŷn â chyflwr y Neuadd. Penderfynwyd cynnal Cyfarfod Cyhoeddus nos Fawrth, Chwefror 9fed, 1988 am 7 o'r gloch yn y Neuadd i drafod y posibilrwydd o fynd ati i godi Neuadd newydd. Taer erfynnir am gefnogaeth i'r cyfarfod, Enillwyr Clwb Cant Rhagfyr 1987 oedd:

1. £20: Hugh Roberts, Penrhos Villa;
2. £10: G. Ellis, 5 Rhoslan;
3. £5: Mrs E Morris, Fachell; Mrs Owen, Caernarfon; Huw Jones, Mark Jones, Cefn; R Jones, Bryn Banon.
MERCHED Y WAWR: Nos Fercher, Ionawr 13eg yn yr ysgol cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn efo Mrs Lynwen Morris yn llywyddu. Y wraig wadd oedd Mrs Antoinette Hughes, Coleg Glynllifon a chafwyd sgwrs ac arddangosfa ddiwyd iawn ar sut i goginio â microdon. Yn ystod y noson coginiodd naw o wahanol fwydydd yn cynnwys pysgod, cig, llysiau a chacenni. Ar ddiwedd y noson rhoddodd yr holl fwyd i'w rafflo ac fe'i henillwyd gan Mrs Eirlys Williams, Mrs Nan Rowlands, Mrs Anne Elis, Mrs Nora Parry, Mrs Eirlys Sharpe, Mrs M G Williams a Mrs Beti Owen.

Diolchwyd i Mrs Hughes gan Mrs Eirlys Williams. Gwnaed y te gan Mrs Rita Williams, Mrs Alys Jones a Mrs Mair Jones. Enillwyd y raffl misol gan Mrs Nora Parry.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 10fed Chwefror yng nghwmni Mrs Mary V Jones a fydd yn dangos ffilmiau.

CLWB Y RHOS: Nos Lun, Ionawr 18fed cafwyd noson ddiffr iawn yng nghwmni Rhodri Prys Jones.

Dangosodd sleidiau a chafwyd sgwrs ddiffr ar ei daith i'r Unol Daleithiau i ddilyn taith bachgen o Lanrug a fu'n ymladd yn y Rhyfel Cartref.

Trefnwyd y noson gan Mr Gareth Hughes, Rhoslan a diolchodd Mr Bobby Haines i Rhodri ar ran y clwb.

Y BEIBL CYMRAEG NEWYDD: Gellir archebu eich copi o'r cyfieithiad newydd o'r Beibl drwy Gapel y Cysegr a manteisio ar ostyngiad o 15 y cant. Mae copi clawr meddal yn costio £5.53; copi clawr caled ar gael am £6.76, ac mae'r Beibl gan gynnwys yr Apocryffa yn costio £8.46.

Os dymunwch archebu copi, dylech wneud hynny a rhoi yr arian i Geraint Elis cyn Chwefror 1af.

Y SIOP SGLODION: Mae'r Siop Sglodion newydd bellach wedi bod yn agored ers mis ac yn ôl pob golwg mae pawb wrth eu bodd ac yn manteisio ar y gwasanaeth newydd yn y pentref.

Dymunwn bob llwyddiant i Mr Gwyndaf Williams a'r teulu yn eu menter.

LLWYDDIANT CERDDOROL: Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant yn yr arholiadau piano yn ddiweddar: Angharad Price; Leah Milligan; Sioned Hughes; Lynne Roberts; Ceril Roberts; Eysyllt Jones a Non Llewelyn Jones. Maent i gyd yn ddisgyblion i Mrs Heulwen Williams.

SIOP SGLODION BETHEL

Mae'n noson go arbennig
Heno'n ein pentref ni
Mae llu, gan lyfu'i gweflau
Yn mynd yn ddau a thri
Ar drywydd ogle' blasus
Sydd fel hudolus si
Yn ferio yn yr awel
A denu pawb o'i dŷ.

Mae'n Ionawr y pedwerydd
Ym mil naw wyth deg wyth,
A heno fe gaiff Gwyndaf weld
Ei lafur yn dwyn ffrwyth,
O flaen y siop mae llinell
Aflonydd, lwgylt; faith
Yn disgwyl sglods a sgodyn
Ymhell cyn taro saith.

Mae Arwel yn chwys domen
Yn llwytho'r bagiau'n llawn,
A Meirion wrth ei ochr
Yn ceisio dysgu'r ddawn.
Mae'r sbid-cop yn ei elfen
Uwchben ei ffwrnais goeth,
A'i garcharorion erbyn hyn
Yw haig o bysgod noeth.

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

GWELLHAD: Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd, a gobeithio'n wir y bydd 1988 yn argoeli'n well i lawer ohonom ac y daw'r tywydd braf hir ddisgwyliedig y flwyddyn naid hon. Gobeithio fod Mr Clifford Richardson yn cryfhau a bod Mr Owen Thomas, 3 Tai Neywddion yn teimlo'n well. Da clywed fod Eurgin Haf, yn well wedi arhosiad byr yn yr Ysbyty. Brysied pawb i wella.

CAPEL BOSRA - YSGOL SUL: Rhagfyr 20fed am 10.00 y bore cafwyd gwasanaeth Nadoligaidd bendithiol iawn yng ngofal Miss Delyth Oswy. Cafodd y plant gyfle i gymryd rhan, i chwilio am adnoddau a gwylio fideo lliw o hanes y Geni. Dymuna'r athrawon ddiolch i Delyth Oswy am ei gwasanaeth a mawr hyderwn y cawm ei chwmni rhywbryd eto. Diolchwyd iddi gan Susan Williams.

LLONGYFARCHIADAU: Pob dymuniad da a phob llwyddiant i'r dyfodol i Gwenllian Parry, Dylan Edwin Jones a Ceirion Williams ar achlysur eu penblwydd yn ddeunaw oed. Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Eirlys Williams, Bryntirion ar ddod yn nain unwaith eto. Llongyfarchiadau i Eurgain Haf ar ei llwyddiant mewn arholiad piano gradd 7 gyda chlod (credit). Y mae'n ddisgybl i Mrs Heulwen Williams, Bethel.

MARWOLAETH: Daeth newyddion i law fod Mr Arthur Collett, Arthur Terrace, gynt wedi marw ym Mlackpool. Arferai gadw Siop Waun ac yna aeth i gadw gwesty. Gedy wraig a thair merch.

DIOLCHIADAU: Dymuna Mrs M.J. Roberts, 5 Lys y Gwynt ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen blwydd yn 87 oed yn ddiweddar.

Dymuna Mrs Eluned Porter, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau ac anrhegion wedi triniaeth i'w phenglin yn Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr.

PWYLLGOR NEUADD BENTREF: Rhagfyr 18fed am 6.30 pm yn Neuadd yr Eglwys daeth cynulleidfada deilwng i ganu carolau ar y cyd â Phwyllgor Eisteddfod Bentref. yr arweinydd oedd Arwel Jones a'r organydd.

Pob lwc i Siop 'Chips' Bethel
A thaened pawb y si,
'Fe ddaeth y pryd blasusaf
O gwt yr hers i ni!

Alys a Robin

oedd Carys Jones. Cafwyd rhai eitemau gan y plant.

Ionawr 11fed am 7.00 p.m. yn Neuadd yr Eglwys, cafwyd Pwyllgor Cyhoeddus 1988. Cyfetholwyd rhai aelodau Newydd.

Ionawr 29ain, am 6.30 p.m. yn Neuadd yr Eglwys cynhelir Noson Santes Dwynwen. Beirniad y cystadleuaeth fydd Mrs Pat Jones, Cae Coch, Brynrefail. Pris mynediad - oedolion 30c plant 10c wrth y drws.

Chwefror 26ain gobeithir cael Noson Gymdeithasol i ddathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis. Fe drefnir bws. Enwau os gwelwch yn dda i Elisabeth Jones ac Ann Ifans. Bydd cystadleuaeth Siôn a Siân, llinell goll a disgo.

Gweithgaredd Mawrth ac Ebrill fydd Raffl Wanwyn. Bydd ticedi ar gael gan aelodau'r Pwyllgor. Tynnir y Raffl yn Ffair Wanwyn, Nos Wener Mai 29ain am 6.30 p.m. yn Neuadd yr Eglwys.

URDD ADRAN BENTREF: Nos Fawrth Rhagfyr 29ain aeth nifer o blant ac oedolion i weld y Sioe Nadolig "Codi Stêm" i Theatr Gwynedd. Mwynhaedd pawb y noson ddiffr.

Ionawr 5ed, Mr Dafydd Price fu'n diddori'r plant gyda gwahanol eitemau. Diolchodd Andrea Paterson.

Ionawr 12fed Bu Mrs Carolyn Roberts yn sôn am y gwaith llaw ar gyfer Eisteddfod yr Urdd gan roi ambell i syniad i'r plant. Rhanwyd tocynnau aelodaeth a bathodynau'r Urdd. Diolchwyd gan Llion Roberts.

Ionawr 19: Mr Leslie Larsen fu'n rhoi cwis diddorol i'r plant. Y bechgyn a orfu - o drwch blewyn! Elizabeth Ann a ddiolchodd.

Dyma restr o'r gweithgareddau am weddill y tymor.

Ionawr 26ain Arlunio gydag Islwyn Williams; Chwefror 2il - noson i'w threfnu; Chwefror 9fed - "Fy Hoff Beth"; Chwefror 16fed - dim cyfarfod oherwydd hanner tymor; Chwefror 23ain Cwis gan Mr Twrog Jones; Mawrth 1af am 5.30 p.m. noson yng ngofal Mr Len Jones. Mawrth 8fed - Gwaith llaw gyda Mrs Pat Jones, Cae Coch, Brynrefail; Mawrth 16 nos Fercher - ymweld â'r Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon. Bws yn cychwyn o King am 5.30 p.m. dychwelyd rua 7.30 p.m.; Mawrth 22 - Parti i orffen y tymor.

Nos Fercher Ionawr 13 aeth 7 o'r genethod i chwarae pêl rwyd i Ysgol Dyffryn Conwy, Llanrws. Yn anffodus colli fu eu hanes ond 'ta waeth, da iawn chi ganed am fynd a diolch i Mrs Elen Lewis a Mrs Ann Paterson am ofalu amdanoch.



22 BRYNTIRION

TACIS WEBB


PENISARWAUN

Ffôn:
Llanberis

870145

Gwasanaeth 24 awr - pell ac agos
Gwasanaeth Maes Awyr
a Phorthladd
Gwaith Contract

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL

Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

DEINIOLLEN

GOHEBYDD: W O Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

CANOLFAN DEINIOLLEN: Bydd Cyfarfod Blynnyddol y Ganolfan yn cael ei gynnal nos Lun, Chwefror 8fed am 7.00 yn y Ganolfan. Taer erfynnir am eich presenoldeb yn y cyfarfod gan y trafodir ymysg pethau eraill yr angen am gael canolfan newydd i'r pentref. Dewch i gefnogi eich canolfan leol.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Ragfyr 7ed o dan arweiniad Mrs Kita Parry Jones y Llywydd, pryd y cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol gyda Mrs Ann Nutch, Pentrefelin, y V.C.O. yn cael ei chynorthwyo gan Mrs Gwen Owen, Porthmaodg. Darllenodd y llywydd y llythyr misol. Cafwyd adroddiad ariannol gan Mrs Glenys Williams y trysorydd a darllenwyd y cofnodion am y flwyddyn gan Mrs Beti Wyn Davies yr Ysgrifennydd. Diolchwyd i Mrs Nutch a Mrs Owen gan Mrs Kita Parry Jones. Rhodwyd y te gan y Pwyllgor. Enillwyd y raffl gan Mrs Beti Wyn Davies. Mynegwyd cydymdeimlad â Mrs Glenys Williams ar golli ei mam. Llongyfarchwyd Mrs Gwen Hughes ar ei dyweddïad a dymunodd y llywydd yn dda i Delyth, merch Mrs Marian Williams a Bryn, mab Mrs Eirian Jones ar eu priodas yn ddiweddar.

Diolchodd Mrs Kita Parry Jones i'r pwyllgor a'r aelodau am yr help a gafodd tra bu hi yn llywydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Dyma'r Pwyllgor am y flwyddyn: Llywydd: Mrs J Eirlys Williams; Islywydd: Miss Beti Williams; Ysgrifennydd: Mrs Beti Wyn Davies; Trysorydd: Mrs Glenys Williams.

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Sefydliad yn y Neuadd ar Ionawr 11eg o dan arweiniad Mrs J Eirlys Williams y Llywydd. Darllenodd Mrs Williams y llythyr misol a darllenwyd y cofnodion gan yr ysgrifennydd. Croesawodd y Llywydd yr aelodau i'r Cyfarfod Cynatf o'r Flwyddyn Newydd. Cafwyd noson ddiffr gyda Mrs Kita Parry Jones efo cwis yn cael ei chynorthwyo gan Miss Beti Williams y Trysorydd. Diolchwyd i Mrs Jones a Miss Williams gan Mrs J Eirlys Williams. Llongyfarchwyd Mrs Williams hefyd ar ei phenblwydd. Diolchodd Miss Beti Williams i'r swyddogion am eu gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Enillwyd y raffl gan Mrs Marian Wyn Williams. Bydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror 1af.

Hefyd ar y Pwyllgor: Mrs Beryl Hughes; Mrs Janice Land; Mrs Kita Parry Jones; Mrs Eirian Jones; Mrs Marian Wyn Williams; Mrs Marion Williams.

PLAID CYMRU: Clwb 100: Mis Tachwedd - £10 Mrs Rosina Worth, Niagra; £8.50 Mrs Lorriane Jones, 1 Tŷ'r Faenol. Mis Rhagfyr £10 Mrs J.C. Hughes, 4 Y Bwthyn; £8.50 Mr Gwilym Jones, Foel Dinorwig. Mis Ionawr £10 Mrs Eirlys Williams, 3 Pentre Helen; £8.50 Mrs Mary Wyn Jones, Ceris.

Y SEINDORF: Ar y 10fed o Ionawr cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol y Seindorf yn ystafell y Seindorf (Band Room). Agorwyd y Cyfarfod gan y Cadeirydd Mr Gwyn Oliver Jones trwy estyn croeso i Arweinydd Newydd y Seindorf, Mr Graham Sandhurst, sydd yn enedigol o Lundain ond ar hyn o bryd yn byw yn Niwbwrch Ynys Môn.

Penderfynwyd fod y Pwyllgor presennol i aros am flwyddyn arall gor-ychwanegol, Mr T.A. Parry fel

aelod anrhydeddus.

Swyddogion am y flwyddyn 1988: Arweinydd Mr Graham Sandhurst; Llywydd Mr G. Oliver Jones; Ysgrifennydd Mr Meirion Jones, Minafon, Clwt-y-Bont; Trysorydd Mr Hefin Goronwy Jones, Llanrug.

Talwyd teyrnged o ddiolch i Mr Thomas Williams am ei Wasanaeth fel Gofalwr ar hyd y blynnyddoedd. Mae Thomas ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth llawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd. Pasiwyd fod y Seindorf i gystadlu yn Blackpool ar y 27ain o Fawrth ac hefyd yng nghystadleuaeth cyn-derfynol Pontins ar ddydd Gwener y 1af o Ebrill.

Enillwyd Clwb 200 y Seindorf am fis Rhagfyr: £20 Mr Ernest Jones, Porth y Gogledd; £15 Mr R Williams, Tan Fron, Dinorwig; £10 Mr D Woods, Fron Heulog, Dinorwig.

DIOLCH: Dymuna Mrs Blodwen Parry, 6 Bro Deiniol ddiolch i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd, Bangor. Diolch hefyd i'r meddygon a'r nyrsus ar Ward Dulas.

Dymuna Mrs M, Humphreys ddiolch i'w pherthnasau, cymdogion a ffrindiau am yr holl gardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar ei phen blwydd yn 90 oed ar Ragfyr 9fed. Diolch o galon i bawb.

DIOLCH: Dymuna Merched Darts "Bull", Deiniolen ddiolch yn fawr iawn i bawb am roddion hael, ac hefyd am eich cefnogaeth ar hyd y flwyddyn drwy brynu "raffles".

Dyma restr o enwau lle mae arian wedi ei rannu am y flwyddyn 1987. Unwaith eto, diolch yn fawr.

Uned Babanod dan bwysau a chynnar, Ysbyty Dewi Sant, Bangor; Clinic Deiniolen: I'r Midwife gael offer. Dinorwig Community Centre. Pensiynwyr y Bull. Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen. Ysgol Brynrefail, Llanrug. Deiniolen Junior Football Club.

Genod Darts Bull

Bob Nos Fercher yr ydym ni'n trafod Yn y Bull y mae cyfarfod. Dwsin o genod sydd yn dod. Bob un yn yfed rhyw fath o ddiod.

Rhaid eistedd i lawr wrth y bwrdd, Neb i godi na denig i ffwrdd Yma'r ydym i godi arian Er mwyn helpu clwbiau bychan.

Yma hefyd i gael gêm o ddart, Ffrindiau mawr, 'heart to heart' Ond rhaid talu am gael gêm, Tydym ni yn genod clên?

Does dim eisiau un i garcio, Ond rhaid dewis un i farcio Er mwyn gwybod Pwy di pwy Rhag ofn i ti ddyblu fo fwy.

Mae eisiau un i werthu 'Raffle' 'Rydym weithiau mewn rhyw 'baffle' Beth gawn ni yn wobwr heno? Basged ffrwythau rwy'n gobeithio.

Ar ôl y bobl yn ri-bi-di-res, Er mwyn codi mwy o bres, Mae na rai sydd ond yn cael dâl Dim deud 'na' a tyrd yn ôl.

Diwedd y flwyddyn mae'n rhaid cyfri Am yr arian wnawn ni ei rannu Mae' na nifer fawr o glybiau Diolch byth am lu o ffrindiau!

Rhoi 'list' i mewn i Eco'r Wyddfa Er mwyn dangos i chi ffrindia Ble mae'r arian yn mynd i gyd I glybiau'r pentre, gwyn eu byd.

R. Jones

PRIODAS: Yn ddiweddar yn Eglwys Sant Mair, Dinorwig priodwyd Carys Williams merch Mrs Irene Williams a'r diweddar John M. Williams, 12 Rhes Faenol, Deiniolen â Robert Wyn Jones, mab Mr a Mrs E Jones, Twlc Uchaf, Nazareth. Bydd y ddau yn

Cyn chwarelwyr



Llun o hen chwarelwyr o Frynsiencyn, Ynys Môn.

Orchwith i'r dde rhes ôl: John Jones, John Parry, Trevor Jones, William Owen, Tudur Jones.

Rhes flaen chwith i'r dde: William Jones, Robin Jones (Robin Fawr), Llew Jones, Alfred Williams (tad Margaret Williams sydd yn adnabyddus am ganu trwy Gymru) a Huw Williams.



Thomas Williams yn cael ei anrhegu am ei wasanaeth gwirfoddol i Seindorf Arian Deiniolen am bedair ar ddeg ar hugain o flynyddoedd. Cyflwynwyd y Tlws iddo gan gyn aelod ei ffrind mawr Owie Parry. Mae pawb o'r Seindorf a'r pwyllgor yn dymuno adferiad buan iawn iddo, ac yn disgwyl ei weld wrth ei waith yn y Cwt Band yn fuan.

ymgartrefu yn Ninorwig. Gosodwyd blodau'r briodferch ar fedd ei thad.

DIOLCH: Dymuna Carys a Rob ddiolch o galon i'w teuluoedd a'u ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion a chardiau a gawsant ar achlysur eu priodas. Diolch yn fawr i bawb.

CLWB ELIDIR: Cynhaliwyd yr uchod yn y Ganolfan, pnawn Mawrth Ionawr 19eg dan lywyddiaeth Mrs Miriam Lewis.

Dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda i bawb a chofwyd am yr aelodau sydd yn wael yn y gwahanol ysbytai a'r rhai sydd yn cwyno gartre.

Cawsom sgwrs hynod ddiddorol gan Mrs Betty Hughes, Cryngae. Roedd

yn sôn am ei gwyliau yn Corfu, ac fe ddaeth ag amryw o bethau o waith llaw y brodorion i'w dangos i ni. Diolchwyd iddi gan y llywydd, ac amryw o'r chwiorydd.

Yn dilyn cawsom de ardderchog trwy garedigrwydd Mr a Mrs Edgar Jones y Becws. Enillwyd y wobwr roddedig gan Mrs Mary Morris gan Mrs Grace Williams. Gan nad yw yn hwylus inni ddefnyddio y clinic, byddwn o hyn ymlaen yn cyfarfod yn y Ganolfan.

CLWB BOWLIO:

Ar fore Sadwrn mae yma glwb bowlio Yma mae'r hwyl a dipyn o frolio Dynion a merched sy'n perthyn i'r Clwb Mae angen mwy, er mwyn i ni gael hwb.

Wedi prynu matin newydd o fri Edrych a gawn ni fwy atom ni. Wedi gweithio'n galed i gael arian mawr Yn awr mae'r boced yn mynd i lawr.

Trowch i fewn bobl y fro Fe gewch gynnig yn eich tro Trigran ceiniog i'w dalu am fore Dewch, efallai mai chi fydd y gore.

'Rwyf yn crefu yn daer arnoch chi, Dewch i mewn i'r clwb atom ni. Mi gewch chi groeso mawr di-ri, Dewch fore Sadwrn, yn ddau a thri.

R. Jones

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

4 Bryn Eglwys
Penisarwaun
Ffôn: Llanberis
871047

OSMOND SHAW DEINIOLLEN

Gwerthu
a Thrwsio
Teledu Lliw Newydd
ac Fel Newydd
GWASANAETH
FFON24AWR
LLANBERIS 870545



**BECWS
DEINIOLLEN**
(D.E. & R.P. JONES)
Ffôn:
LLANBERIS 870232
BARA FFRES A
THEISENNAU BLASUS
Hefyd gwerthwyr
CALOR GAS

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Duw a Mam

Prynhawn Sul ym Mis Chwefror 1954, oedd hi a finnau yn Gwasanaethu'r Efengyl yng Nghapel y Wesleaid Rhostryfan. Gelwais i edrych am yr adroddwr enwog Wil Rolant a'i briod dalentog Beti Wyn. Yr oedd William Rowlands yn cwyno ar y pryd ond yn well. Cefais groeso cynnes iawn. Rhoddodd Beti Wyn dinc ar y Delyn, Alaw 'Cainc y Datgeiniad' a finnau yn canu emyn Moelwyn arni, sef "Pwy a'm dwg i'r ddinas Gadarn". Wedi canu nifer o emynau ar wahanol alawon dyma Beti Wyn yn dweud "beth am adroddiad gan Wil?" "Ardderchog allan a fo," medda finnau.

Adroddodd Wil Rolant yn fendigedig adroddiad a ddtsgodd pan yn blentyn.

Beth oedd yn gwneud y bwthyn gwyn
Ar ael y bryn mor serchog?
Ai'r haf fel rhyw frenhines wen
Oedd uwch ei ben yn marchog?
Ai am fod blodau'n garped tlws
Ar lawr y cwm odano?
Na adgof gofia'r gwir baham
Ond Duw a mam oedd yno.

Pa fodd y magari'r bwthyn bach
Ei blant mor iach a heini?
Ai am fod tân y mawn a'i wres
Yn gynnes i'w siriol?
Ai am fod yno bistyll cain
Ai ddifyr sain i'n swyno
Yn rhedeg gyda'r llwybr cam?
Na, Duw a mam oedd yno.

Beth wnai'r ddyletswydd fore a hwyr
Yn arf i'n llwyr addysgu?
A'n gwneud yn blant o fyddin Duw
A'n dwyn yn fyw i'w garu?
I orffwys rhown ein pennau i lawr
Trwy'r nos fel cawr yn crwydro
Pwy oedd yn gwyllo rhag un cam?
O, Dduw a mam oedd yno.

Beth fydd yn gwneud y nefoedd wen
Mor hawdd ein denu iddi?
Ai rhyw angylion rif y gwllith
Sy'n dryflith wneud eu swyddi?
Ai rhyw oleuni o fyth barhad
Sydd yn y wlad ddi-wylo?
Na, daw'r atebiad megis fflam
Ond Duw a mam sydd yno.

Pwy yw'r awdur?

Emyn Bedydd
Gan y diweddar W.J. Jones, Talymignedd, Nantlle y cefais yr emyn canlynol. Cyflwynwyd yr Emyn gan W.J. Jones yng ngwasanaeth Bedydd ei wyres, Meleri Haf Ellis, merch Gwynfor ac Elen Ellis, Bethel, yng Nghapel Drws y Coed, Nantlle, pnawn Sul, 22 Awst 1982. Y Parch. Gwyn Jones, Nefyn oedd yn ei bedyddio.

Cyflwynaf di fy maban gwyn
I freichiau'r Bugail mwyn.
Ddiodeffodd drosot ar y bryn
Heb unwaith ddweud ei gwyn
Coffleidiai'r Bugail Da ei 7wyn;
Yn gynnes yn Ei gôl,
Fe roes Ei fywyd ar eu mwyn
A thros bechadur ffôl.

Rwy'ti fy mhleintyn heddiw'n lân
Heb bechod yn dy fron
Boed purdeb bywyd yn dy gân
Tra teithi'r ddaear hon.
Dy gynnar fywyd fo yn hardd
Mewn peraid rin a moes,
Yn lliwgar flodyn tyf yng ngardd,
Y gŵr fu ar y Groes.

W.J. Jones, Talymignedd

Atgyfodi

"Yr olwg olaf" gan Dilys
Cadwaladr 1939

Cyflwynedig i'r milwyr dall
Y Delyneg Fuddugol yn yr
Eisteddfod Genedlaethol 1939

Allan o noddfa'r ffos â llan,
A'r gynnau mawr yn gysgod
Aethom i uffern goch y fflam,
Wedyn i'r nos ddiddarfod.

Yn ôl i'n gwlad gan ddiolch oll
Am einioes wedi'r helynt.
Ein baich wrth gofio'n llygaid coll
Yw'r gweld ofnadwy hebddynt.

Dilys Cadwaladr.

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**

Fy Mendith

Fal blodau prennau ymhob rhith, -
fal od
Fal adar ar wenith,
Fal y daw y glaw a'r gwllith.
Mae i undyn fy mendith.

Hen Fardd di-enw.

Smocio

Casglu dail dan draed yn Rindia
Lle mae'r gwres a'r pryfed amla
A'i sugno'n fwg drwy bibell
glaerwen

Dymuniadau gorau am adferiad llwyr a buan i Mrs Mary Lloyd Williams.
Mae Mrs Williams ar hyn o bryd yn aros gyda'i merch ym Mhontllyfni.

Nid oedd mo hyn pan oeddwn
fachgen.

(Bardd anhysbys tua 1646)

Y Pren Crin

Pren crin, pren wedi blino - ar ei
draed:

Ei rwysg wedi cilio
Di-raen gyff, druan ag o!
Mwy, pa gamp yw ei gwmpo?

Cledlyn.

Pwy oedd Cledlyn?

CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen, Caernarfon.

PARTI NADOLIG: Cynhaliwyd Parti Nadolig llwyddiannus yng Nglangwna nos Wener cyn y Nadolig. Roedd cyfanswm o 94 o bentrefwyr a'u cyfeillion yn bresennol i fwynhau'r wledd ac adloniant Gari Williams. Enillwyd y rafflau oedd -

Ticedi Melyn: Petrol (rhodd garej Gwalia) - Nia Parry Jones; Cyw Iâr (Salisbury's) - Heulwen Atkinson; Potel o Win (Arthur Jones) - Val Jones; Bocs o siocled (Lleiflor) - Mrs G. Wills; Bag o datws (Cefn Gof) - Clive James; Dol fawr (Emily Huws) - Tony Griffiths.

Ticedi Glas: Bocs o ffrwythau (Aled Jones) - Idris Jones; Bocs o siocled (Clive James) - Gareth Williams; Potel o Sieri (Mrs Berry) - Idris Jones; Cyw Iâr (Michael Thomas) - Arwel Jones; Bag o Datws (Cefn Gof) - Nancy Jones.

Ticedi Pinc: Porc (Paul Hummell) - Shaun Atkinson; Potel o Win (Deiniol Huws) - Shaun Atkinson; Bara Brith (Becws Cwm y Glo) - Arwel Jones; Tun o fisgedi (Jean Williams) - Ifor Huws; Potel o Win (Dr. a Mrs Parry Jones) - Nan Roberts.

Trwy waith caled yn gwerthu tocynnau ar gyfer y noson a thocynnau raffi, haelioni'r prynwyr a rhoddwyr gwobrau, ac ymdrechion y Pwyllgor, codwyd £126 at darged Caeathro, Pontrug a Rhosbach at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Nyffryn Nantlle 1990.

DIOLCH: dymuna pensiynwyr y pentref ddiolch o galon i Bwyllgor y Cae Chwarae am eu haelioni eto eleni, yn dosbarthu parseli bwyd. Diolch yn fawr iawn.

LLONGYFARCHIADAU: I Jason Hughes, Cefn Gwern, ar gael arddangos un o'i luniau mewn

arddangosfa ym Mirmingham. Da iawn chdi Jason.

GOLAU'R GOEDEN NADOLIG: Ar ôl ymdrechion blynyddol Pwyllgor y Cae Chwarae i brynu, codi a goleuo ein coeden Nadolig liwgar ger y sedd, siom mawr oedd sylweddoli bod rhywun wedi dwyn hanner y goleuadau. Nid gwaith plant mohono, ond gwaith oedolyn a fedrai gyrraedd y golau wyth troedfedd o'r llawr. Beth yw gerth golau lliwgar 15 watt i neb?

PLAID CYMRU: Cynhelir tri digwyddiad yn y dyfodol agos. Ar nos Fercher Ionawr 27 ym Mryn Beddau, Bontnewydd, bydd John Emyr pennaeth Adran y Gymraeg Ysgol Friars, Bangor yn siarad am Ben Yehuda, y dyn a ail-sefydlodd yr Hebrag yn Israel. Wedyn nos Sadwrn Ionawr 30 cynhelir noson Gwin a Chaws yn yr Hen Efail, cartref Dafydd ac Elinor Wigley. Dethlir gŵyl Dewi Sant gyda chinio yng Nglangwna ar nos Sadwrn, Chwefror 27ain. Manylion pellach gan Clive James, Hafan.

YSBWRIEL: Dalier sylw! Mae yn awr dri bin 'sbwriel yn y pentref. Cadw'ch Caeathro'n ddaclus

DRAENOG



Glywsoch chi am y ffarmwr mawr a llysti 'na, sydd hefyd yn hen lanc ifanc - os dach chi'n dallt, sy'n gofalu fod ei dad yn rhoi potel ddŵr poeth yn ei wely bob nos.

Wel, dyna ni - mae potel ddŵr poeth yn llawer rhatach 'na gwraig, medda nhw, ac mae'r ffermwyr 'ma'n bobl dlawd!

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID

PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR 291

Hefyd ail-osod carpEDI

HOME IMPROVEMENT CENTRE

FFORDD YR ORSAF, LLANRUG

Ffôn: C'fon 2212

ar gyfer...

Paent, Papur wal,
Anghenion addurno,
Coed, Tywod, Gro,
Brics, Blociau,
a Sment,
Offer plymio

Anghenion Tŷ,
Garddio,
Hadau Unwin,
Hardware, nwyddau
Ironmonger
Teganau

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

YSGOL YRRU

OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol



PRITCHARD

43 Glanffynnon

LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir

CYDYMDEIMLWN Â'R CANLYNOL:

Â theulu Mrs Sarah Foss, Bryn Teg yn eu profedigaeth o golli mam a chwaer.

Â Gari ac Elwyn Foulkes, a'r teulu yn eu profedigaeth o golli tad sef Meredydd Foulkes Brynrefail.

Â Mrs Enid Thomas, Maes Padarn a'r teulu yn eu profedigaeth hwythau.

Â Mrs Dilys Evans a'r teulu yn eu profedigaeth o golli priod a thad, sef Mr Ifor Evans, Maes Padarn.

Â Mrs Jennifer Hughes, 10 Stryd y Dŵr yn ei phrofedigaeth hithau o golli modryb.

Â Meira a Mrs Williams, Siop Bron March; hefyd Rhona Thomas, Stryd Newton a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli priod, tad a brawd sef Mr Eric Williams, Cwm-y-glo.

Estynnwn ein cydymdeimlad ag Alwyn Jones, 16 Dol Elidir yn ei brofedigaeth o golli ei fam.

Hefyd â Ruby Price a'r teulu yn ei phrofedigaeth hithau o golli ei thad sef Mr T. Ifor Price, Stryd Charlott.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad buan i'r rhai canlynol sydd yn yr ysbyty neu yn cwyno gartref: Mrs Nellie Davies, Rock Terrace ar ôl ei damwain, hefyd ei nai sydd yn ysbyty Gobowen; Mair Watkins, Maes Padarn; Marc Reynolds, Stryd Goodman ar ôl ei ddamwain; Nia Griffiths, Dol Elidir; Mrs Eluned Jones, Stryd y Cae; Olwen Lamberch, Maes Padarn; Dewi Jones, Balacava ar ôl ei driniaeth i'w lygaid; Ken Roberts, Stryd Goodman ar ôl ei ddamwain, Mr Gwilym Jones, Maes Padarn, Pat Williams, 5 Stryd y Dŵr, Mr a Mrs Bill Hughes (Wil Denbigh) Stryd yr Wyddfa, Mrs Annie Blodwen Jones, Ffordd Capel Coch, Mr Guto Owen, Maes Padarn, Mrs Jennie May Jones, Maes Padarn; Mrs Megan Owen, Plastirion, Bungalows.

DYMUNIADAU DA: Dymunwn yn dda i Vernon, Doris, Janet a Bethan Hughes, Beech Bank sydd wedi ymadael o'r ardal i fyw i Ruthin. Bydd colled fawr ar eu holl yn y capel ac yn yr ardal gan eu bod mor weithgar ac yn barod bob amser i wneud cymwynas. Anrhydedd oedd cael cyd-weithio â'r pedwar. Gobeithio y byddwch yn hapus yn eich cartref newydd ac y cawn gwrdd eto o bryd i bryd. Bydd y teulu yn ymaelodi yng Nghapel hen weinidog o Lanberis sef y Parch John Owen.

Dymuniadau da i Mrs Kathleen Williams, Plas Tirion Bungalows sydd wedi dod i fyw i'r ardal. Chwaer Nora a Joan Dol Elidir yw Kathleen - gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

I Mrs Katie Evans, Dol Eilian sydd wedi symud am seibiant i Fron y Graig

Ac i Nellie a Wilbert Davies, Rock Terrace sydd wedi ymddeol. Yr oedd Wilbert yn ofalwr yr ysgol a Nellie yn glanhau'r ysgol. Pob hapusrwydd ac iechyd ichwi yn eich ymddeoliad.

DIOLCH: Dymuna Milly, Margaret a theulu'r diweddar Robin, Coed Mawr, Llanberis ddiolch o galon am y caredigrwydd mawr a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolchwn hefyd i ffrindiau a chymdogion am y cardiau, llythyrau, galwadau ffôn ac ymweliadau yn ystod ei waeledd hir adref ac yn yr ysbyty. Mawr ddiolch hefyd i holl staff wardiau Glaslyn, Aran a Thryfan, Ysbyty Gwynedd a Ward Peris Ysbyty Eryri, Caernarfon. Hefyd diolch i'r gweinidogion Y Parch

Trefor Lewis, Parch Hugh Hughes, Biwmares, Parch Michael Thomas, Bangor a'r Parch Elwyn Jones, Dinas Mawddwy am eu gwasanaeth a'u geiriau caredig. Yn olaf diolch i'r meddygon a staff clinic Llanberis, Nyrs Beth a Twm, hefyd Mr Myrddin Pritchard a Gwynfor am drefniadau'r angladd. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna T H Jones, 6 Rallt Goch, Ceunant, Llanberis ddiolch o galon i berthnasau a chyfeillion am y caredigrwydd mawr a ddangoswyd tuag ato yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd, Bangor a Broadgreen, Lerpwl. Diolch hefyd i feddygon a nyrsus y ddwy ysbyty. Carai hefyd ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i'w ffrindiau oll. Diolch yn fawr.

Dymuna Mrs Kathleen Williams, Plas Tirion ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei symudaid i Lanberis i fyw. Diolch yn fawr.

Dymuna Gareth ac Alwen, Angorfa, Coed y Glyn ddiolch i bawb am y llu cardiau, anrhegion arian a dymuniadau da a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch Rhiannon, chwaer newydd i Iwan.

Dymuna Enid Lloyd Roberts, Maes Padarn ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen blwydd yn 80 oed.

LLONGYFARCHIADAU i Beverley Pitt, Maes Padarn ar ddathlu ei phenblwydd yn ddeunaw oed. Hefyd i Dewi Harris, Strydd Goodman ar ddathlu ei ben blwydd yn ddeunaw oed ar Chwefror 2.

a Colin Jones, 51 Dol Elidir ar ddathlu ei ben blwydd yn un ar hugain oed.

Llongyfarchiadau i Mrs Enid Roberts, Maes Padarn (Auntie Enid) ar ei phenblwydd yn 80 oed, ac hefyd i Miss Ceridwen Hughes Maes Padarn ar ei phen blwydd hithau yn 80 oed, a dymuniadau gorau i Nancy, Stryd y Dŵr ar achlysur ei phenblwydd yn 65 oed.

I Mair a Norman ar enedigaeth eu mab bach

I Gareth ac Alwen, Coed y Glyn ar enedigaeth eu merch fach ac i Jane a Peter Walker, Blaen y Ddol ar enedigaeth eu mab bach hwythau.

DYWEDDIAD: Llongyfarchiadau i Bethan Jones ac Ian Roberts ar achlysur eu dyweddïad.

LLONGYFARCHIADAU: i Rhiannon Pritchard, Madryn ar ennill y wobrgyntaf trwy Gymru ar y gystadleuaeth cyfansoddi Carol Nadolig a drefnwyd dan nawdd BBC Radio Cymru o dan y testun "Carol Ni". Cyfansoddwyd y gerddoriaeth a'r geiriau ganddi sef Carol dan yr enw "Dewch i weld y Baban". Da iawn Rhiannon edrychaf ymlaen am gael copi o'r alaw a'r geiriau. Nid dyma'r gân gyntaf iddi gyfansoddi. Beth amdani Rhiannon a mynd gam ymhellach nawr a chyfansoddi llyfr o dy waith mae digon o ddawn gennyf. Llauer i noson hamdden yr wyf wedi ei threulio gyda dy rieni a thithau wrth y piano yn gwrando ar eich doniau.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Esther Clark, 9 Blaen y Ddôl ar achlysur ei phenblwydd yn 90 oed ar 4ydd o Chwefror. Mae Mrs Clark yn dal i fyw yn y tŷ y'i ganwyd. Dymuniadau gorau oddi wrth y teulu a'i ffrindiau i gyd.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad buan i Enfys Parry, Noddfa, Stryd fawr sydd wedi bod adref yn sâl o'i gwaith yr wythnosau diwethaf.

CROESO: Croesawn Rhingyll Meirion Owen ei wraig a'r mab i'n plith. Y maent wedi symud i Lanberis i fyw o Fethel.

Y BLAID LAFUR: Bob yn ail nos Fercher cynhelir Bingo yn y Ganolfan am 7.30 at y mudiad uchod. Diolch i Keith a Marc Parry am roi eu hamser i ddod bob pythefnos i alw ac i ofalu am y gwobrau. Diolch hefyd heb enwi nei i bawb sydd yn eu helpu mewn unrhyw ffordd. Bydd y Bingo neaf Ionawr 27.

NANT PADARN: Diwedd blwyddyn hapus iawn a fu hi i aelodau Eglwys Nant Padarn pan dderbyniwyd deg o bobl ifanc yn llawn aelodau o Eglwys Iesu Grist ar fore Sul cyn y Nadolig dan arweiniad y Parch Gwynfor Williams. Derbyniwyd a chroesawyd y Rhingyll Meirion Owen a'i deulu sydd wedi symud i'r ardal o Fethel.

Dyma'r bobl ifanc a dderbyniwyd: Dylan Parry, Bryn Roberts, Julie Bayliss, Nicola Bayliss, David Roberts, Sharon Roberts, Trystan Thomas, Eirian Thomas, Geraint Thomas a Neil Owen.

Yng ngwasanaeth y Nos cyflwynwyd drama y geni gan yr oll o'r bobl ifanc, a diolchwyd iddynt ar ran yr eglwys gan Eurwyn Jones, Tawel Lan.

MUDIAD MERCHED LLANBERIS: Cronfa Gofal Calon Ambiwlans Gwynedd: Dymuna'r Mudiad uchod ymddiheuro am fod mor hwyr yn diolch i bawb a gymerodd ran yn y Ras Hwyl, Tachwedd 28ain 1987, tuag at y Gronfa Uchod.

Diolch yn arbennig i Fasnachwyr Llanberis am eu cydnabyddiaeth, Gwesty'r Victoria am y lluniaeth ac i Mr Ken Jones, Blaen Ddol am ei wasanaeth yn trefnu'r ras. Casglwyd y swm o £700 at y gronfa. Diolch i bawb.

Bu y pedwar bachgen canlynol o 9-11 oed Huw O'Donnell, Dylan Williams, Alwyn Thomas a Sion Glyn Jones o gwmpas y pentref cyn y Nadolig yn canu carolau, ac fe gasglwyd ganddynt y swm o £34.

Diolch i'r Parch Trefor Lewis a phobl ieuanc Capel Coch am drefnu noson o Gawl a Chân cyn y Nadolig pryd y casglwyd y swm o £49.50 at y gronfa.

Diolch hefyd i Berchnogion Gwesty'r Prince of Wales, Llanberis am y swm o £108 a gasglwyd trwy Raffl Nadolig i'r achos.

Swm y gronfa i law yw £2664.30.

N.S.P.C.C.: Nos Iau, Chwefror 4, yng ngwesty Dolbadarn am 7.30 hyd 9.30 cynhelir Noson o 'Gaws a Gwin'. Pris y tocynnau £1.50. Yn ogystal mae stondinau cacennau etc. a raffl. Erfyniwn am gefnogaeth at y mudiad da uchod. Os am docyn cysylltwch â mi Iola Sellers neu unrhyw aelod o'r Pwyllgor. I'r rhai sydd yn dymuno mae te a choffi ar gael yn lle'r gwin.

YSGOL PENDALAR: Pleser unwaith eto oedd cael bod yn bresennol yng Nghyngerdd Nadolig y plant. Yr oedd ôl llafur mawr ar waith y plant. Yr oedd 5 o Lanberis yn cymeryd rhan sef Linda a Janet Pitt, Darren a Dylan Jones a Gareth Roberts oll o Dol Elidir. Mae cysylltiad arall rhwng yr ysgol â Llanberis gan mai "hogan o Llanbêr" yw eu Prifathrawes sef Mrs Catherine Jones. Diolch Catherine a'r athrawon i gyd. Yr oedd y plant yn gwneud eu gwaith yn ganmoladwy iawn.

YSGOL TREBORTH: Yn anffodus methais a bod yn bresennol o achos galwedigaethau eraill yng Nghyngerdd Nadolig yr Ysgol ond clywais ei fod mor llwyddiannus â'r llynedd. Y mae dau fachgen o'r ardal yn yr ysgol yma hefyd ac yn cymeryd rhan yn y cyngerdd sef Andrew Pitts a Dewi Jones. Mae prifathro yr ysgol a'i wraig, sef Uncle Wil ac Auntie Dil fel y'i gelwir gan y plant, yn gwneud gwaith datu allan i oriau'r ysgol gyda phlant methodig. Maent yn cynnal 'Gateway' i'r plant bob Nos Wener yn ysgol Treborth, ac yr ywf wedi bod yn ffodus i fod yn bresennol mewn rhai o'r nosweithiau ac yn eu parti Nadolig ac yn gweld y plant yn mwynhau eu hunain. Gobeithio y caf gyfle i gael noson neu ddwy eto eleni fel llynedd yn eich cwmni a'r plant. Bu Auntie Meira sef Mrs Myra Bryn Hughes yn dysgu yn yr ysgol am rai blynyddoedd. Fel y gwelwch mae cysylltiad â'r ysgol yma hefyd â "hen bentref bach Llanbêr".

ER COF AM R.M. OWEN

Dyn parchus a hoffus oedd R.M. Owen neu Robin Coed Mawr fel yr adnabyddid ef gan bawb yn Llanberis a'r Cylchoedd. Adnabum ef am bedair blynedd ar hugain ac ni chlywais ef yn dweud yr un gair sâl am neb.

Coed Mawr, defaid a sgwrsio am yr hen amser oedd ei ddiddordeb a'i bleser.

Clywais ei gymydog yn dweud ei fod wedi ceisio ei hudo i lawr am lasiaid ar Nos Sadwrn, ac er iddi fod yn hanner awr wedi wyth yn y nos, gwrthod a wnaeth a dweud "Caf fwy o bleser yn y fan hyn", a chario 'mlaen i bladuro'r rhedyn.

Anaml y gwelid ef allan o'i ddillad gwaith, ond ar fore Sul yn mynychu'r Capel. Chwith meddwl na chlywir sŵn ei gloisiau ddim mwy hyd y llethrau hyn.

Braint a phleser oedd cael ei adnabod.

Alan Wyn Roberts

YN EISIAU

Hen deiwiadur ar gyfer defnydd plant, Ysgol Tan-y-Coed, Penisarwaun.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,

Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

Dyddiadur y Mis

CHWEFROR

1. LLun. Deiniolen Sefydliad y Merched. Llanrug W.E.A. yn yr Ysgol Gynradd - bob nos lun 7.00
2. Mawrth. Penisarwaun Yr Urdd
3. Mercher. Llanrug a'r Waunfawr Plaid Cymru. cyfarfod ym Mryn Eirian (Snowdonia Park Hotel) 7.30.
4. Iau. Llanberis N.S.P.C.C. Noson Gaws a Gwin yng Ngwesty Dolbadarn 7.30
5. Gwener. Llanberis Te yr Henoed
8. LLun. Deiniolen Cyfarfod Blynnyddol y Ganolfan 7.00
9. Mawrth. Llanrug Merched y Wawr Penisarwaun Yr Urdd
- Bethel Y Neuadd Goffa - Cyfarfod Cyhoeddus 7.00
10. Mercher. Bethel Merched y Wawr
11. Iau. Llanrug Capel Mawr - Y Gymdeithas Lenyddol
12. Gwener. Bethel Plaid Cymru - Pantomeim yn y Neuadd 7.00
16. Mawrth. Bethel Apêl yr Urdd. Paned a Chrempog yn y Prynawyn

MAE'R

SAMARIAID

YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR
Ffôn:
Waunfawr 552

SIMNEIAU GWael? CRACIAU? MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG
Ffôn: Llanberis 871376

Llanrug Y Gymdeithas Undebol
Dafydd Whiteside Thomas.

18. Iau. Waunfawr Carfan Atal Troseddau'r Heddlu wrth y Ganolfan 10.30 - 3.30
19. Gwener. Llanberis Te yr Henoed
23. Mawrth. Penisarwaun Yr Urdd Neuadd Ysgol Brynrefail - Bara Caws "Diwedd y Gân" 7.30
25. Iau. Ysgol Brynrefail Ffair Wanwyn 7.00
26. Gwener. Llanrug Capel Mawr. Cinio Gŵyl Ddewi y Gymdeithas Lenyddol Penisarwaun Noson Gymdeithasol i dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Fictoria Llanberis.
27. Sadwrn. Llanrug Cwmni Drama Llwyndyrus yn Ysgol Brynrefail 7.00

MAWRTH

1. Cymdeithas Undebol Llanrug yn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis.
2. Mercher. Glan Gwna, Caeathro Noson o Adloniant gyda Dafydd Iwan a'r Cynghorwyr dan nawdd Plaid Cymru Llanrug
23. Mercher. Caernarfon Ysgol Syr Hugh Owen, Ffair Wanwyn.

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR

E. PUGH

WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394



LLEOLIADAU SGIPIAU CYNGOR ARFON

ARDAL LLANBERIS

Chwefror 9, 10, 11, 1988

1. Maes Derlwyn - tir gyferbyn â rhif 8.
2. Ystad Maes Padarn - ar y lloiau concrid tu ôl i 27 Dôl Elidir.
3. Ystad Maes Padarn - ar y glaswellt o flaen rhifau 50-53.
4. Y maes parcio sydd gyfochrog â Chanolfan Iechyd, Llanberis.
5. Stryd yr Wyddfa - tir diffaith yng ngwaelod y stryd.
6. Stryd Goodman - tir gyferbyn â rhif 42.
7. Y Stryd Fawr - tir gyferbyn â Bryn Gwyddfan.
8. Llainwen Isaf gyferbyn â rhif 3.

NANT PERIS

9. Tir o flaen yr eglwys.

ARDAL LLANRUG

Chwefror 23, 24, 25, 1988

1. Ar ddiwedd y lôn gyferbyn â Chartref Mamaeth Tyddyn Elan.
2. Ystad Nant-y-Glyn - tir diffaith.
3. Maes parcio Tafarn Pen-y-Bont.
4. Yng nghanol Ystad Bro Rhythallt.
5. Ymyl glaswelltog gyferbyn â rhif 10 Rhos Rug.
6. Ystad Minffordd - tir diffaith.
7. Y fynedfa i Glan Moelyn.
8. Ystad Glanffynnon.
9. Maes Parcio Modurdy Groeslon Marc.
10. Ymyl glaswelltog cyffordd Glanffynnon a Gwel Fynydd.

**CADWCH Y FRO
YN DACLUS**

Un o gartrefi brafia'r fro CARTREF PRESWYL HENOED



BRON ERYRI

LLANBERIS, Ffôn:
870142 neu 870391

PERCHENNOG

MRS. EIRIAN MALI S.R.N.

- Stafelloedd sengl a dwbl
 - Gofal 24 awr
 - Gwres canolog trwy'r adeilad
 - Yr holl staff yn siarad Cymraeg
 - Golygfa hardd
 - Liffat at bob stafell sy' ddim ar y llawr gwaelod
 - Rhagofalon tân priodol
 - Lolfa teledu lliw
 - Pwyntiau teledu ym mwyafrif y lloffttydd
 - Bath-medic
- Cofrestrwyd gan Adran Gwasanaethau
Cymdeithasol Gwynedd**

CHWARAEON

SÊR CHWARAEON YSGOL BRYNREFAIL

Fe gofiwch ychydig cyn y Nadolig i ni gyhoeddi rhestr ar y dudalen ôl o ddisgyblion a chyn ddisgyblion yr Ysgol fu'n bencampwyr Cymru neu'n cynrychioli eu gwlad.

Rhestr a ddarparwyd gan Dic Parry, athro Ymarfer Corff yr Ysgol ydoedd, ac fe'i cysylltwyd ag apêl ganddo am wybodaeth am eraill y dylid eu cynnwys arni.

Un ymateb ddaeth i law, a hwnnw gan un sydd a'i enw eisoes ar y rhestr. Ein hatgoffa mae Irfon Thomas am ddau fu'n cyfoedi ag ef tra yn yr ysgol.

Buarthau,
Llanrug,
Caernarfon,
Gwynedd.

Y ddau yw Ifor Pritchard, gynt o Lanrug, sydd yn awr yn byw ym Mhorthmadog, a Percy Allen, gynt o Lanberis ac yn byw yng Nghaernarfon.

Enillodd Ifor 3 cap fel golwr yn rhyngol 1967-68 pryd yr enillodd Cymru y bencampwriaeth hefyd. Enillodd Percy hefyd 3 cap fel blaenwr yn rhyngol 1969-70.

Hyderafy bydd y wybodaeth yma o gymorth tuag at y Rhestr.

Yn gywir,
R. Irfon Thomas.

Annwyl Olygydd,

Cyfeiriaf at eich colofn Chwaraeon (Pencampwyr Ysgol Brynrefail, Ddoe a Heddiw), yn rhifyn Rhagfyr 1987 o'r Eco.

Mewn ymateb i'ch cais am ychwanegiad i'r rhestr sydd gennyh, yw wyf wedi cysylltu â dau o gyn-ddisgyblion yr ysgol ac wedi cael cadarnhad eu bod hwythau wedi chwarae Pêl-droed i Gymru.

Diolch i Irfon am ei ymateb, 'sgwn i os oes ychwaneg o enwau i'w hychwanegu at y rhestr.

PWY SY'N COFIO?

Daeth pedwar llun, mewn ffurf, negatif, lawr yn ddiweddar trwy garedigrwydd Mr Bryn Williams, LLanrug. Timau pêl droed y gorffennol sydd ar dri ohonynt ond y pedwerydd sydd wedi ennyn y mwyaf o ddiddordeb, canys fe gredir mai llun tîm ydyw fu'n cynrychioli Cynghrair Bangor a'r Cylch mewn gemau yn erbyn Cynghreiriau Môn ayyb.

Mae'n amlwg mai ar yr Oval, Yng Nghaernarfon y tynnwyd y llun, ond 'sgwn i a all rhywun enwi'r holl chwaraewyr a'r swyddogion (mae rhai yn hawdd iawn i bentrefwyr Llanberis a Llanrug) a hefyd nodi'r union flwyddyn.

Gobeithiwn gynnwys y gweddill o'r lluniau ar y dudalen ôl yn y misoedd sydd i ddod.



leuencid Llanberis Dan 18 — 3 Llanrwst United — 3

'Rôl ennill o 6-2 yn gynharach yn y tymor yn erbyn tîm Llanrwst, siomedig oedd perfformiad tîm leuencid dan 18 Llanberis adref yng Nghwpan leuencid Gogledd Cymru ar Sadwrn Ionawr 16. Gyda Llanberis 3-1 ar y blaen 10 munud i'r ail hanner daeth Llanrwst yn ôl i'r gêm gyda 2 gôl yn erbyn pwysedd trwm y Darans. Sgorwyr oedd Dafydd Jones, Stewart Williams (pen) a Terry Saynor.

Methwyd a chynnal yr ail chwarae y Sadwrn diwethaf (Ion 23ain) oherwydd y glaw trwm.



PYSGOTA

Adroddiad H.P. Hughes

Nos Iau y 10fed o Ragfyr 87 fe gynhaliwyd Pwyllgor Blynnyddol y Gymdeithas yn yr Institute, Caernarfon. Roedd 70 o aelodau yn bresennol.

Cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd, Mr Maurice Jones, Penllyn am weithgareddau y Gymdeithas drwy gydol y flwyddyn.

Cyflwynodd Mr Mervyn Harris y Felinheli sef y trysorydd, Y sefyllfa ariannol. Roedd yr arolygon yn ddisglair iawn, er fod llawer o brynu wedi bod, a bod hefyd llawer o eiddo eto i ddod i ddwylo'r clwb yn y dyfodol agos.

Penderfyniad y cyfarfod oedd cadw prisiau y tocynnau am dymor '88 fel y tymor a fu. hynny yw:

1. Tymor llawn i drigolion lleol — cyn 1.3.88 £30; 2. Unrhyw aelod ar ôl 1.3.88 £50; 3. Wythnos £20; 2 wythnos £30; Diwrnod £6. 7. Llyn Padarn a Cwellyn yn unig am ddiwrnod, oedolyn £3.50 plentyn £1.50.

8. Plentyn i fyny at 17mlwydd oed £10 (tymor llawn) ac ymhellach os yn dilyn addysg eilradd.

Swyddogion: Llywydd — Aled Evans, Caernarfon; Is-lywydd — Oscar Evans, Bethel; Alan Huxley Jones, Penygroes; Cadeirydd — Maurice Jones, Penllyn; Is gadeirydd John Allan, Llanrug. Ysgrifennydd Huw P. Hughes, Bethel, Trysorydd — Adrian Roberts, Seion Is drysorydd Gwynfor Jones, Llanrug. Ysgrifennydd y Cofnodion, Ken Hughes Caernarfon.

Aelodau o'r Pwyllgor: Edwin Lewis, Penygroes, Eifion Roberts, Clynnog; Harry Wyn Owen, Talysarn; Gwynfor Jones, Bethel; John Roberts, Groeslon; Aled Jones, Caeathro, Norman Dooley, Caernarfon. Ei swydd i sefyll am ddwy flynedd). Ymddiriedolwyr: Mr William Clwyd Hughes, Waunfawr, Dr Noel Roberts, Caernarfon Dr Gwyn Owen, Penygroes.

Mewn materion eraill roedd cais gan bedwar cyn aelod i ail ymaelodi ar ôl trosedd; bu un yn ffodus o gael codi tocyn, ond gwaharddwyd y tri arall am flwyddyn ymhellach, gyda'r hawl i ail apelio ar y pwyllgor blynnyddol nesaf fydd yn eistedd yn Rhagfyr '88.

Yna bu trafodaethau eang ynglŷn â chiperio a materion eraill yn gysylltiedig â rhedeg y gymdeithas, ond wrth gloi mae'n bleser datgan fod y mwyafrif o swyddogion y Gymdeithas yn dod o ardal yr Eco.

HELYNT YR AFON YN PARHAU

Yn ddiweddar fe glywais bod cyfarfod wedi ei gynnal yng Nghwm-y-glo ynglŷn â'r gorllifiad. Mae'r papurau i gyd yn nodi mai y pysgotwyr sydd yn erbyn unrhyw waith ar yr afon. Peni ydyn fel aelodau wrth weld pwy oedd yn bresennol, rhai fel Dafydd Wigley A.S.; Y Bwrdd Dŵr, Cyngor Arfon a'r Cyngor lleol, ond nid oedd gwadd i ni fel perchnogion hanner gwely'r afon o Benllyn i Bonrhythallt i fod yn bresennol. Tybed a oes rhai pobl ofn clywed y gwir!

NODIADAU O YSGOL BRYNREFAIL

PÊL-DROED

Bu bechgyn y flwyddyn gyntaf (o dan 12 oed) yn anlwcs mewn gêm gyffrous yn ddiweddar yn ail chwarae gêm ail rownd Cwpan Nabisco.

Ar ôl trechu Ysgol Botwnnog o 8 gôl i 1 yn y rownd gyntaf, ac yna dal Caergybi mewn gêm gyfartal, 2 yr un yn yr ail, tair gôl i ddwy o blaid yr Ynsywyr oedd hi yn y diwedd.

Llongyfarchiadau calonnog i Stuart Williams o Fethel ar gael ei ddewis yn aelod o garfan tîm pêldroed Ysgolion Cymru dan 18oed. Er mai disgybl yn Ysgol Caernarfon ydi Stiwi bellach, yma ym Mrynrefail y bu am ei bum mlynedd gyntaf, ac yn y cyfnod hwnnw fe'i dewiswyd i chwarae criced dros dîm ysgolion Cymru dan 16 oed. 'Sgwn i faint o hogia sydd wedi cynrychioli eu gwlad yn y ddwy brif gêm — neb o'r blaen o ardal yr Eco 'rwy'n siwr.

Mae siawns da y cawn ei weld yn cynrychioli Cymru ar yr Oval yng

Nghaernarfon yn erbyn tîm Ieuencid De Iwerddon ar Ebrill 16eg.

CODI PWYSAU

O Fethel y daw Arwel E. Jones hefyd, disgybl Sed flwyddyn sy'n disgelirio ers blynnyddoedd bellach ym myd Codi Pwysau. Bu nifer o adroddiadau ar dudalen ôl yr Eco yn y gorffennol am ei lwyddiant, a'r mis hwn pleser yw cyhoeddi ei fod unwaith eto wedi dod yn gyntaf ym Mhencampwriaeth Cymru i fechgyn dan 16 oed.

Rhagorol Arwel, dal ati.

PÊL DROED Y GYNGHRAIR

Llongyfarchiadau i Iwan Williams, Rheolwr Llanberis ar ei ethol unwaith eto yn reolwr tîm Cynghrair Gwyrfa. Dewiswyd carfan gref ganddo, syn' cynnwys 5 chwaraewr o Lanberis i chwarae yn erbyn Clwyd yng Nghaernarfon ar y 3ydd o Chwefror. Mae Llanberis yn parhau'n bedwerydd yn y tabl, gyda nifer o gemau mewn llaw, a Llanrug yn bedwerydd o'r gwaelod.

Y Darrans hefyd fu fuddugol pan gyfarfu'r timau yng Nghwpan Barrit yn ddiweddar, dwy gôl i un oedd y sgôr.

Yng Nghynghrair Sain, Caernarfon a'r Cylch mae ail dîm Llanberis yn drydydd ac ail dîm Llanrug eto yn hanner isaf y tabl.